


CLONC



www.clonc.co.uk

ISSN 1753-1071



9 771753 107001 >

Rhifyn 280 - 60c
Chwefror 2010

Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llangybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanycrwys ac Uwch Gaeo a Phencarreg

Athrawes Ysgol
Sul am dros
40 mlynedd



Tudalen 7

Cadwyn
arall o
gyfrinachau



Tudalen 16

Siarad
Cyhoeddus
y C.Ff.I.



Tudalen 26

Dyffryn Teifi o dan garped o eira



Rhai o blant Ysgol Carreg Hirfaen yn slejio pan nad oedd ysgol.



Disgyblion Dosbarth y Babanod Llanwnnen gyda'u dynion eira!

Bach o bopeth.....



Manon Richards Brenhines Clybiau Ffermwyr Ifanc Ceredigion ac Emyr Evans Ffermwr Ifanc y flwyddyn yn cyflwyno sicc am £657 i swyddogion cangen Llanybydder o Diabetes UK Cymru sef Mair Evans (chwith), a Betty Jones a Bet Davies (dde), arian a godwyd mewn Cymanfa Ganu a drefnwyd gan Manon ac Emyr ac a gynhaliwyd yng Nghapel y Groes Llanwnnen.



Clwb Ffermwyr Ifanc Llanllwni. Codwyd swm teilwng o £1470.53 yn y Sioe a Threialon Cŵn defaid gyda'r elw yn mynd tuag at Uned Gofal y Fron, Ysbyty Llanelli. Cyfrannwyd cyfanswm y casgliad sef £83.72 o'r Cwrdd Diolchgarwch i Adran yr Urdd, Llanfihangel-ar-Arth a chyflwynwyd arian y Canu Carolau o £715.04 i St John's. Yn y llun mae cynrychiolwyr Adran yr Urdd, Llanfihangel-ar-Arth, St John's, Mr a Mrs Davies ar ran Ysbyty Llanelli ac aelodau'r clwb.



Swyddogion Sefydliad y Merched Coedmor, Ann Lewis, Elma Phillips, Gwyneth Morgan a Joyce Williams yn cyflwyno sieciau am £170 yr un i Tim Dicker a Gethin Jones, Cyd-Ymatebwyr Cyntaf Llambled [First Response] a'r llall i Rod Phillips y Pwll Nofio. Arian a godwyd gan yr aelodau oedd hwn.



Pwyllgor 'Apêl y Gors 09' yn cyflwyno sicc am £40,362.64 i'r Chwaer Linda Jones a'r Chwaer Hilary Jones o Uned Dydd Chemotherapy, Ysbyty Glangwili, Caerfyrddin. Cyflwynwyd y sicc yn Nhafarn Cefn Hafod, Gorsgoch gan y swyddogion (o'r chwith) Wendy Evans, Chwaer Linda Jones, Chwaer Hilary Jones. Geraint ac Eiddwen Hatcher ac Enfys Hatcher, Tafarn Cefn Hafod. Yn y cenffdir mae pobol y pentre a'r gymuned a fu yn cefnogi ac ynghlwm â'r achlysur.



Hewlydd gwledig heb eu graeanu - Neuadd Bro Fana a Thafarn y Drovers, Ffarmers.



Bu Geraint Williams, Muriau Gwyn yn brysur yn tynnu lluniau'r golygfeydd anhygoel o gwmpas Pencarreg yn ystod y tywydd gaeafol. Dyma ei lun o lyn Pencarreg yn cysgu'n dawel o dan ei gwrld o eira gwyn.



Heol y Bryn, Llambled



Maesllan, Llambled



Eglwys Llanwenog
Eglwys Llanwenog

Pwy yw pwy?

Golygydd:

Chwefror a Mawrth: Elaine Davies, Penynant, Alltyblaca 480526
e-bost: golygydd@clonc.co.uk

Tim Golygyddol: Eifion ac Yvonne Davies, Elaine Davies,
Dylan Lewis, Rhian Lloyd a Marian Morgan

Dylunydd: Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015
Swyddog Dosbarthu Eifion Davies, Afallon, Drefach 480590
e-bost: bedwyr@btopenworld.com
Teipyddion: Nia Davies, Maesglas 480015
Joy Lake, Llambled

Gohebwyrr Lleol:

Cellan	Meinir Evans, Rhydfechan	421359
Cwmann	Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen	422922
Cwmsychbant	Mary Davies, Maesglas, Drefach	480015
Llanwenog/Drefach	Mary Davies neu Eifion Davies	
Ffaldybrenin/Ffarmers	Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers	01558 650507
Gorsgoch	Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod	434238
Llambled	Janet Evans, Haulfryn	422856
Llanfair	Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn	493407
Llangybi a Betws	Mair Spate, Tŷ Capel Maesyffynnon	493325
Llanllwni	Dewi Davies, Glanafon	480218
Llanwnnen	Meinir Ebbsworth, Brynamlwg	480453
Llanybydder	Menna Jones, Ceginau Lifestyle	480257
Pencarreg	Linda Thomas, Dolgwm Uchaf	422270

Beth yw beth?

Bwrdd Busnes:

Cadeirydd	Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann	422349
e-bost:	cadeirydd@clonc.co.uk	
Is-Gadeirydd	Marian Morgan, Glasfan, Drefach	480490
Ysgrifenyddes	Mary Davies, Maesglas, Drefach	480015
Trysorydd	Nia Davies, Maesglas, Drefach	480015
e-bost:	ysgrifennydd@clonc.co.uk	

Ceidwad y Camera	Janet Evans, Haulfryn, Llambled	422856
Ffotograffwyr	Tim Jones, Llainwen, Llambled	422644
	Terry Jones, Awel y Grug, Cwmann	421173
Argraffwyr	Gwasg Aeron, Aberaeron	01545 570573

Gwerthfawrogi gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes. Mae cyfraniad pob un yn bwysig.

- Dyma gyfeiriad gwefan Clonc: www.clonc.co.uk os am fwy o wybodaeth.
- Beth am ddod yn ffrind i Clonc ar wefan gymdeithasol facebook: www.facebook.com/clonc
- Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwy i feio neb os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn CLONC.
- Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol.
- Gellir gadael newyddion tu ôl y cownter yn siop bapurau Caxton Hall, Llambled.
- Gellir e-bostio newyddion at y golygydd yn syth: golygydd@clonc.co.uk
- E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i ysgrifennydd@clonc.co.uk
- Mae croeso i chi ddefnyddio eich camera eich hun. Defnyddiwch luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun. Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost cadeirydd@clonc.co.uk
- Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur.
- Gellir tanysgrifio i Clonc am £15 yn unig y flwyddyn. Cysylltwch â'r ysgrifenyddes.
- Nid yw'r golygydd o reidrydd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

Siprys

2010

Ie, Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarlennwyr Clonc. Mae'n syndod fod mis wedi mynd heibio'n barod. Do, fe gawsom ddigon o eira ac mae'n edrych yn debyg fod rhagor ar y ffordd. Ydych chi wedi gwneud adduned? Na, addunedu peidio â gwneud adduned wnes i. Nid oes rhyw ragolygon da am eleni – cai ffatri Bosch, gwerthu ein gwaith siocled i Kraft yn yr Amerig. Beth fydd ar ôl erbyn diwedd y flwyddyn? Pwy a wŷr?

Erlyn! Erlyn! Erlyn!

Hoffais ddywediad ar y teledu rhyw noson yn dangos sut roedd gwlad dramor yn ymdopi â'r tywydd drwg. Yn Norwy roedden nhw a Chymro yno'n trin y tywydd a phan ofynnwyd iddo beth oedd y gwahaniaeth mawr rhyngon ni a nhw, cawsom ateb call. "Os cwmpwch chi fan hyn" meddai fe, "chi sy'n gyfrifol". Trueni na fuasai pawb yn ein gwlad ni'n meddwl yr un peth. "Peidiwch â chlirio'r eira o flaen eich tŷ rhag ofn y bydd rhywun yn cwmpo, ac wedyn peidiwch â synnu os cewch chi eich erlyn". Rydyn ni wedi dilyn yr Unol Daleithiau yn rhy slafaid ac yn edrych am ffordd i allu erlyn rhywun am arian o hyd ac o hyd.

Dathlu!

Gawsoch chi botelaidd o win dros yr ŵyl? Synnais i pan euthum â photeli gweigion i LAS faint oedd yn y cwyd. Dyna fe, nid oeddwn wedi clirio'r un botel ers misoedd. Cyfaill i mi yn dweud ei fod e wedi bod yn gwneud yr un gwaith, ond roedd yn gresynu faint o boteli roedd e wedi eu crynhoi. Cafodd fwy o syndod pan ddaeth dynes ato a gofyn iddo a

oedd ganddo broblem.

Na oedd ei ateb, dof i ben â rhain yn rhydd.

Nage, meddai'r wraig, gan ofyn iddo a oedd yn alcoholic. Bu'n rhaid iddo roi hanes y poteli a'u tarddiad, cyn i'r wraig fynd a'i adael! Chwarae teg iddi. Mae'n dda fod ambell i Samariad Trugarog o hyd yn barod i gynorthwyo.

Aralleiriad!

Roedd gweision a morynion ffermydd ers llawer dydd yn hoff iawn o aralleirio ambell i adnod i gael ychydig o sbri. Cofiaf am fachgen yn y pentre a oedd yn gyfaill mawr â'r siopwr lleol. Yr adnod a adroddodd yn y Capel y bore hwnnw oedd "Da yw Duw i bawb a bobwr!" Dyma oedd y crwt teirblwydd yn galw'r siopwr.

Adnod arall a ddysgwyd i fab fferm gan un o'r gweision oedd, "Gwyn ei fyd y gŵr a gadwo ddigon o stôr o fwyd yn y tŷ a thân ar dywydd oer". Gwers i bawb eleni.

Rheolau'r Ffordd Fawr.

Wedi'r profiad o yrru adre o Gaerfyrddin ac eira newydd ddisgyn ar y ffordd, fe ddaeth hi'n amlwg fod gyrrwr y car o'n blaen ni'n mynd lawr am bentref Gwyddgrug heb yrru mewn eira erioed o'r blaen. Dim ond rhoi ei droed ar y brêc gan lithro o un ochr i'r llall a dilyn y clawdd wnaeth y gyrrwr. Trueni na fuasai cyfarwyddyd syml i yrwr dibrofiad yn ein "Highway Code", o feddwl efallai mai'r cyngor gorau a'r calla yw - "Arhoswch gartre!"

Wel dyma ddechrau cyfnod arall o geisio llanw cornel tudalen 2. Pob hwy a chofiwch - digon o fwyd, digon o dân a digon o halen.

Cloncy.

Gwobrwyo

Adran Bro Gwenog



Nos Fawrth, Ionawr 19eg fe ddaeth nifer o blant ynghyd i Ysgol Llanwenog i noson o gêm. Yna, ar nos Iau, Ionawr 28ain aeth Tîm o'r adran sef Rhys Davies, Ffion Jenkins, Iwan Evans, Ryan Holmes a Twm Ebbsworth i gystadlu yng Nghwis yr Adranau a gynhaliwyd yng Ngwesty'r Plu, Aberaeron. Bu'r tîm yn llwyddiannus a dyfarnwyd y wobwr gyntaf iddynt!! Da iawn chi blant a phob dymuniad da pan fyddwch yn cystadlu yn yr Eisteddfod Gylch ddiwedd mis Chwefror.



Y Cyng. Kistiah Ramaya sydd newydd ymddeol o Gymdeithas Rhieni Athrawon Ysgol Ffynnonbedr ar ôl 30 mlynedd. Cyflwynwyd llun gwreiddiol iddo gan Ann Bevan, Cadeirydd y Gymdeithas Rhieni Athrawon. Yn y llun, a beintiwyd gan un o'r rhieni, Terry Liles, gwelir yr hen ysgol a'r ysgol newydd. Yn y llun hefyd mae'r Pennaeth, Huw Jenkins.



Gwyn Lewis

Cyf

Cyflenwi a gosod:
Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel,
Cladinau Wal,
yn ogystal â Gwelyau,
Pennau Gwelyau a Rygiau.

43 Stryd y Bont
LLANBEDR PONT STEFFAN
Ffôn a Ffacs: 01570 423984
Adref: 01570 423349

Cegin Coedlannau

*'Bwyd cartref ar gyfer
pob achlysur'*

* Cacenau pen-blwydd gyda llun
(ffotograff)

* Bwffe mawr neu fach

* Danteithion i de

* Pwdinau

* Arlwyd ar gyfer pob achlysur



Sirian Davies, Coedlannau

Fach, Cwrtnewydd,

01570 434 243

07815 962 045



Gall y driniaeth yma eich helpu, os
ydych yn dioddef o'r canlynol:

* Blinder / diffyg egni

* Meigrin

* Sciatica

* Irritable Bowel Syndrome

* Menstrual problems

* a mwy

**Os am ragor o wybodaeth
cysylltwch â Carol Rees**

01545 590164

07929 559561

Tim Jones



Ffotograffydd

Llainwen, Rhodfa Glynhebog

Llanbedr Pont Steffan

01570 422644

Oes angen cyngor arnoch?

Mae gennym arbenigedd cyfreithiol
mewn sawl maes, megis:-

1. CYFRAITH TIR,
2. EWYLLYSIAU A'U PROFIAINT,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A
MODD I'W LEIHU,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.

Os hoffech fwy o wybodaeth
mae croeso i chwi gysylltu â ni.

**Arnold Davies
Vincent Evans**

33 Stryd Fawr, Llanbedr
☎ 01570 422517 ☎ 01570 423244

Enwau Lleoedd Lleol gan David Thorne

Alltwalis

Mae'r enw Alltwalis yn digwydd mor gynnar â 1624. Sonnir bryd hynny am 'Tire Allt dwalis'. Alltwalis yw'r unig ffurf ar fapiau'r Arolwg Ordnans a dyna'r ffurf safonol ar yr enw. Yn ogystal â'r pentref sydd ryw hanner ffordd rhwng Caerfyrddin a Llanbedr wrth deithio ar hyd yr A485, ceir Fferm Alltwalis a Nant Alltwalis sy'n llifo dan yr A485 ger hen ysgol y pentref.

Er bod Alltwalis yn ymddangos ar yr olwg gyntaf fel enw digon hawdd ei esbonio'n ddiffwdan, nid felly mae pethau bob amser yn achos enwau lleoedd.

Gallwn, o leiaf, fentro egluro 'allt'; mae'n elfen gyffredin mewn enwau lleoedd ac yn dynodi 'llechwedd goediog'. Ond mae'r ail elfen yn fwy anodd. A yw Walis yn enw personol tybed? Gallai hynny fod, ond yn anffodus nid oes cofnod am berson o'r enw hwn mewn cyfnod priodol y gellir ei gysylltu'n benodol ag Alltwalis nac ychwaith â'r ardal. Ond nid yw hynny'n rheswm digonol, wrth gwrs, dros wrthod yr esboniad ar ei ben: diflannodd llawer o bobl yn niwl y canrifoedd heb ddim sôn amdany'n nhw o gwbl. Ond mae diffyg tystiolaeth benodol yn sicr yn anhawster pendant, yn ogystal â'r ffaith bod yr un enw yn digwydd mor gyson gyffredin ar draws ardal eang.

Mae rhai wedi ceisio cysylltu Alltwalis â'r Lladin 'Alta Valis'. Mae'r Lladin 'alta' yn gytras â'r Gymraeg 'allt' a 'valis' yn perthyn i'r Ffrangeg 'vallé' a'r Saesneg 'vale'.

Ond mae posibilrwydd arall sy'n werth ei ystyried yn ddifrifol. Mae 'walis' yn digwydd yn elfen mewn enwau lleoedd mewn sawl rhan wahanol o Gymru a hynny eto mewn cyfnod cynnar. Roedd lle yn Sir Benfro yn y 13 ganrif o'r enw Redwales ond tair canrif yn ddiweddarach roedd yr enw wedi newid i Fagwyr-goch, sy'n awgrym cryf iawn o ran ceisio priodoli ystyr i'r elfennau sydd gennym i'w trafod y tro hwn: yr un ystyr sydd i 'walis/wallis/walles' â 'magwyr' sef wal gerrig neu gaer. Byddai 'walis' felly yn ffurf gynnar ar y Saesneg walls a deusill y Saesneg gwreiddiol wedi cadw yn y Cymreigiad ohono. Ac Alltwalis, felly, yn dynodi 'llechwedd goediog ger/wedi' i hamgylchynu gan wal'.

Mae 'magwyr' wedi'i fenthycu o'r Lladin 'maceira'; dynoda 'magwyr, wal amgylchynol, adfail'. Digwydd yn elfen mewn nifer helaeth o enwau lleoedd.

Mae ystyried tystiolaeth ar gynfas ehangach yn gallu cynnig dehongliad rhesymol ar yr enw Alltwalis. Ac yn gweddu hefyd ar gyfer esbonio Clunwalis 'dôl ger/wedi' i hamgylchynu gan wal': enw ar le ger Gwernogle ym mhlwyf Llanfihangel Rhos-y-corn ac enw ar le ym mhlwyf Llanedi. Ger Tregaron mae'r enw Cnwc y Walis yn digwydd sef 'bryn bychan ger/wedi' i amgylchynu gan wal'. Ger Sanclêr mae cae a elwir Parc y Walis sef 'cae ger/wedi' i amgylchynu gan wal'.

Roedd Alltwalis arall yn Sir Gaerfyrddin ar un adeg. Mae'r enw wedi diflannu oddi ar fapiau diweddar ond yn digwydd yn y ffurf Galltwalis ym mhapurau stâd Dyffryn Cothi.

Amrywiadau ar 'magwyr' yw 'magwr' a 'magor' a welir yn yr enw Magor yng Ngwent. Magoer yw'r ffurf sy'n cyfateb i 'magwyr' mewn Cernyweg ac sydd wrth wraidd yr enwau Maker a Magor yng Nghernyw.

Rydym wedi gorfod pwyso a mesur sawl posibilrwydd gwahanol y mis hwn. Gobeithio bod un ohonyn nhw wedi dod yn agos at y gwirionedd. Y tro nesaf byddwn yn dechrau ystyried rhai enwau y mae darllenwyr Clonc wedi gofyn imi eu trafod.

O Siambr Cyngor Sir Gâr gan Pryfyn



Ar ddechrau blwyddyn newydd mae'n dda gallu adrodd am fenter newydd a allai gael effaith bellgyrhaeddol ar gymunedau yn ardal Cwmann, Llanybydder, Llanllwni a Llanfihangel-ar-arth. Efallai ichi sylwi eisoes ar wasanaeth bws newydd sbon, 'Bws Ni', yn gwibio trwy'r ardal. Dyma'r cynllun trafnidiaeth cymunedol cyntaf o'i fath yn Sir Gaerfyrddin.

Y cam cyntaf yw cynnig gwasanaeth teithio hwylus i aelodau mudiadau a chymdeithasau lleol ond y gobaith yw estyn hynny yn y pen draw i gysylltu rhannau mwy diarffordd yr ardal â'r prif wasanaeth bysiau. Rhaid ichi ond codi'r ffôn i fwcio Bws Ni - 0845 686 0684

Mae disgwyl y gallai aelodau hyd at 85 o fudiadau lleol elwa o'r cynllun. Rhaid datgan diddordeb trwy gofrestru. Wedi talu ffi bychan a darparu gwirfoddolwr o yrrwr, bydd mudiadau lleol yn gallu trefnu eu taith ar 'Bws Ni'. Er mwyn i'r cynllun fod yn gynaliadwy rhaid i'r gymuned ei ddefnyddio; a'r gymuned, yn naturiol, fydd yn elwa o'i ddefnyddio. Rhaid ichi ond codi'r ffôn i fwcio Bws Ni - 0845 686 0684.

Dau o'n cynghorwyr sir lleol a gafodd y weledigaeth flaengar i drefnu'r gwasanaeth hwn: Fiona Hughes a baratôdd y cynllun busnes ar gyfer y cynllun gyda chefnogaeth frwd Linda Evans. Ffurfiwyd pwyllgor annibynnol dan gadeiryddiaeth Mrs Nans Davies, Pennaeth Ysgol Llanllwni i ysgwyddo peth o gyfrifoldeb gweithredu'r cynllun. Rhaid ichi ond codi'r ffôn i fwcio Bws Ni - 0845 686 0684.

Daw'r cyllid ar gyfer y cynllun o'r Gronfa Ddatblygu Gwledig a darperir y bws-mini gan adran drafnidiaeth Cyngor Sir Gaerfyrddin. Rhaid ichi ond codi'r ffôn i fwcio Bws Ni - 0845 686 0684

Da gweld bod partneriaeth lwyddiannus wedi ymfurfio rhwng yr adran drafnidiaeth a'i swyddogion, ein cynghorwyr sir a'r gymuned yng ngogledd Sir Gaerfyrddin. Mae pob argoel y bydd yn bartneriaeth ffrwythlon.

Mae'n drueni na fyddai arweinydd y Cyngor yn dangos yr un awydd i gydweithio â Mudiad y Ffermwyr Ieuanc yn sirol ac yn genedlaethol. Y diwydiant amaethyddol a'r diwydiannau cysylltiedig yw prif bwerdy economi Sir Gaerfyrddin. A'r hyn gawsant gan Meryl G ddechrau'r flwyddyn hon – cic yn din. Roedd Eirwyn Williams, ein cynrychiolydd arall ar y cyngor sir, wedi atgoffa arweinydd y cyngor nad oedd y cyngor wedi cyfrannu dimau goch erioed at gynnal strwythur y mudiad yn lleol nac yn genedlaethol.

Arllwys ei gwenwyn yn ddilywodraeth ar Fudiad y Ffermwyr Ieuanc yn y fan a'r lle wnaeth Meryl G. Dewis anwybyddu cyfraniadau gwirfoddol sylweddol Mudiad y Ffermwyr Ifanc i elusennau ar draws Cymru; dewis anwybyddu cyfraniadau'r Mudiad at gadwraeth yng nghefn gwlad; dewis anwybyddu cyfraniadau'r Mudiad yn hybu dealltwriaeth rhwng cenhedlodd; dewis anwybyddu cyfraniad aelodau'r Mudiad i economi'r sir; dewis anwybyddu cyfraniad aelodau'r Mudiad i sefydlogrwydd cymdeithasol...

Ac yn gwrando ar fytheirio Meryl roedd sawl dynaid o gynghorwyr o'i phlaid hi sy'n ddyledus iawn i Fudiad y Ffermwyr Ifanc. Mae'n hen bryd i'r cynghorwyr hyn ddod at eu coed a chael eu hatgoffa o wir werth mudiad a roddodd bob braint yn rhad ac yn ddirwgnach iddyn nhw. Ond mae arwyddion bod newid yn y gwynt a'r glymblaid Annibynnwyr-Llafur dan straen wrth drafod torri cartrefi gofal Sir Gâr.

Ar ddechrau blwyddyn newydd, dyma'r annibendod a elwir yn glymblaid Cyngor Sir Gaerfyrddin.



CHWEFROR

- 5 C.F.F.I Llanllwni yn cynnal Tip-It yn Talardd, Llanllwni am 7.30yh. Croeso cynnes i bawb!
- 5 Dosbarth Cadw'n Heini Gyda Js Workout o 8 - 9 yn Neuadd Gymunedol Eglwys Llanllwni, Maesycrugiau - cost sesiwn £3.50.
- 12 "Mae stori Y Dyn Drwg a'r Da Da yn adloniant campus ar gyfer plant bach, plant mawr a phlant sy'n bwrw mla'n yn ddiogel" medd Euros Lewis, cynhyrchydd pantomeim cyntaf Cwmni Troedyrhiw a Garn Fach a fydd yn ymweld ag Ysgol Cwrtnewydd.
- 12 Dosbarth Cadw'n Heini Gyda Js Workout o 8 - 9 yn Neuadd Gymunedol Eglwys Llanllwni, Maesycrugiau - cost sesiwn £3.50
- 14 Cymaafa Ganu yng Nghapel Nonni. Ysgol Llanllwni yn dathlu 140 mlynedd.
- 15 Cinio Cymdeithas Ddiwylliadol Bethel Parcyrrhos ym Mhrifysgol Llambled am 7.30 yh. Gwr gwadd: Mr Elfyn Davies, Ffarmers.
- 15-19 Wythnos Adloniant C.F.F.I. Ceredigion.
- 19 Dosbarth Cadw'n Heini Gyda Js Workout o 8 - 9 yn Neuadd Gymunedol Eglwys Llanllwni, Maesycrugiau - cost sesiwn £3.50.
- 20 Noson o Ddramâu gyda Chwmni Drama Cudyll Coch, Llandeilo am 7.30 y.h. yn Neuadd Bro Fana, Ffarmers.
- 20 Panto Cwmni Bois Garn Fach Y Dyn Drwg a'r Da Da, Cwmni Cydweithredol Troed y Rhiw a Bois Garnfach, Neuadd Ysgol Llanfihangel am 7.30yh £4 i oedolion £2 i blant. Addas ar gyfer y teulu a bydd 'na llond lle o chwerthin!
- 22 Derbyn newyddion CLONC ar gyfer rhifyn mis Mawrth.
- 25 Eisteddfod yr Urdd Cylch Llambled yn Ysgol Gyfun Llambled.
- 26 Dosbarth Cadw'n Heini Gyda Js Workout o 8 - 9 yn Neuadd Gymunedol Eglwys Llanllwni, Maesycrugiau - cost sesiwn £3.50.
- 27 Eisteddfod Flynyddol Llanfihangel ar Arth yn Neuadd yr Ysgol Llanfihangel yn dechrau am 12yh; rhaglen ar gael o wefan www.llanfihangel-ar-arth.com neu cysylltwch â'r Ysgrifennydd, Gerald Coles ar 01559 384 987

MAWRTH

- 1 Cawl a Chân yn Neuadd Gymunedol Llanllwni. Rhan o ddathliadau Ysgol Llanllwni yn 140 mlynedd.
- 3 Dosbarth wythnosol Yoga yn ail ddechrau gyda Js Workout yn Neuadd yr Ysgol Llanfihangel ar Arth o 8 - 9 cost sesiwn £3.50
- 5 Bingo Pwyllgor Mabolgampau Cwrtnewydd yn Ysgol Gynradd Cwrtnewydd.
- 5 Noson Agored Gŵyl Ddewi Cymdeithas Ddiwylliadol Bethel Parcyrrhos yng Nghanolfan Cwmann am 7.30yh. Gwr gwadd: Dr Hefin Jones, Caerdydd.
- 8 Cawl a Chân yng Ngwesty'r Grannell yng nghwmi plant yr ysgol a Lleisiau Bro Eirwyn.
- 13 Eisteddfod Rhanbarth Cynradd ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid.
- 17 Eisteddfod Rhanbarth Dawns ac Aelwydydd ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid.
- 19 Eisteddfod Rhanbarth Uwchradd ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid.
- 20 Cyngerdd yng nghwmni Côr Meibion De Cymru am 7.30 y.h. yn Neuadd Bro Fana, Ffarmers.
- 22 Derbyn newyddion ar gyfer rhifyn mis Ebrill.

EBRILL

- 7 Eisteddfod Capel-y-Groes, Llanwnnen.
- 25 Cymanfa Ganu'r Undodiaid yng Nghapel Llwynrhydowen, Rhydowen am 2.00y.p. a 5.30y.h. Croeso cynnes i bawb.
- 26 Derbyn newyddion ar gyfer rhifyn mis Mai.

MAI

- 1 Noson yng nghwmni Dewi Pws, Ryland Teifi, Roisin Clansy Davies, Radwm a Sesh Mawr yn y Llew Du, Llanybydder. Elw tuag at Ambiwllans Awyr Cymru ac M.S. Cymru. Tocynnau gan Doreen (480461) a Delyth (480577).
- 1 Eisteddfod Capel y Fadfa Talgarreg. Am fanylion cysylltwch â Emyr Griffiths ar 01545 590383 neu Janice Davies ar 01545 590318.
- 17 Derbyn newyddion ar gyfer rhifyn mis Mehefin.
- 22 Rali C.F.F.I. Ceredigion.
- 31 Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Ceredigion ar Stad Llanerchaeron.

MEHEFIN

- 1-5 Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Ceredigion ar Stad Llanerchaeron.
- 21 Derbyn newyddion ar gyfer rhifyn mis Gorffennaf.

Llwyddiant

Llongyfarchiadau i Sophie a Lauren Jones, Awel y Gors ac Elinor Jones, Penlon ar basio eu gradd 5 ar y piano.

Hefyd i Gwawr Hatcher, Cefn Hafod am basio ei arholiad Telyn gradd 3 gydag anrhydedd. Da iawn ferched, daliwch ati.

Pen blwydd

Pen blwydd Hapus i Dannie Davies Llain Gors ar ei ben blwydd yn 85 ym mis Ionawr. Pen blwydd hapus iawn i chi oddi wrth bawb yng Ngorsgoch!

Gwellhad

Braf yw gweld Gwyneth Morgans, Pensarnau yn gwella'n dda ar ôl ei llawdriniaeth yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Mrs Jean Evans, Llwyn-y-gôg ar ddod yn hen fam-gu unwaith eto, merch fach i'w wyres, Marian, ac Eifion yn Llanybydder.



Aelodau Pwyllgor Sioe Gorsgoch yn rhannu yr elw o £2,000 yn gyfartal rhwng Canolfan Y Bont Llambled ac Uned Dydd Chemotherapy, Ysbyty Glangwili. Cyflwynodd y Cadeirydd, Elfyn Morgans y siec am £1,000 i Clare Taylor a Carys Rees o Ganolfan y Bont a chyflwynodd Gerwyn Williams, Llywydd y Sioe y siec i Linda Jones a Hilary Jones o Ysbyty Glangwili. Hefyd yn y llun mae Rhian Bellamy Powell, Ysgrifennydd a Wendy Evans, Trysorydd.



Yn absenoldeb Lynda Jones, Penlôn, un o staff Banc Barclays Llambled a gyflwynodd siec am £750 o dan gynllun £ am £ y Banc i Apêl y Gors. Yn y llun mae Wendy Evans, David Evans, Geraint Hatcher ac Enfys Hatcher.

HYSBYSEBU YN CLONC

"Mae mwy a mwy yn gweld gwerth mewn hysbysebu yn y Papur Bro."

Amcangyfrifir bod tua 3,000 o bobl yn darllen CLONC.

£10.00 am floc bach.

£30.00 am chwarter tudalen.

£50.00 am flwyddyn o flociau bach.

Cysylltwch ag Ysgrifenyddes CLONC am ragor o wybodaeth:

01570 480015 neu ysgrifennydd@clonc.co.uk

O'r Cynghorau Bro



Cyngor Tref Llambed

Maer: Selwyn Walters, Clerc: Eleri Thomas, Cynghorydd Tref a Sir: Robert (Hag) Harris, Cynghorydd Sir: Ivor Williams

Cyfarfu'r Cyngor ar 26 Tachwedd 2009 yn Neuadd yr Eglwys, Llanbedr Pont Steffan.

Cyn i Gyngor y Dref ddechrau trafod cafwyd anerchiad cryno gan Dr Clive King, Cadeirydd dros dro Bwrdd Ymddiriedolwyr Cyngor ar Bopeth (CAB), Cylch Aberystwyth.

Mae CAB yn helpu pobl i ddatrys eu hanawsterau cyfreithiol, ariannol a phroblemau eraill trwy drefnu cyngor annibynnol, cyfrinachol a diduedd yn rhad ac am ddim. At hyn, mae gwasanaeth cynghori ar gael i'r rheini sy'n dioddef oherwydd camddefnydd o gyffuriau ac alcohol neu'n dioddef o salwch meddwl.

Nodwyd bod pob CAB yn elusen ac yn ddibynnol ar gynghorwyr i gynnal y gwasanaeth. Mae'r rhan fwyaf o'r cynghorwyr yn wirfoddolwyr sydd wedi derbyn hyfforddiant. Ar hyn o bryd cynhelir Cymhorthfa bob wythnos yng Nghanolfan Feddygol Llanbedr Pont Steffan.

Hyderai Dr King y byddai'r Cyngor yn cefnogi'r mudiad ac y byddai modd sefydlu partneriaeth gadarn rhwng y ddau gorff.

Penderfynwyd enwebu un o gynghorwyr y dref yn aelod o Fwrdd Ymddiriedolwyr y CAB yng nghyfarfod mis Ionawr.

Diolchwyd i Dr King am ei gyfraniad.

Mae copi o Adroddiad Polisi Cymdeithasol y CAB (Mehefin 2009) yn Llyfrgell y Dref.

Croesawyd yr aelodau i gyfarfod Cyngor y Dref gan y Maer ac offrymwyd gweddi gan y Cyng. Hag Harris.

Gobaith cyngor y dref oedd y byddai'r parth heb alcohol yn weithredol erbyn dechrau 2010. Mae'r Cyngor Sir wedi derbyn cais ar y cyd gan gyngor y dref a Heddlu Dyfed-Powys i sefydlu parth heb alcohol yn Llambed.

Ymateb cyngor y dref i Gynllun Plismona Heddlu Dyfed Powys 2010-2013 oedd awgrymu y dylid rhoi blaenoriaeth i geisio datrys ymddygiad gwrthgymdeithasol, torcyfraith sy'n sgil effaith cyffuriau a chynyddu presenoldeb yr heddlu ar y stryd.

Mae cyngor y dref yn aros am gadarnhad gan y Cyngor Sir y bydd y fynedfa i faes parcio'r Rookery yn cael ei gwella. Datganodd y cyngor ei gefnogaeth i ymdrech y Cyngor Sir i wella'r drefn parcio ar y Cwmins, sef cynllun parcio'n ddi-dâl dros gyfnod byr. Cyn y gellir mynd â'r maen i'r wal, rhaid ceisio datrys anhawster cyfreithiol parthed union statws y Cwmins.

Mae diogelwch cerddwyr ar Ffordd y Gogledd yn dal yn ofid i'r cyngor. Cyn gallu symud ymlaen rhaid disgwyl ymateb gan Gyngor Ceredigion. Mae parcio yn Heol y Bryn hefyd yn ofid i'r cyngor ond rhaid aros am ymateb gan Geredigion.

Penderfynwyd nad oedd lesio Hen Swyddfa Bost y dref yn ymarferol i'r Cyngor.

Nid yw problemau goleuo'r ardal rhwng ATS ac Ystâd Bryn Steffan wedi eu datrys eto a nodwyd nad oedd amryw oleuadau stryd ar Ffordd y Goedwig yn gweithio ychwaith.

Mae Cyngor Ceredigion yn ymwybodol bod mawr angen codi chwyn mewn sawl man o gwmpas y dref.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: 14 Ionawr 2010 yn Festri Shiloh am 7.30.

Mae'r tywydd wedi gorfodi llawer o gynghorau bro i ohirio eu cyfarfodydd.

Cyngor Tref Llambed

Maer: Selwyn Walters, Clerc: Eleri Thomas, Cynghorydd Tref a Sir: Robert (Hag) Harris, Cynghorydd Sir: Ivor Williams

Cyfarfu'r Cyngor ar 14 Ionawr 2010 yn Festri Shiloh, Llanbedr Pont Steffan.

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y cadeirydd. Eglurwyd mai pwrpas y cyfarfod oedd pennu maint y presept (sef y dreth leol a godir gan Gyngor y Dref) am y flwyddyn ariannol Ebrill 2010-Mawrth 2011.

Ystyriwyd y Gyllideb a gan fod y cynghorwyr yn teimlo y gellid cwrdd â'r holl alwadau o fewn terfynau'r gyllideb a oedd wedi ei pharatoi, penderfynwyd cadw'r presept heb ei newid am y 6ed flwyddyn yn olynol sef £43,220 (£48.48 y flwyddyn neu 93c yr wythnos i drethdalwr band D).

Mae'r ffaith nad oes cynnydd wedi bod yn y presept ers blyneddau yn dangos y ffordd effeithiol y mae'r aelodau wedi gofalu am arian y cyhoedd.

Bu'r gostyngiad yng nghost cynnal y Camerâu Cylch Cyfyng yn allweddol er mwyn i'r Cyngor Tref fod yn stiwardiaid effeithiol ar arian y trethdalwyr.

Ystyriwyd maint y swm cyfalaf oedd wrth gefn (£152,000 ar 31.03.2010 gan gynnwys cymynrodd o ryw £11,500). Adroddwyd y gallai'r Cyngor Tref wynebu sawl her ariannol yn y dyfodol gan fod Prydain yn debygol o weld gostyngiad yn y gwariant ar wasanaethau cyhoeddus.

At hynny gallai'r Cyngor Sir ddileu rhai gwasanaethau arbennig. Byddai'r arian wrth gefn yn cynnig cyfle i'r Cyngor Tref ymgymryd â prosiectau e.e. y les ar Gae Maesyderi a thalu am wariant cyfalaf.

Penderfynwyd y byddai swm o £1,500 yn cael ei glustnodi ar gyfer cynllun Cae Maesyderi heb orfod dychwelyd at y pwyllgor llawn. Byddai angen

caniatâd, sut bynnag, petai gwariant cyfalaf uchel.

Cyngor Bro Llanllwni

Cadeirydd: Tom Jones, Clerc: Eirlys Davies, Gohebydd y Wasg: Dewi Davies, Cynghorydd Sir: Linda Evans

Cyfarfu'r Cyngor ar 14 Medi 2009

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau ynghyd â'r Cwnstabl Rhydian Jones i'r cyfarfod.

Soniwyd am y cyrch cyffuriau diweddar yn y pentref. Awgrymwyd y byddai'r heddlu yn gallu cael dolen ar wefan y plwyf pan fyddai'r wefan wedi'i chwblhau.

Cadarnhawyd bod y Cynghorwyr yn archwilio'r maes chwarae a'r adnoddau yn rheolaidd.

Roedd y Cyngor yn dal i aros am gyfarwyddyd oddi wrth Un Llais Cymru am berchenogaeth y cae sydd i'w drosglwyddo i ofal y Cyngor Bro.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u brwdfrydedd dros y plwyf.

Cyngor Cymuned Llanybi

Cadeirydd: D. Jones, Clerc: Mrs Mair Spate, Cynghorydd Sir: Odwyn Davies. Cyfarfu'r Cyngor ar 16 Rhagfyr 2009

Nodwyd bod yr archwiliad wedi'i gwblhau. Adroddwyd am y cyfarfod a gynhaliwyd i aildrefnu'r ffiniau pleidleisio. Roedd y Cyngor yn disgwyl rhagor o wybodaeth am hyn.

Nodwyd bod post teliffon Silian i'w archwilio.

Derbyniwyd gwybodaeth am Dân ac Achub, stondinau rhad i'r rheini dros 50 oed mewn marchnadoedd, swydd Cysylltwr Bro Ceredigion, canlyniadau 'Hawl i Dramwy'.

Cyngor Cymuned Llanwenog

Cadeirydd: Mary Thomas, Clerc: Wenella Evans, Cynghorydd Sir: Haydn Richards

Cyfarfu'r Cyngor ar 19 Ionawr 2009

Croesawyd pawb i Neuadd y Pentref, Drefach gan y Cadeirydd.

Roedd llythyr wedi cyrraedd oddi wrth yr Adran Briffyrdd yn dweud nad ydynt yn fodlon rhoi'r ffyrdd ger Ysgolion Cynradd Llanwenog a Chwrtnewydd ar y rhestr fyddai'n sicrhau eu bod yn cael blaenoriaeth o ran graeanu yn ystod y gaeaf. Doedd y cyngor ddim yn hapus â'r sefyllfa ac yn bwriadu rhoi'r wybodaeth i'r ysgolion.

Bydd y gwter ger Neuadd y Bryn, Cwrtnewydd yn cael ei thrwsio yn y flwyddyn ariannol nesaf.

Mae'r Cyngor yn bwriadu manteisio eleni eto ar y cyfle i gael grant o 75% ar gyfer torri prysgwydd ar lwybrau Glanyrafon a Phant. Nodwyd bod grant hefyd ar gael i agor llwybrau sydd wedi eu hagor yn y gorffennol ond sydd wedi cau eto erbyn hyn. Bydd hynny yn cael ei drafod yn y cyfarfod nesaf.

Nodwyd bod y Cadeirydd wedi bod mewn cyfarfod parthed ffiniau etholiadol y sir yn ddiweddar.

Penderfynwyd ar ôl trafodaeth gadw'r presept yn ddigryfned.

Trafodwyd y gysgodfan yng Nghwrtnewydd a phenderfynwyd ei thrwsio. Bydd angen pris cyn bwrw mlaen.

Bydd llythyr yn mynd at y Cyngor Sir yn sôn fod dŵr wedi gorlifo ger Gwastod, Cwmsychbant eto - y gwter wedi cau; dŵr yn casglu y tu allan i Blasnewydd, Drefach - y gwter wedi cau; dŵr yn casglu ger chwarel Alltgoch - falle bod angen cwter mwy o faint.



Nofwyr ieuainc yn dysgu bod yn Achubwyr Bywyd ym Mhwll Nofio Llambed wedi iddo ail agor ar ôl gwaith adnewyddu ar gost o £45,000.

Cwmsychpant

Arholiad

Llongyfarchiadau i Meinir Davies, Caerwenog ar basio arholiad Gradd 4 Theori gyda theilyngdod. Da iawn ti.

Cymanfa Garolau Ysgol Sul y Cwm

Ar nos Sul olaf 2009 daeth llond capel ynghyd i Gwmsychpant i Gymanfa Garolau o dan nawdd yr Ysgol Sul. Yr arweinydd oedd Einir Ryder, Tyngrug ganol a'r organydd oedd Carys Evans, Penffordd - y ddwy yn gyn ddisgyblion o'r Ysgol Sul. Cafwyd noson arbennig iawn yng nghwmni'r ddwy gyda chanu da iawn. Artistiaid y noson oedd Plant yr ysgol Sul a Pharti'r Gannwyll. Cafwyd ganddynt eitemau amserol a chofiadwy. Y llywydd oedd Clive Williams o Rydyfelin ger Aberystwyth [ond fel Clive Clyncoch yr adnabyddir ef yn yr ardal yma] ac fe gafwyd ganddo nifer o straeon am ei gyfnod ef yn yr Ysgol Sul yng Nghapel y Cwm sawl blwyddyn yn ôl bellach.

Yn ystod y Gymanfa cafodd Jean Richards, Elmo, athrawes yn yr Ysgol Sul am dros 40 o flynyddoedd ei chyflwyno gydag anrheg gan ei bod yn ymddeol o fod yn athrawes yn yr Ysgol Sul. Hefyd bydd ei chwaer Wenella Evans, Penffordd yn gorffen a fu yn ei helpu dros y blynyddoedd diwethaf

Pen-blwydd Arbennig

Dathlodd Eurwyn Davies, Maesnewydd ben-blwydd arbennig ar ddechrau Ionawr.



Jean Richards a Wenella Evans gyda phlant yr Ysgol Sul.

Lle aeth pawb?



Dyma'r hen lun a ymddangosodd yn rhifyn Rhagfyr o'r cynllun sychu gwair yn Alltbylaca. Diolch am yr ymateb a gafwyd. Gwilym Lloyd Jones yw'r un ar bwys y drws, sef tad-cu Emyr ac Eifion Rees, Pantronnen, Cwmsychpant. Oes mwy o wybodaeth gan rywrai eraill? Cysylltwch â'r golygydd.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â Lilwen Davies, Brynawel a'r teulu ar golli mam, mam-gu a hen fam-gu annwyl sef Mrs Sarah Davies, Brynau, Mydroilyn.

Capel Y Cwm

Ymddeoliad y Trysorydd
Ar ddiwedd y flwyddyn daeth cyfnod Mrs Jean Evans, Llwyn y gog, Gorsgoch i ben gyda'i ymddeoliad o fod yn Drysorydd y Capel. Mae Jean wedi gwneud y swydd yma ers tua 20 mlynedd ac wedi dweud ar ddiwedd sawl blwyddyn na fyddai yn cario ymlaen ond - ymlaen yr aeth fel y gwyddom a hynny o nerth i nerth. Yn y cwrdd cyntaf yn 2010 diolchodd Y Parch Wyn Thomas iddi am ei chyfraniad gonest i Capel y Cwm ar hyd y blynyddoedd a dymunodd yn dda i'w holynydd sef Mrs Elenid Jones, Talarwen.

Llongyfarchiadau

Daeth llwyddiant i ferched Clwb Ffermwyr Ifanc Pontsian yng nghystadlaeth Siarad Cyhoeddus Cymraeg CFfI Ceredigion ar ddiwedd y mis. Sicrhaodd Catrin Jones, Talarwen yr ail safle fel siaradwraig o dan 21 oed ac fe enillodd Einir Ryder, Tyngrug Ganol y Cadeirydd gorau dan 26 oed. Da iawn chi ferched a phob lwc yn Nhywyn yng nghystadlaeth Cymru ymhen y mis.

Cwrtnewydd

Ysgol Cwrtnewydd

Braf yw cael croesawu pawb yn ôl i'r ysgol ar ôl gwyliau Nadolig estynedig! Braf oedd gweld yr eira yn cwmpo ond roedd yn brafach ei weld yn diflannu. Mae pawb wedi cael saib hyfryd ac erbyn hyn yn barod am dymor prysur iawn.

Cynhaliwyd clwb cyntaf yr Urdd yn 2010 lle bu'r plant yn gwneud amrywiol weithgareddau o'u dewis.

Ddiwedd mis Rhagfyr cafodd plant y cwis llyfrau sef Iwan Evans, Rhys Davies, Briallt Williams ac Alpha Jones ganlyniad y cwis a braf gweld eu bod wedi bod yn llwyddiannus iawn a chael marciau llawn o 150. Da iawn chi a phob lwc ar gyfer y rownd nesaf.

Ar ôl noson lwyddiannus yn ein Gwasanaeth Nadolig aeth plant y Cyngor Ysgol i Ward Cilgerran yn Ysbyty Glangwili i drosglwyddo siec am £446.48. Cafwyd croeso arbennig gan staff yr ysbyty.

Byddwn yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi yn yr ysgol ar y cyntaf o Fawrth ac mae croeso i'r gymuned gyfan ddod i fwynhau yn y pigion a phaned.

Canlyniadau Clwb 100

Ionawr 2010.
1af Linda Gibbon, Bryndelyn Fach, Gorsgoch
2ail Lloyd Thomas, Milford, Cwrtnewydd
3ydd Siôn Jenkins, Hafan y Cwm, Cwmsychbant
4ydd Mags Richards, Llain, Rhydlewis.

Cylch Ti a Fi Cwrtnewydd

Ar Dachwedd 17eg a hithau'n adeg Plant Mewn Angen bu'r plant yn brysur yn gwneud pypedau Pudsey. Cafodd pawb amser braf yn eu creu ac yn chwarae â nhw. Trosglwyddwyd casgliad o £12.50 i gangen yr ysgol o Blant Mewn Angen.

Aeth rhai o aelodau'r Cylch am dro i Aberaeron ar Ragfyr y 4ydd i weld Sioe Nadolig Cyw. Cafwyd llawer o ganu a dawnsio a chwrdd â rhai cymeriadau hen a newydd. Braf oedd gweld rhai o aelodau'r Cylch

wedi cael eu dewis i fynd i helpu'r cymeriadau ar y llwyfan yn ystod y sioe.

Roedd 'na gyffro mawr yn Neuadd Ysgol Cwrtnewydd ar brynhawn dydd Mawrth Rhagfyr 15fed pan ddaeth Siôn Corn i weld y plant. Cafodd pob plentyn anrheg hyfryd. Diolch i Santa am ddod i'n gweld a chymryd amser o'i amserlen brysur iawn. Hefyd yn ystod y prynhawn bu'r plant yn gwledda ar fwyd blasus a oedd wedi ei baratoi gan rieni'r cylch.

Gan fod ei chyfnod fel rhiant yn y cylch wedi dod i ben hoffwn ddiolch yn fawr iawn i Mrs Wendy Jenkins, Hafan y Cwm, Cwmsychbant am ei gwaith diflino fel ysgrifenyddes dros nifer o flynyddoedd. Mawr yw ein diolch iddi.

Os ydych am ymuno â ni am brynhawn o chwarae, cymdeithasu a chlonec, dewch i Neuadd Ysgol Cwrtnewydd bob prynhawn dydd Mawrth (adeg tymor) rhwng 1.15-3.15. Am ragor o wybodaeth ffoniwch 01570 434273. Croeso cynnes i bawb!

Cydymdeimlo

Ddiwedd y flwyddyn daeth profedigaeth i ran teulu Penlan-ganol. Bu farw mam Mrs Grace Southall, sef Mrs Webb o Lambed. Cydymdeimlwn felly gyda Grace, Robert a Laura yn eu profedigaeth sydyn.

Noson Bingo

Mae dyddiad Noson o Fingo o dan nawdd Pwyllgor Mabolgampau Cwrtnewydd wedi ei newid i Fawrth 5ed yn Neuadd yr Ysgol Gynradd. Felly gwnewch gofnod o'r dyddiad newydd.

Y Dyn Drwg a'r Da Da

"Mae stori Y Dyn Drwg a'r Da Da yn adloniant campus ar gyfer plant bach, plant mawr a phlant sy'n bwrw mla'n yn ddiogel" medd Euros Lewis, cynhyrchydd pantomeim cyntaf Cwmni Troedryhiw a Garn Fach a fydd yn ymweld ag Ysgol Cwrtnewydd ar nos Wener, Chwefror 12fed. Gweler y cast yn y llun isod.



Drefach a Llanwenog

Priodas Arian

Llongyfarchiadau i John ac Ann Milcoy, Llwynteg ar ddathlu eu Priodas Arian ddechrau mis Rhagfyr.

Gwellhad Buan

Dymuniadau gorau i John Milcoy a dreuliodd rai diwrnodau yn yr ysbyty ganol mis Rhagfyr. Gobeithio dy fod yn teimlo'n well erbyn hyn.

Prawf Gyrru

Llongyfarchiadau i Carwyn Evans, Murmur-y-Nant ar basio ei brawf gyrru yn ystod mis Rhagfyr. Cymer ofal.

Y Gymdeithas Hŷn

Daeth yr aelodau ynghyd i Gwmsychbant ar y 9fed o fis Rhagfyr i festri Capel y Cwm, a chroesawyd pawb gan Dilwen George, y Cadeirydd.

Dymunwyd pen-blwydd hapus i Dan Jones ar gyfer y 12fed, i Ray Davies, Crug ar y 13eg, ac i Mrs Beaumont a fyddai'n dathlu ei phen-blwydd yn gynnar ym mis Ionawr.

Dymunwyd gwellhad buan i Mary Thomas, wedi iddi gael triniaeth i'w phen-glin yn Ysbyty Llanelli, ac i Sally Jones, wrth iddi gael triniaeth i'w llygad.

Darllenwyd cofnodion mis Tachwedd, a chynigodd Beryl Lewin eu bod yn gywir, ac fe'i heiliwyd gan Eluned James.

Aeth y cadeirydd ymlaen i gyflwyno'r wraig wadd, sef Sirian Davies, sydd erbyn hyn wedi sefydlu ei busnes ei hun, sef Cegin Coedlannau. Roedd wedi paratoi taflenni â ryseitiai i bawb eu dilyn – ac i fentro arnynt rywbryd eto. Cafwyd cyfle i flasur cyfan, - y cawl llysiau, y saws cranberry, a'r roulade, ac roedd Sirian hefyd wedi paratoi punch cynnes i ni a mins peis hyfryd.

Diolchwyd yn gynnes iddi gan Irene Jones, yr Is-gadeirydd, gan ddatgan gwerthfawrogiad yr aelodau am yr amser roedd Sirian wedi ei dreulio'n paratoi'r cyfan. Diolchwyd hefyd i wragedd Capel y Cwm am eu croeso a'u gwasanaeth wrth helpu yn ystod y prynhawn.

Yn anffodus, oherwydd y tywydd caled, bu'n rhaid peidio â chynnal cyfarfod mis Ionawr, ond y gobaith yw trefnu ymweliad gan Michael Morgan rhywbryd eto.

Bydd y cyfarfod nesaf yng Nghapel y Groes ar Chwefror 10fed, am 1.30yp a'r gŵr gwadd fydd Peter Jenkins, gynt o Gwrtnewydd.

Cylch Meithrin Drefach

Ar Hydref 13eg aeth y plant a'r rhieni i Ysgol Llambled am fore i weld sioe Sbri Diri gan Gwenda Owen a'i ffrindiau. Cafwyd bore hyfryd, digon o ganu a swŷn.

Bu'r rhieni a'r athrawon yn brysur yn cwcan i gynnal stondin gacennau

yn y mart yn Llanybydder. Roedd yn bleser gweld y byrddau yn llawn a chafwyd arwerthiant llwyddiannus dros ben i sicrhau swm sylweddol i'r gronfa. Diolch am bob cefnogaeth.

Aethom am ddau fore i ymweld ag ysgolion Llanwnnen a Chwrtnewydd. Cafodd y plant amser da yn chwarae tu allan gydag adnoddau'r ddwy ysgol. Diolch am y croeso cynnes.

Ar Rhagfyr 10fed aeth y cylch i Bentrebach i gwrdd â Santa. Cawsom ein diddanu am y bore gan Bili Bom Bom cyn i'r plant gael anrheg yr un gan Santa. Bore o fwynhad perffaith.

Daeth Santa yn ei dro i'r cylch hefyd yr wythnos ganlynol ar ddiwrnod ein Parti Nadolig. Galwodd heibio ag anrheg yr un i'r plant. Roedd y plant wedi cynhyrfu yn lân!

Pob lwc i Osian Dafis yn Ysgol Bro Siôn Cwilt.

Eglwys Santes Gwenog.

Dymunwn Flwyddyn Newydd lwyddiannus a iachus i bawb.

Bu'r eira a'r tywydd rhewllyd yn prydferthu'r tirlun ond yn amharu llawer ar wahanol weithgareddau yn yr ardal. Serch hynny daeth dau ar hugain i wasanaeth Noswyl y Nadolig ond yn anffodus bu'n rhaid gohirio Gwasanaeth Plygain y Ddeoniaeth oherwydd yr eira. Diolch i'r gwagedd am addurno'r Eglwys mewn ffordd mor gelfydd a thymhorol ac i Andy Twelvetrees, Rhydiau, am rodd o goeden fytholwyrdd ysblennydd.

Nos Sul Rhagfyr y 13eg cafwyd gwasanaeth 9 Llith a Charol gan blant Ysgol Llanwenog ac aelodau'r Eglwys. Diolch i'r brifathrawes a'i staff am noson hwylus iawn. Cafwyd bwyd ysgafn wedi'i baratoi gan y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon, ac roedd Eleri'r gogyddes wedi paratoi mins peis a oedd yn werth eu blasu.

Llongyfarchiadau i'r Parch Bill Fillery ac Elizabeth ar enedigaeth eu hwyres Emilia Elizabeth ym Mhrâg ar y 27ain o Rhagfyr, merch fach i Lucy a Math Murphy.

Llongyfarchiadau i Wil a Mali Evans, Rhylywyn, Llanybydder ar enedigaeth ŵyr bach. Pob bendith i'r ddau deulu.

Llongyfarchiadau i Gwenan Davies, Llyserdi ar gwblhau cwrs MSc mewn Cynllunio Gwlad a Thref, ac i Rhian Thomas, Llechwedd sydd wedi troi'n chwaraewraig golff broffesiynol. Pob hwyl i'r ddwy ohonynt. Ar hyn o bryd mae Rhian yn cynrychioli Cymru mewn twrnament yn Sbaen.

Ein cydymdeimlad dwysaf â Hyw Davies, Abernant ar golli ei wyres Julie, ac i'w dwy chwaer, Wendy a Kay. Mae'r teulu yma wedi derbyn ergydion caled yn ystod y flwyddyn. Dymunwn y bydd 2010 yn fwy

caredig iddynt.

Cydymdeimlwn hefyd â Peter, Julian a Mary Chadwick, ar farwolaeth ddisymwth eu tad Mr Douglas Chadwick. Cysylltir hwy â theulu Bryntawel, Drefach. Bu'r gwasanaeth yn yr Eglwys ar y 15ed o Ionawr.

Cofiwn yn ein gweddïau am Mrs Moira Bone, Mrs Nancy Davies a Mr James Thomas, a phawb arall sy'n dioddef colled ac anhwylder.

Diwedd mis Ionawr ymddeolodd ein ficer y Parch. Bill Fillery. I werthfawrogi ei arweiniad yn ystod y saith mlynedd diwethaf cyflwynwyd tysteb iddo ar y 24ain o Ionawr. Y Sul canlynol cynhaliwyd gwasanaeth arbennig yn Eglwys Sant Pedr, Llanybydder gyda lluniaeth ysgafn yng Ngwesty'r Llew Du. Hwn oedd cyfarfod olaf Bill Fillery fel ein ficer. Diolchwn yn gynnes iddo am ei wasanaeth ac am ei bersonoliaeth hyfryd. Dymunwn yn dda iddo ac i Elizabeth ei wraig wrth iddynt ymgartrefu yn Rhodfa Glynhebog, Llanbedr.

Clwb 100 yr Eglwys.

£15. Iwan Brain, Llangain.
£10. Stanley Griffiths, Blaenpant.
£5. James Fillery, Ramsbottom.
Bonws Nadolig o £5 yr un i – Nancy Fillery; Jim Evans; Eleri Lewis; ac Emilia Murphy.

Ysgol Llanwenog

Yn ystod y tymor roedd plant hŷn yr Ysgol yn ffodus i dderbyn gwersi coginio dan arweiniad Mrs Nia Evans, sef cynorthwywraig yn nosbarth y babanod. Mae Nia yn gogyddes o fri ac felly rydym yn cymryd mantais o'i thalentau wrth iddi gynnig gwersi coginio i'r disgyblion. Hyd yn hyn maent wedi coginio sgons, quiche a log roll. Weithiau rydym yn cael cynnig blasu'r danteithion cyn iddynt fynd am adre!

Ddydd Sul 13eg o Ragfyr gwnaeth yr Ysgol, ynghyd ag aelodau Eglwys Sant Gwenog, gynnal Gwasanaeth Carolau. Cafwyd noson hyfryd wrth i ystyr yr ŵyl gael ei gyfleu mewn dull pwrpasol a theimladwy iawn.



Yn ystod cyfnod prysur yr ŵyl, pleser oedd cael cyflwyno bocsys o anrhegion i Rwmania i Mr Burgess. Cymerwyd y cyfle yma i ehangu gwybodaeth y disgyblion am blant llai ffodus na nhw'u hunain.

Diolch i bawb a ddaeth i ymuno â ni a diolch yn fawr iawn i Ms Eleri Davies am goginio tua 200 o fins peis gogyfer â'r noson. Diolch hefyd i Mr Giles am roi'r mulled wine ac i'r gwagedd a wnaeth helpu i weini ar y noson.

Llongyfarchiadau i Carys Jones ac i Ffion Evans am fod yn aelodau ffyddlon a gweithgar o gerddorfa cynradd canol y sir. Pleser o'r mwyaf oedd eu gweld yn perfformio mewn cyngerdd yn neuadd Ciliau Aeron cyn y Nadolig. Dymuniadau gorau i'r ddwy yn ystod 2010.

Daeth Siôn Corn i'r Ysgol ddydd Mercher yr 16eg a bu'n brysur yn dosbarthu anrheg i bob plentyn ac i blant Cylch Meithrin Gwenog. Buom yn canu iddo hefyd cyn iddo ein gadael ni ar ei daith o gwmpas y byd. Yn dilyn ymweliad Siôn Corn cawsom ginio Nadolig godidog gan Ms Eleri Davies. Bu'n wledd hynod o flasus ac roedd yn hyfryd medru croesawu'r Parch. B. Fillery a'i wraig, Mrs Margaret Evans a Mr. Evans, a Mr Haydn Richards i ymuno â ni.

Enillwyr Clwb Cant yr Ysgol ym mis Rhagfyr oedd: -

Rhif 48 J. Perkins, Rhif 14 Rhys Evans, Rhif 58 Sioned Fflur Davies.

Erbyn hyn rydym wedi ail gydio yng nghynllun y Tair Ysgol ac mae holl ddisgyblion Adrannau Iau yr ysgolion yn astudio'r Celtiaid pan ddônt yma. Er mwyn hybu eu dealltwriaeth hwy o'r cyfnod yma byddant yn ymweld â Chastell Henllys ym mis Chwefror – mwy i ddod am hynny yn y rhifyn nesaf.

Mae Cyngor yr Ysgol wedi cwrdd ddwy waith eleni ac maent wedi cynnal cyfarfod gyda chwmni dillad ac offer ysgol. Eu dymuniad yw cael bagiau ysgol mwy o faint i blant hŷn yr ysgol a beiciau sy'n addas i ddisgyblion blwyddyn 2.

Hoffwn achub ar y cyfle i ddiolch i bawb a wnaeth gynorthwyo i edrych ar ôl yr ysgol yn ystod y tywydd rhewllyd a gawsom ddechrau'r tymor. Bu Mr Bracy, Ms Eleri Davies, Mr Boardman a Conner yn gweithio'n ddiwyd fore dydd Llun yn clirio'r heol ar hyd safle'r

Drefach a Llanwenog

ysgol er mwyn i ni fedru agor ddydd Mawrth ... ond yna daeth y noson stormus a'r lluwchfeydd ofnadwy! Hefyd, diolch i weithwyr SWALEC am ddod i'r ysgol dair gwaith yn ystod yr wythnos er mwyn trwsio a datrys problemau trydanol a gododd yn ystod y cyfnod yma hefyd.

Diolch i bawb a wnaeth siopa trwy wefan yr Ysgol, sef,

www.ysgolllanwenog.co.uk
wrth fynd trwy

www.easyfundraising.org.uk.

Mae'n ffordd rad ac am ddim o godi arian wrth i chi siopa ar y we. Yn gyntaf, ar ôl cyrraedd gwefan easy fundraising, cofrestrwch fel defnyddiwr. Ysgrifennwch 'Ysgol Llanwenog' yn y blwch 'charity / cause' a dyna hi – mwynhewch eich siopa!

I gloi ein hadroddiad y mis hwn hoffwn achub ar y cyfle i nodi ein gwerthfawrogiad o'r Parchedig Bill Fillery am saith mlynedd o wasanaeth diflino a ffyddlon i'r ysgol. Bydd y golled ar ei ôl yn un fawr. Mae'n ymwelydd cyson â'r ysgol ac mae'n cynnal gwasanaethau'n wythnosol. Hefyd, bydd yn tywys y disgyblion yn dymhorol o gwmpas yr Eglwys ac yn ateb eu cwestiynau di-ri. Ar ran disgyblion, llywodraethwyr, rhieni a ffrindiau'r ysgol hoffwn ddymuno ymdeoliad iach ac hapus i'r Parch. B. Fillery ac i'w briod Mrs E. Fillery. Dymuniadau gorau i chwi hefyd wrth i chi ymgartrefu yn eich cartref newydd yn nhre Llambod.

Cylch Meithrin Gwenog

Braf oedd gweld y plantos bach yn cymryd rhan yn y noson 'Gwasanaeth Carolau' yn Eglwys Sant Gwenog ym mis Rhagfyr. Roeddent wedi mwynhau y profiad, yn enwedig wrth chwarae'r clychau bychain! Ein thema ni y tymor yma ydy 'Myfi fy hun'. Hoffem hefyd groesawu aelod newydd i'r cylch, sef Harri Rivers. O fis Chwefror ymlaen, bydd oriau'r Cylch Meithrin yn ymestyn ac felly byddwn ar agor o 8.45yb tan 11.15yb. Os hoffech dderbyn mwy o wybodaeth am rediad y Cylch croeso i chi gysylltu â Miss Liza Williams ar 01570 480 382.

C.Ff.I Llanwenog

Blwyddyn arall wedi dod i ben a fel clwb hoffem ddymuno blwyddyn newydd dda i holl ddarlennwyr Clonc.

Ddiwedd mis Tachwedd, daeth amser y cwis blynyddol unwaith yn rhagor. Ar ddiwedd y gystadleuaeth fe ddaeth y clwb yn 3ydd.

Ar y 7fed o Ragfyr, fe deithiodd nifer o'r aelodau i weld panto blynyddol Theatr Felinfach. Braf oedd gweld Gwawr Hatcher yn

cymryd rhan. Yna, noson o wneud cardiau Nadolig yng ngofal Meryl Davies ar y 14eg o Ragfyr. Cawsom lawer o hwyl a chyfle i ddangos ein sgiliau artistig.

Fe gynhaliwyd ein Dartiau Twrci blynyddol ar yr 17eg o Ragfyr yn Nhafarn Cefnhafod. Llongyfarchiadau i Huw Davies o Lanybydder ar ennill y gystadleuaeth. Roedd yn rownd derfynol gyffrous iawn rhwng Huw a Geraint Hatcher. Ac fe enillodd Guto Jones y wobwr am yr aelod a aeth bellaf yn y gystadleuaeth. Diolch i bawb am y gefnogaeth ar y noson.

Ar yr 21ain o Ragfyr, bu'r clwb yn brysur yn mynd o amgylch y plwyf yn canu carolau. Roedd yn noson rewllyd ond wrth yrru yn ofalus fe wnaeth pawb deithio o amgylch yr ardal yn ddiogel. Erbyn diwedd y noson casglwyd £930 a fydd yn mynd at goffrau'r clwb ac at R.N.L.I.

Ar y 29ain o Ragfyr fe deithiodd llawer o aelodau'r clwb i fyny i Bonrhydfendigaid i gefnogi Manon Richards, Brenhines y Sir yn Nawns Flynyddol y Frenhines. Roedd pawb wedi mwynhau a hoffem fel clwb longyfarch Manon a'r criw ar noson lwyddiannus.

Ddechrau mis Ionawr oherwydd tywydd gwael gohiriwyd y clwb yn ystod y pythefnos gyntaf.

Ar y 24ain o Ionawr, cynhaliwyd cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Cymraeg y Sir. Daeth y clwb yn 2il ar ddiwedd diwrnod llwyddiannus. Dyma ganlyniadau'r dydd:- Dan 16 - Cadeirydd: Lauren Jones 1af; Bleddyn Jones 2il; Siaradwr - Gwawr Hatcher 3ydd. Daeth tîm Llanwenog B yn 2il. Dan 21 - Cadeirydd: Enfys Hatcher 1af. Dan 26 - Cadeirydd: Lyn Jenkins 2il; Siaradwr: Cerys Jones 2il. Daeth tîm Llanwenog B yn 3ydd a Llanwenog A yn 1af. Hoffem longyfarch pawb ar eu llwyddiant a dymunwn bob lwc i Lauren Jones, Cerys Jones a Enfys Hatcher a fydd yn cynrychioli Ceredigion ar lefel Cymru ddiwedd mis Chwefror.



Cornel yr Urdd



DIGWYDDIADAU GYDA'R HWYR – EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD, CEREDIGION 2010

Gellir prynu tocynnau drwy fynd i www.urdd.org/eisteddfod neu ffonio 0845 257 1639. Maent ar werth yn barod!

DYDD	DIGWYDDIAD LLEOLIAD	PRISIAU
Nos Iau 27/05/10	Sioe Ieuencid Theatr Felin-fach	£12
P'nawn Gwener 28/05/10	Sioe Ieuencid Theatr Felin-fach	£12
Nos Wener 28/05/10	Sioe Ieuencid Theatr Felin-fach	£12
Nos Sadwrn 29/05/10	Sioe Ieuencid Theatr Felin-fach	£12
Nos Sul 30/05/10	Cyngerdd Agoriadol Pafiliwn	£15, £12
Nos Lun 31/05/10	Cystadleuaeth y Gân Actol (Cynradd) Pafiliwn	£8, £6
Nos Lun 31/05/10	Sioe Ieuencid Theatr Felin-fach	£12
Nos Fawrth 01/06/10	Sioe Gynradd T. Llew Jones Pafiliwn	£12, £8
Nos Fercher 02/06/10	Sioe Gynradd T. Llew Jones Pafiliwn	£12, £8
Nos Iau 03/06/10	Noson o Gystadlu Pafiliwn Mynediad trwy docyn maes	
Nos Wener 04/06/10	Cystadleuaeth y Cerddorfeydd Pafiliwn	£6
Nos Sadwrn 05/06/10	Noson o Gystadlu Pafiliwn Mynediad trwy docyn maes	
Nos Sul 06/06/10	Cymanfa Ganu Capel Tabernacl, Aberaeron	£6

Ras Dydd Gŵyl Dewi

Ydych chi'n cofio'r cyntaf o Fawrth 2009? Ar y Prom yn Aberystwyth? Na? Wel yn 2010 ar yr 28ain o Chwefror mi fyddwn yn ail gynnal Ras Dydd Gŵyl Dewi. Ras Hwyl yw hon sy'n cael ei threfnu yn flynyddol i gofio dydd ein Nawddsant ar Fawrth y cyntaf. Bwriad y diwrnod yw cael pawb o'r ieuengaf i'r hynaf i wisgo eu gwisg Gymreig ac yna rhedeg ras hwyl 3 Cilometr (pellter llai i ddisgyblion cynradd). Yn ogystal â'r ras mi fydd yna gyfle ichi brynu nwyddau a chynnyrch Cymreig yn ein marchnad a gweld Arddangosfa Dawnsio Gwerin. Mi fydd Cawl am ddim i bob cystadleuydd hefyd. Yn ystod mis Chwefror mi fydd Pêl-droed wedi ei llofnodi gan dîm Cymru yng ngêm ddiwethaf Ryan Giggs dros ei wlad yn cael ei rhoi ar ocsiwn drwy gyfrwng y Cambrian News! Mae yna hefyd Raffl Fawr sydd ar werth ar hyn o bryd gyda'r wobwr yn 10% o werthiant y raffl! Elusen y ras eleni yw Urdd Gobaith Cymru Eisteddfod Ceredigion 2010. Os am gymryd rhan, anfonwch gais am ffurflen at: Gwennan Davies, Menter Aberystwyth, Penbryn, Prifysgol Aberystwyth, Aberystwyth SY23 3BY neu ffoniwch 01970 628 725.

IEUENCTID CEREDIGION I AIL GYNNAU PLANT Y FFLAM

Ddeng mlynedd ar hugain wedi ei rhyddhau, mae record hir Edward H Dafis, Plant y Fflam yn mynd i wneud ail ymddangosiad fel drama gerdd yn 2010.

Plant y Fflam, a ryddhawyd yn 1980 sydd wedi ysbrydoli perfformiad ieuencid Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd eleni. Bydd chwedeg o bobl ifanc Ceredigion, rhwng 12 a 19 oed yn perfformio'r sioe newydd sbon, fydd yn cynnwys holl draciau albwm Edward H Dafis. Bydd y perfformiad, sydd hefyd yn dwyn y tetil Plant y Fflam yn un o'r digwyddiadau gyda'r hwyr yn Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru, Ceredigion yn ddiweddarach eleni. "Yn ei hanfod, stori dda yw Plant y Fflam sy'n cael ei chyfleu drwy gyfrwng deg cân wych," medd Jeremy Turner, Cyfarwyddwr Artistig Cwmni Theatr Arad Goch. "Fe fu i mi ail-ddarganfod yr albwm beth amser yn ôl pan wnaeth Sain ryddhau casgliad o weithiau Edward H Dafis ar gryno ddisg. Dyna ddechrau meddwl bryd hynny bod deunydd sioe yno." Ers 20 mlynedd mae Cwmni Theatr Arad Goch wedi bod yn diddanu cynulleidfaoedd o blant a phobl ifanc ledled Cymru. Jeremy sy'n cyfarwyddo Plant y Fflam ac mae'r cyfle i gydweithio â phobl ifanc Ceredigion ar y prosiect yma wrth fodd y cwmni. "Mae'r themau â'r stori yno'n barod ac mae Mari Rhian Owen o gwmni Arad Goch yn ysgrifennu sgript fydd yn galluogi'r themâu hynny i ddatblygu. Mae'r stori am grŵp o bobl ifanc sy'n troi eu cefnau ar gymdeithas gyfoes wag ac arwynebol er mwyn ceisio creu lle gwell a ffordd well o fyw. Yn ymuno gyda thîm profiadol Jeremy fydd cyn enillydd Ysgoloriaeth Bryn Terfel, Rhys Taylor sydd hefyd yn hannu o Aberystwyth a'r coreograffydd, Lynne Hughes. "Fe ffurfiwyd Edward H Dafis, fel nifer o fandiau eraill o'r un cyfnod gan mai dyna oedd yr unig ffordd i ieuencid gael llais," ategodd Jeremy. "Dwi ddim yn credu fod hyn mor wir bellach gan bod nifer o sefydliadau a fforymau sy'n galluogi ieuencid i ffurfio a lleisio barn. Ond dyw hynny ddim i ddweud nad yw'r themâu sydd i'w gweld yn Plant y Fflam – sef creu cymdeithas well – yr un mor gyfoes heddiw ag yr oeddent dri deg o flynyddoedd yn ôl." Un sy'n croesawu atgyfodiad Plant y Fflam yw Hefin Elis, sylfaenydd Edward H Dafis. Dywedodd, "Dwi'n edrych ymlaen at gael gweld sut y bydd yr ieuencid yn ymdrin â'r caneuon ac mae'n wych gweld y byddant yn cael eu canu o'r newydd dri deg o flynyddoedd wedi iddynt ymddangos am y tro cyntaf. Dwi'n edrych ymlaen at eu gweld mewn gwisg newydd."

Aelodau eraill Edward H Dafis oedd Dewi 'Pws' Morris, Charli Britton, John Griffiths ac yn ddiweddarach, Cleif Harpwood. Bu i'r grŵp berfformio am y tro cyntaf yn Eisteddfod Genedlaethol Dyffryn Clwyd yn 1973.

Llongyfarchiadau



Llongyfarchiadau calonnog i Eurion Jones Williams, Cysgod y Pîn, Cwmann ar ei lwyddiant pellach yn y maes cerddorol. Ychydig wythnosau cyn y Nadolig daeth y newyddion bod gwobr arbennig y Cyd Bwyllgor Addysg wedi ei ddarfarnu i Eurion am ennill y marc uchaf yn yr arholiad Safon A Cerddoriaeth drwy Gymru gyfan yn ystod Haf 2009.

Derbyniodd dystysgrif arbennig ynghyd â gwobr ariannol ac fe'i cyflwynwyd mewn seremoni arbennig yn yr ysgol gan Uwch Swyddog CBAC.

Llongyfarchiadau iddo hefyd am lwyddo i ennill dystysgrif Gradd 8 am ganu'r trombôn.

C.F.I. Cwmann

Ddechrau mis Rhagfyr, cynhaliwyd gwasanaeth carolau yng Nghapel Brondeifi, sef un o ddathliadau'r clwb yn bum deg oed. Cafwyd cefnogaeth fawr a chodwyd swm helaeth o arian tuag at elusennau. Hefyd yn y gwasanaeth cyflwynwyd llyfr o ddyddiaduron Defi Lango i'r clwb gan y Parch. Goronwy Evans a Llinos Davies, merch Defi Lango. Gorffennwyd y noson gyda mins peis a gwin cynnes yn y festri.

Yna, ar y deunawfed o Ragfyr, cynhaliwyd gyrfa chwist yng nghanolfan y pentref. Eto, cafwyd cefnogaeth dda a llongyfarchiadau i'r rhai a ddaeth i'r brig.

Yn anffodus, methwyd â chynnal ein parti Nadolig eleni a bu'n rhaid gohirio dwy noson arall oherwydd yr eira. Y tro cyntaf i ni lwyddo i grwdd ar ôl yr eira oedd ar yr ail ar hugain o Ionawr pan drefnwyd cwis gan ein llywydd. Cafodd yr aelodau lawer o hwyl yn ceisio ateb y cwestiynau.

Ar y pumed o Fawrth byddwn yn cynnal noson gawl yn y neuadd. Llongyfarchiadau i'r aelodau a ddaeth yn bedwerydd yng nghystadleuaeth cwis y sir a llongyfarchiadau hefyd i Llion Russell a Beca Hands ar ddyweddio dros y Nadolig.

Bethel Parcyrhos

Bydd y Gymdeithas Ddiwylliadol

yn cynnal Noson Gŵyl Ddewi yng Nghanolfan Cwmann ar nos Wener Sed o Fawrth am 7.30 yr hwyr. Bydd y noson yn agored i bawb a bydd tocynnau ar werth gan yr aelodau. Y siaradwr gwadd fydd Dr Hefin Jones, Caerdydd. Bydd yr elw yn mynd tuag at Apêl Trychineb Haiti. Croeso cynnes i bawb.

Diolch

Dymuna Mattie, Tegwen a Wynford Ddeunant a'u teuluoedd ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad ac am bob caredigrwydd yn eu profedigaeth a'u hiraeth dwys.

Eglwys Sant Iago

Roedd Eglwys Sant Iago yn orlawn ar nos Sul, Rhagfyr 13eg pryd y cynhaliwyd cyngerdd 'Carol a Chân' dan arweiniad y ficer yr Hybarch Dr William Strange. Yr oedd yr eglwys wedi ei haddurno yn dymhorol iawn gyda chelyn ac iorwg a'r canhwyllau bychan yn disgleirio i greu naws hyfryd a chynnes i'r noson a'r preseb yn cyfleu neges y Nadolig. Croesawodd y ficer bawb a chyflwyno artistiaid y noson sef plant ysgol Carreg Hirfaen, y Delynores ddawnus Georgina Cornock Evans a'r baswr talentog Kees Huysman. Pleser o'r fwyaf oedd croesawu plant Ysgol Carreg Hirfaen a chawsom raglen amrywiol a graenus gan y plant ynghyd ag

eitemau offerynnol. Yr oedd yr eitemau a gawsom gan Georgina ar y delyn yn wefreiddiol a nodau'r delyn yn llanw'r eglwys yn creu awyrgylch hyfryd. Yna cawsom yr anrhydedd i wrando ar lais unigryw, cyfoethog y baswr Kees Huysman wrth iddo ganu carolau amrywiol. Gwerthfawrogwyd y cyfan yn fawr iawn gan y gynulleidfa. Llywydd y noson oedd Mrs Sheila Evans o Lambed yn enedigol o Gwmann ac yn gyn aelod ffyddlon o'r Ysgol Sul a'r eglwys yng Nghwmann. Cawsom neges bwrpasol o ddiddorol

iawn ganddi wrth iddi adrodd hanes ei phlentyndod a'i ffrindiau yng Nghwmann gan gyfeirio at y cyfan gyda'i atgofion hapus iawn. Diolchodd y ficer yn gynnes iawn iddi am ei phresenoldeb hi a'i gŵr yn y cyngerdd ac am araith mor ddiddorol a'i rhodd hael tuag at y noson. Bu'r gynulleidfa yn ymuno yn naws y Nadolig wrth ganu ambell i garol rhwng yr eitemau gyda Ceinwen Evans wrth yr organ. Roedd yn noson lwyddiannus iawn a gwnaed elw o £850 i'w rannu rhwng ymchwiliad i'r afiechyd motor niwron ac Eglwys Sant Iago. Diolchodd y ficer i bawb am eu presenoldeb - i'r artistiaid i gyd am eu parodrwydd i gymryd rhan gan greu cyngerdd ardderchog ac i swyddogion yr eglwys am drefnu noson gofiadwy a'u cydweithrediad i sicrhau llywyddiant y noson. Bu cymdeithasu hwylus ar ôl y cyngerdd wrth i bawb fwynhau lluniaeth oedd wedi ei baratoi gan aelodau'r eglwys. Diolch eto i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd.

Cynhaliwyd gwasanaeth llithiau a charolau yn Eglwys Sant Iago ar fore Sul 20fed Rhagfyr dan arweiniad y ficer. Yr oedd naws Nadoligaidd bendithiol trwy'r gwasanaeth wrth i'r aelodau ganu'r amrywiol garolau tymhorol ynghyd a darllen hanes cyhoeddiad a genedigaeth Iesu Grist yn y llithiau. Yr organydd oedd Ceinwen Evans. Ar ôl y gwasanaeth bu cymdeithasu hwylus wrth i bawb fwynhau mins peis.

Sefydliad y Merched Coedmor

Cynhaliwyd ein cyfarfod misol ar nos Fawrth, 8fed o Ragfyr yn Lletyrdderwen gyda Elma Phillips yn y gadair ar ôl croesawu pawb. Cyflwynwyd dwy siec - un i'r gwasanaeth ymateb cyntaf Llanbed a'r llall i'r pwll nofio.

Yna cafwyd cyfarfod byr i ddilyn cyn cyflwyno ein gwraig wadd am y noson, Julia Harvey o Dregaron. Mae wedi byw yn Nhregaron ers blyneddodd bellach ac yn aelod gweithgar o'r gangen yno. Wedi dal llawer o swyddi ar hyd yr amser, ac yn drysorydd y Ffederasiwn am dair blynedd ond bellach yn is-lywydd y gangen leol. Daeth atom i ddangos y ffordd i wneud gwahanol

addurniadau Nadoligaidd ac eraill allan o siwgr. Roedd popeth a wnaeth yn effeithiol ac yn gywrain iawn. Diolchodd Iona iddi am noson fendigedig. Yna i ddilyn cafwyd diod boeth a lluniaeth ysgafn wedi ei baratoi gan Gwyneth ac Elma. Tynnwyd y raffl a'r enillwyr oedd Mair Davies ac yn ail Iona Davies. Diolchodd Noleen yr is-lywydd i Elma a Gwyneth am ddarparu lluniaeth ac am y croeso a dymunodd cyfarchion y Tymor i'r aelodau i gyd.

Clwb 225 Mis Rhagfyr

1. 23, Glesni Thomas, 1 Heol Hathren, Cwmann, 2. 131, Mrs D. Harries, 21 Heol Hathren, Cwmann, 3. 157, Mr & Mrs Wilson, Lock & Key, Cwmann, 4. 211, Dana Jones, 45 Heol Hathren, Cwmann, 5. 225, W.Randell, Blaencwm, Cwmann, 6. 67, Harold Williams, Tŷ Howell, Cwmann, 7. 235, Miss. M. Davies, Tŷ Capel, Caersalem, 8. 199, Mr L. King, Tafarn Jem, Cwmann, 9. 68, Ann Roberts, Bryn View, Parc y Rhos, 10. 127, Mrs. Marian Evans, Bronallt, Cwmann.

Clwb 170 Mis Rhagfyr

1. Dafydd Lloyd, Penybont, Pumsaint, 96, 2. Darren James, 15 Bro-Llan, Llanwnnen, 41, 3. Joan Davies, 38 Heol Hathren, Cwmann, 145, 4. Mr & Mrs C. Jenkins, Glen Cottage, Rhosili Gower, 76, 5. Mr G. Lewis, Bronwydd, Llanbed, 105, 6. Mrs T. Jones, Tan y Bryn, Cwmann, 87, 7. Mr Edwin Harries, 8 Nant y Glyn, Cwmann, 23, 8. Mr P. Lloyd Jones, Cedars, Llanbed, 108, 9. Mr A. Lewis, Hill Side, Cwmann, 86, 10. Mrs M. Evans, Bronallt, Cwmann, 55.

Clwb 225 Mis Ionawr

1. 117, G. Jones, Hendai, Cwmann, 2. 81, E. Davies, Manglas, Cwmann, 3. 90, Joan Davies, 38, Heol Hathren, Cwmann, 4. 67, Harold Williams, Tŷ Howell, Cwmann, 5. 200, Eleri Thomas, 12 Treherbert, Cwmann, 6. 45, Alun Jones, Glanrhyd, Cwmann, 7. 118, Ieuan Jenkins, Pennant, Rhydcymerau, 8. 91, Aled Davies, Tremle, Cwmann, 9. 185, Gwynfil Griffiths, Brynhathren, Cwmann, 10. 150, Y Bryn, Parcyrhos.

Clwb 125 Ionawr Neuadd Sant Iago

1. Mrs. Pat Davies, Dolcoed, Cwmann, 127, 2. Mrs Phyllis Price, Brynderi, Cwmann, 89, 3. Mrs Rosa Lloyd, 8 Heol Hathren, Cwmann, 92, 4. Mrs. Eleri Davies, 13 Heol Hathren, Cwmann, 68, 5. Mrs. Fiona Jones, 13 Heol Hathren, Cwmann 52, 6. Mrs. Rosa Lloyd, 8 Heol Hathren, Cwmann, 119, 7. Mr Emyr Jones, Hollies, Llanbed, 40, 8. Mrs Audrey Bonner, Stryd y Bont, 6, 9. Cai Luker, 5 Treherbert, Cwmann, 102, 10. Mrs. Pat Jones, Glanhathren, Cwmann, 106.

Pencarreg

Calennig

Eleni eto daeth nifer o blantos bach i ganu'n llon ac i ddymuno 'Blwyddyn Newydd Dda' yn ôl yr arfer ar Ionawr 1af. Hyfryd oedd eu gweld yn cadw'r traddodiad yn fyw ac mi roedd yn bleser mynd i'r boced i roi calennig iddynt. Pan oedd fy mam yn ferch fach dywedai y byddai wrth ei bodd yn galw yn Fferm Cefenbryn gan y byddai yn cael croeso arbennig yno. Byddai Mrs Edwards yn rhoi tafell drwchus o fara cyrens cartref gyda haenen o fenyn melyn blasus arno i bob plentyn bach. Byddai hynny tua 1925 a gan mai cerdded o un lle i'r llall roedden nhw'r adeg hynny roedd y wledd yn Cefenbryn a charedigrwydd Mrs Edwards yn aros yn fyw yng nghof plentyn.

Llangybi a Betws

Merched y Wawr

Cafwyd noson hyfryd iawn yng nghwmni y Parch Dyfrig Lloyd pan fu'n sôn am ei ddiddordeb yn gwneud gwin. Cawsom ganddo awgrymiadau buddiol a chynhwysfawr ar sut i wneud ac arddangos gwin mewn sioeau a chystadlaethau. Bydd cystadlu brwd y flwyddyn nesaf! Rhoddwyd pleidlais o ddiolch iddo am noson mor ddiddorol ac addysgiadol gan Gwyneth Jones. Rhoddwyd y Raffl gan Glenys Lloyd ac fe'i henillwyd gan Iris Quan, Irene Lewis, Gwyneth Jones, Mair Spate, Lettie Vaughan a Denise Hicks. Fe fydd Gwyneth Evans, Deborah Jones, Mair Spate a Lettie Vaughan yn cymryd rhan yn y Cwis yn Nhyglyn Aeron.

Ym mis Rhagfyr cawsom wledd fendigedig yn yr Hedyn Mwstard. Dathlu'r Nadolig oedden ni mewn cwmni hamddenol a diddan. Dymunodd y llywydd gyfarchion twymgalon y tymor i bawb a dymunwyd adferiad buan a llwyr i Gwyneth Jones. Bydd y cyfarfod nesaf ar Chwefror 10fed yn Ysgol y Dderi am 7:30y.h. Y wraig wadd fydd Mrs Mair James, Llwynpiod.

Ysgol Y Dderi

Bu plant a staff yr ysgol yn dathlu Diwrnod Rhyngwladol ar y 18fed o Dachwedd. Diwrnod o brofiadau amrywiol oedd hwn a chyfle i bawb ddysgu am ddiwylliant ac arferion gwledydd fel Norwy, Tsieina, Yr Eidal a Chymru. Cawsom lawer o hwyl ac roedd yn ddiwrnod i'w gofio. Mwynhaodd Miss Rhian, Miss Meinir a phlant Blwyddyn 4 daith i'r theatr yng Nghaerfyrddin yn nhymor y Nadolig i weld perfformiad o sioe "Barti Ddu". Bu'r plant wrthi'n darllen y nofel gyffrous hon gan un o'u hoff awduron yn rhan o'u gwaith dosbarth yn ystod y tymor ac roedd pob un wrth ei fodd gyda'r perfformiad.

Yn ystod mis Tachwedd hefyd bu rhai o blant Blwyddyn 6 yn cymryd rhan mewn gweithdy a gynhaliwyd gan gyflwynwyr bywiog y rhaglen "Mosquito", sef rhaglen deledu i blant. Fe gafodd pob un ohonynt gyfle i ddefnyddio offer ffilmio, i sgriptio ac i gyflwyno rhan o sgript o flaen y camera ac

roeddent wedi mwynhau'r profiad yn fawr. Am gyfnod o saith wythnos yn ystod tymor prysur y Nadolig, cawsom gwmni Miss Elin Mai Thomas, myfyrwraig ifanc o Goleg y Drindod, oedd ar ei chyfnod ymarfer dysgu terfynol. Cafodd blant blynyddoedd 5 a 6 nifer o brofiadau diddorol ganddi a phob un ohonynt wedi mwynhau ei chwmni. Diolch iddi am ei gwaith caled gyda ni, a phob lwc iddi yn y dyfodol ac yn ei gyrfa fel athrawes. Bu pawb yn brysur iawn yn yr ysgol yn yr wythnosau'n arwainat y Nadolig. Cafwyd noson arbennig i'r gymdeithas er mwyn paratoi at yr ŵyl, gyda gweithgareddau fel crefftiau Nadolig ac arddangosfa goginio gyda Susan, cogyddes yr ysgol. Bu'r plant i gyd yn cymryd rhan mewn cyngerdd Nadolig a oedd yn seiliedig ar y Calendr Adfent. Cawsom lawer o hwyl yn paratoi ac yn ymarfer yn galed iawn, ac roedd pawb yn falch iawn o'r perfformiadau terfynol. Yn rhan o ddatliadau'r Nadolig hefyd aeth criw o blant, rhieni a staff i ganu carolau yn Llambod ar nos Iau, y 10fed o Ragfyr. Roedd hon yn noson hyfryd a'r awyrgylch yn y dre yn Nadoligaidd iawn. Yna, yn ystod wythnos olaf y tymor, paratowyd cinio Nadolig blasus dros ben i ni - diolch yn fawr i Susan, ein cogyddes am ei gwaith caled.

Roedd dechrau'r tymor newydd ym mis Ionawr yn un go ryfedd! Oherwydd yr eira mawr a ddaeth i Geredigion a chreu rhwystrau di-ri, bu'n rhaid i'r ysgol fod ar gau am rai diwrnodau. Roedd hynny'n golygu rhagor o wyliau i'r plant a digon o amser i fwynhau hwyl a sbri yn yr eira! Ar ôl hyn, croesawyd pedwar o blant bach newydd i'r dosbarth meithrin, sef - Dion, Poppy, Jago a Teifi. Gobeithio y byddan nhw'n hapus iawn gyda ni. Hefyd fe ymunodd aelod newydd o staff â'r tîm, sef Mrs Myfanwy Jones - croeso iddi hithau. Cynhaliwyd twrnament pêl-rwyd yr Urdd i ysgolion cylch Llambod ddydd Mawrth, yr 19eg o Ionawr. Ac er nad oedd llawer o gyfle i ymarfer wedi bod, fe orffennodd tîm yr ysgol yn yr ail safle. Da iawn nhw, a diolch i Miss Rhian am eu hyfforddi!

Llanllwni

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Huw ac Annwen Evans, Park Lane ar enedigaeth mab, Iestyn Daniel. Wyr cyntaf i Geraint ac Eiddwen, Maesycelyn a William a Mali Evans, Llanybydder.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Steffan Harris, Yr Hen Felin ar ennill gwobr yn y Ffair Aeaf yn adran y dofednod.

Ysgol Llanllwni

Croeso i Jacob Davies a Seren Webster i ddosbarth y babanod. Maent wedi setlo'n dda ac yn hapus iawn yn ein plith.

Bu'n rhaid cau'r ysgol am rai dyddiau ddechrau'r tymor. Roedd yn amhosib i staff a disgyblion gyrraedd yr ysgol oherwydd yr eira a'r rhew caled.

Hoffwn ddiolch i archfarchnad Sainsburys am adael i ni ganu carolau y tu allan i'r siop cyn y Nadolig. Diolch i bawb a gyfrannodd gan godi £200.77 tuag at gronfa'r ysgol.

Mae plant blwyddyn 5 wedi dechrau mynychu gwersi dawnio yn Ysgol Gyfun Llambod a drefnir gan Mr Gethin Page ar gyfer disgyblion ysgolion cynradd y cylch. Byddant yn cael sawl sesiwn yn ystod y flwyddyn.

Rydyn wedi dechrau siop ffrwythau yn yr ysgol. Gall y plant brynu ffrwyth o'u dewis bob amser chwarae bore gyda'r plant hyn yng ngofal y gwerthu.

Bu Owain Evans o'r BBC yn ffilmio'r plant lleiaf yn yfed llaeth ac fe'u gwelwyd ar newyddion S4C.

Mae plant yr adran iau wedi cael gwersi gan Mrs Ann Phillips gan gael boddhad wrth wneud gweithgareddau mathemategol.

Dyma enillwyr Clwb Cefnogwyr yr ysgol:-

Mis Rhagfyr 2009:
£50 – 62 – Hamza, Cwmiar
£40 – 75 – Gwladys Jones, Perth y Berllan
£30 – 20 – Thomas, Pantffynnon, Llanwnnen
£5 – 157 – Wendy Smith, Tŷ Cefn, Rhydargaeau
£2.50 – 122 – Lloyd Edwards, 3 Lôn y Felin, Talog
£2.50 – 16 – Betsan Jones, High View
£2.50 – 103 – Alun Williams, Birchbrook
£2.50 – 133 – Mared Harries, Maesnonni
£2.50 – 1 – Justin Jones, Hafandeg
Mis Ionawr 2010:
£10 – 66 – John Lloyd, 13 Bryndulais
£5 – 177 – Nick Lloyd, 3 Bryndulais
£2.50 – 168 – Rhian Davies, 53 Trewern, Saron
£2.50 – 4 – Tom Harries, Castle

View, Llanllwni

£2.50 – 151 – Joyce Williams, Pleasant Hill, Llanwnnen

Ysgol Llanllwni yn dathlu 140 o flynyddoedd

Mae Ysgol Llanllwni yn dathlu 140 o flynyddoedd eleni ac mae'r Gymdeithas Rieni wrthi'n brysur yn paratoi amryw o ddigwyddiadau i'w cynnal yn ystod y flwyddyn.

I ddechrau'r dathliadau, cynhelir Cymanfa Ganu yng Nghapel Nonni ar nos Sul, 14eg o Chwefror. Arweinyddes y noson fydd Mrs Elonwy Davies gyda Lleisiau'r Werin a phlant yr Ysgol yn cymryd rhan. Llywydd y noson fydd y Parch. Bill Fillery. Os am ragor o fanylion, cysylltwch â'r Ysgol ar 01559 395624 neu â Ruth Evans ar 01559 395225.

Cynhelir Cawl a Chên yn Neuadd Gymunedol Eglwys Llanllwni ar nos Lun, 1af o Fawrth. Plant yr ysgol fydd yng ngofal yr adloniant ar y noson.

Ym mis Mai, bwriedir cael 'Te Parti Fictoraidd' ac arddangosfa o hen luniau ac arteffactau yn yr Ysgol. Os oes gan rywun arteffactau neu luniau i'w benthgy byddwn yn falch iawn i'w derbyn.

Bwriedir trefnu mwy o weithgareddau yn ystod y flwyddyn. Apeliwn am syniadau ac awgrymiadau a gofynnwn i bawb gysylltu â chyn ddisgyblion yr Ysgol i ddweud wrthynt am y dathliad hanesyddol hwn. Gobeithiwn groesawu llu o gyn ddisgyblion a llawer o'n ffrindiau yn y gymdogaeth i ymuno â ni yn ystod y dathliadau.

C.Ff.I. Llanllwni

Dros dwy fil at achosion da

Bu'r flwyddyn ddiwethaf yn flwyddyn brysur iawn i aelodau Clwb Ffermwyr Ifanc Llanllwni. Codwyd swm teilwng o £1470.53 yn y Sioe a Threialon Cŵn defaid gyda'r elw yn mynd tuag at Uned Gofal y Fron, Ysbyty Llanelli. Cyfrannwyd cyfanswm y casgliad sef £83.72 o'r Cwrdd Diolchgarwch i Adran yr Urdd, Llanfihangel-ar-Arth a chyflwynwyd arian y Canu Carolau o £715.04 i St John's.

Ar hyn o bryd mae'r aelodau yn brysur iawn yn paratoi ar gyfer cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus y Sir ac hefyd y gystadleuaeth Ddrama a fydd yn cael eu cynnal yn fuan. Pob lwc i bawb sy'n cystadlu - fe gawn y canlyniadau yn rhifyn Clonc mis nesaf!

Nid yw'r golygydd o reidrwydd yn cytuno â'r farn a adlewyrchir yn mhob un o erthyglau CLONC.

Llanbedr Pont Steffan

Ysgol Ffynnonbedr

Braf yw nodi i'r ysgol lwyddo i dderbyn y Marc Safon Technoleg Gwybodaeth ddiweddedd tymor y Nadolig. Ffynnonbedr yw'r ysgol gyntaf yng Ngheredigion i dderbyn y marc ac mae'n glod mawr i'r staff iddynt fedru cyrraedd y nod. Arweiniwyd y gwaith gan y dirprwy bennaeth Mr Heulyn Roderick a oedd wedi paratoi adroddiadau manwl ar elfennau gwahanol. Fe'i cynorthwywyd gan Mrs Drina Collom a Miss Natalie Jones sydd hefyd yn gyfrifol am y maes. Bu'r aseswyr yn gweld gwersi ac yn trafod ag athrawon a grwpiau o blant. Siaradwyd hefyd â'r prifathro Mr Huw Jenkins a Mr Roderick ynglŷn â threfniadaeth a rheolaeth y gwaith.

Derbyniwyd adroddiad a oedd yn canmol yr ysgol yn fawr ac ychwanegodd Mr Eifion Evans y Cyfarwyddwr Addysg ei glod.

Nododd mai "Pleser o'r mwyaf oedd derbyn y newyddion mai Ysgol Ffynnonbedr yw'r ysgol gyntaf yng Ngheredigion i ennill y Marc Safon TGCh. Nid ar chwarae bach mae sefydliad yn llwyddo yn y maes dan sylw a charwn nodi ein hedmygedd i bob un ohonoch am eich gwaith diwyd a chlodiw".

Llongyfarchiadau i bawb felly a fu'n rhan o'r ymdrech.

Mewn cystadleuaeth goginio o dan nawdd yr Urdd, Elan Lewis a enillodd yn yr ysgol gyda Lionie Mason yn ail a Lois Price yn drydydd. Bydd Elan Lewis nawr yn cystadlu ar lefel sirol.

Cymerodd ein timau ran yn y gystadleuaeth ail iaith a'r iaith gyntaf ac er i'r tîm ail iaith, sef Aarifah Lala, Cenik Kilic, Conor Miles, Chelsie Malpas, Carie-Ann Collom, Kaydee Evans, Soren Thomas, Luchte a Adam Darbyshire berfformio'n dda, ein tîm iaith gyntaf Teon Rees, Meirion Thomas, Rhian Harries a Caryl Jacob sy'n mynd drwodd i'r rownd nesaf. Dim ond dau farc a gollwyd yn y gystadleuaeth ganddyn nhw.

A'r Nadolig yn awr y tu ôl i ni rhaid troi ein golygon yn union at yr Eisteddfod a ddaw i Lanerchaeron yn y Gwanwyn. Ni hefyd sy'n gyfrifol am yr Eisteddfod Gylch ac mae'n trefniadau yn dod i'w lle yn barod. Bydd tymor arall prysur o'n blaen!

Cylch Cinio

Cinio Nadolig oedd ar y fwydlen yng nghyfarfod 3ydd Rhagfyr yn ystafell fwyta'r brifysgol ac fe gafwyd gwledd dda iawn. Y gwestai, a gyflwynwyd gan y Cadeirydd, y Bnr. John Davies, oedd y Bnr. Rhydian Wilson o Dregaron, gynt o'r Bont a phrif swyddog ieuencid y Sir ond bellach yn berchennog Cwmni Ieuencid Cambrian Youth.

Yn ei anechriad fel Cadeirydd Cymdeithas Twm Siôn Cati soniodd y gwestai am y gorchestion sydd wedi eu cysylltu â bywyd cynnar Twm Siôn Cati, Thomas Jones (1530-1609), Porth y Ffynnon, Tregaron a ddaeth yn ddiweddarach yn dirfeddiannwr ac yn Ustus Heddwch. Aeth ymlaen i sôn am ddathliad 2009 a'r holl weithgareddau amrywiol yn Nhregaron i goffau marwolaeth Thomas Jones. Y penderfyniad i wahodd cymdeithasau a mudiadau lleol i gydweithio oedd wedi bod yn allweddol, meddai, a chafwyd cefnogaeth gadarnhaol wrth i bawb ddod ynghyd. Roedd brwdfrydedd unigolion wedi bod yn aruthrol a nifer o ddigwyddiadau fel Ffair Caron wedi mabwysiadu'r thema'n llwyddiannus. Bellach mae cerflun newydd i gofio am Twm ar sgwâr y dref ac mae mentrau busnes newydd wedi eu sefydlu a fydd o bosib yn arwain at gyfleoedd newydd i bobl ifanc y fro.

Y Cyng. Hag Harris a gynigiodd y diolchiadau. Llongyfarchodd y siaradwr ar ei araith hynod ddiddorol a diolchodd iddo am y gwaith y mae'n ei gyflawni gyda phobl ifanc ac am yr hyn a gyflawnodd drwy wasanaeth y Sir ar gyfer ieuencid Llambod.

Cymdeithas Ddiwylliadol Shiloh

Dwy ardal hollol wahanol oedd thema cyfarfod 3ydd Rhagfyr. Mrs Mair Lewis, y Cadeirydd, a gyflwynodd y siaradwr a diolchodd hefyd i'r gwagedd am baratoi'r te.

Bro enedigol y Bnr. Owen Jones, aelod yn Shiloh, oedd tref Cricieth. Dyma "berl arfordir Bae Ceredigion" a nodweddir gan gastell Cymreig o Oes Y Tywysogion, cysylltiadau gydag un o deuluoedd gwleidyddol mwyaf enwog Cymru, a hufen ia go arbennig y dyddiau hyn. Soniodd am ei atgofion ddiweddedd y pedwardegau a'r pumdegau cynnar; am Gymreictod busnesau'r dref a phrysurdeb ei gartref; ac am y dref a'r traethau ym misoedd yr haf adeg yr ymwelwyr. Yn ogystal, roedd profiadau bywyd bob dydd - dyddiau ysgol, y chapel a'r Ysgol Sul, y trip blynyddol ar y trê, y sgowntiaid môr a'r ffeiriau, yr Urdd a hel calennig, a chymeriadau lu - oll yn fyw iawn yn ei gof.

Pentref Cwmtwrch - enw sy'n gysylltiedig â chwedl y Twrch Trwyth a laddwyd gan y brenin Arthur - oedd bro enedigol y Bnr. Percy Evans, aelod yng Nghapel Soar. Cawsom ganddo atgofion am ei fagwraeth a'i deulu a pheth hanes y gymdeithas lofaol gwbl Gymreig yn y Cwm yn ystod y pumdegau a'r chwedegau. Glöwr oedd ei dad ac yr oedd bywyd yn y Cwm ynghlwm wrth y diwydiant glo brig. Cofiai am brysurdeb y gamlas a'r rheilffordd, y giatau oedd yn rhannu Cwmtwrch

Uchaf a Chwmtwrch Isaf, a'r ffynnon iachael a oedd yn denu ymwelwyr. Roedd gwerth mawr yn cael ei roi ar addysg, ac i'r bechgyn yn arbennig. Roedd rygbi'n rhan o fywyd y Cwm a Chapel Ebeneser, yr Ysgol Sul a'r oedfeuron ddwywaith y Sul, yn rhan o wead y gymdeithas.

Y Bnr. John Davies a ddiolchodd i'r siaradwyr am hanesion difyr.

Merched y Wawr

Croesawodd Aerwen, ein Llywydd, yr aelodau i gyfarfod mis Rhagfyr. Dechreuwyd drwy ganu cân y Mudiad gydag Elma yn cyfeilio. Derbyniwyd cyfarchion y tymor oddi wrth Eysyllt Jones ein Llywydd Cenedlaethol ac oddi wrth Tegwen ein Trefnydd Cenedlaethol.

Yna, aeth Aerwen ymlaen i groesawu ein gwsteion, sef Merched y Wawr y Dderi ac aelodau Cylch Aeron. Cafwyd noson arbennig yn Dathlu'r Nadolig yng nghwmni Bois y Bont. Cawsom ein diddanu drwy bennill a thonc, yr organ geg a'r acordion ynghyd â phianydd bendigedig. Diolchwyd yn gynnes iawn iddynt gan Elma. Yna cafwyd orig hyfryd o gylch y byrddau a'r bwyd wedi ei baratoi gan y pwyllgor.

Hawl i Holi fydd ym mis Chwefror ac erfynir ar yr aelodau i ddanfôn eu cwestiynau ar gyfer y Dr. Garddio at Mair neu Gwynfil erbyn Ionawr 25.

Cymdeithas Hanes

Cynhaliwyd cyfarfod mis Rhagfyr yn y Ganolfan Adnoddau a chroesawyd pawb yno gan Selwyn Walters, y cadeirydd. Noson gymdeithasol oedd hon yn naws y Nadolig. Trefnwyd cwis hanesyddol ar bapur i bawb gan y Cadeirydd ac roedd yr atebion i gyd yn ymwneud mewn rhyw fodd â'r Nadolig.

Cafwyd cyfle unwaith eto i weld ffilm Noel Davies ar Ffynnonbedr - llawer o'r aelodau heb ei gweld o'r blaen ac roedd o ddiddordeb mawr iddynt. Paratowyd bwyd ysgafn Nadoligaidd gan aelodau'r Pwyllgor gwaith, a darparwyd nifer o wobrwyon ar gyfer y raffl. Roedd Calendr 2010 ar werth ac yn werth ei brynu.

Cyfarfod mis Ionawr - Dyma ni nôl yn yr Hen Neuadd a'r cadeirydd yn dymuno Blwyddyn Newydd Dda i bawb! Noson drwy gyfrwng y Gymraeg oedd hon a'r aelodau di-Gymraeg yn manteisio ar gyfarpar cyfieithu.

Yr Athro David Thorne, cyn ddarlithydd yn adran y Gymraeg Prifysgol Llambod, oedd y gwestai a'i destun oedd Enwau Lleoedd, llawer ohonynt yn berthnasol i Geredigion a gogledd Sir Gâr.

Dewisodd enwau trefi a phentrefi, ffermydd a thai, gan bwysleisio fod llawer ohonynt wedi newid cryn

dipyn gyda threigl amser. Pam y newid? Yn aml iawn am fod yr enw gwreiddiol yn cael ei ystyried braidd yn amharchus, yn enwedig erbyn cyfnod Oes Fictoria.

Roedd llawer o enwau'n gysylltiedig â charchardai a llefydd yn Lloegr, enwau personol ac anifeiliaid. Dywedodd pa mor bwysig yw olrhain gwraidd pob enw er mwyn dod o hyd i'r ystyr cywir, yn hytrach na bodloni ar dderbyn yr ystyr cyfoes.

Mae'r Athro David Thorne yn cyfrannu erthyglau'n fisol ar gyfer 'Clonc'. Felly, cawn gyfle i ddarllen a dysgu mwy yn ystod y misoedd nesaf. Diolchodd Selwyn Walters yn gynnes iddo am noson ddiddorol iawn a rhoddodd ddiolch hefyd i Sian Jones am ei harbenigedd yn cyfieithu'r cyfan ar gyfer y di-Gymraeg.

Rhoddodd y Cadeirydd longyfarchiadau i Alan a Sally Leech o Lanfair ar eu gorchest yn cynhyrchu'r ail gyfrol am hanes ardal Lanfair Clydogau. Hanes y tai unnos a godwyd ar y mynydd-dir rhwng Lanfair a Llanddewi, ac i gyfeiriad Ffarmers sydd ynddo. Maent wedi rhestru'r deiliaid a'r tenantiaid a oedd yn byw yno drwy bori yng nghofnodion pob Cyfrifiad rhwng 1841-1911. Mae'r llyfr yn cofnodi cyfnod diddorol iawn ac yn werth ei ddarllen.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Fawrth, Chwefror 16eg, am 7.30 yn yr Hen Neuadd pan fydd Andrew Morgan yn siarad am ei brofiadau fel arwerthwr. Croeso cynnes i bawb.

Pen-blwydd Arbennig

Llongyfarchiadau mawr i Mrs Annie Thomas, Nantsebon, Barley Mow a ddathlodd ei phen-blwydd yn 90 oed ar y 27ain o Ionawr.

Bedyddwyr

Mae Swyddogion ac aelodau Eglwysi Bedyddwyr Gogledd Teifi yn falch iawn i groesawu'r Gweinidog yn ôl i wasanaethu yn ein plith. Bu'r Parch. Jill Tomos yn cael triniaeth law feddygol yn ddiweddar yn Ysbyty Glangwili. Pob dymuniad da.

Cydymdeimlad

Estynnir cydymdeimlad dwysaf â'r teuluoedd i gyd sydd wedi dioddef profedigaeth yn ystod yr wythnosau diwethaf.

Diolch


Dymuna Janet ddiolch yn fawr iawn i'r plant, y bobl ifanc a'u rhieni am y blodau hardd a'r hamper hyfryd o fwydydd blasus Gareth a gyflwynwyd iddi gan Lisa, Beca ac Elan ar ran yr Ysgol Sul. Diolch hefyd i bawb am eu cefnogaeth a'u hymroddiad ar hyd y flwyddyn. Gwerthfawrogir y cyfan yn fawr.

Llanbedr Pont Steffan

Noddfa



Cynhaliwyd oedfa arbennig yn Noddfa i ddathlu Gŵyl y Geni yng ngofal yr Ysgol Sul a ieuentid Bethel a Chaersalem yn cynorthwyo. Gwelwyd talentau'r ifanc ar eu gorau. Cafwyd ymweliad gan Siân Corn er gwaethaf y tywydd gaeafol a bu'n brysur yn cyflwyno anrheg i ryw 30 i gyd. Cyn troi tuag adref bu pawb yn mwynhau te parti ardderchog – dyma ddiwrnod bendithiol a chofiadwy. Diolchir o waelod calon i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd. Yn ôl yr arfer bu criw o'r plant yn cyflwyno adloniant i breswylwyr Hafandeg yn ddiweddar. Roedd y preswylwyr wrth eu bodd yn gwrando ar amrywiaeth o eitemau o safon uchel yn cynnwys unawdau, adroddiadau a grwpiau canu. Roedd pawb wedi mwynhau'r adloniant yn fawr iawn. Diolchwyd yn gynnes i'r plant ac i Janet am roi o'u hamser unwaith eto ac am ddod â phleser pur i bawb. Hyfryd oedd cael cyfle i sgwrsio ar y diwedd a mawr yw ein dyled i Staff Hafandeg am y wledd a baratowyd ar ein cyfer. Parti Nadolig arall! Ddydd Sadwrn 16 Ionawr, aeth nifer o'r plant a'u rhieni ac ambell i fam-gu hefyd ar ymweliad â'r Panto poblogaidd yn Theatr y Werin. Roedd y perfformiad yn un lliwgar, yn llawn sbort a sbri, y canu a'r dawnsio o'r safon uchaf a'r cyfanwaith yn broffesiynol iawn. Roedd pawb wedi joio mas draw. Mae'r Ysgol Sul wedi ail ddechrau yn dilyn y gwyliau a'r eira ac mae'r plant wedi dechrau paratoi ar gyfer oedfa'r Gwanwyn a gynhelir ar 21 Mawrth.



Llwyddiant Academiaidd

Estynnir llongyfarchiadau calonnog i Joe, mab y Cynghorydd a Mrs. Hag Harris ar raddio o Academi Frenhinol Filwrol Sandhurst a derbyn Comisiwn y Frenhines i'r Corfflu Logistec Brenhinol (Royal Logistic Corps) fel Is-Lefftenant.

Yn ystod ei gyfnod yn Sandhurst dewiswyd Joe yn aelod o Garfan Cyfeiriadu Prydeinig y Fyddin. Fe'i addysgwyd yn Ysgol Gynradd Ffynnonbedr ac Ysgol Uwchradd Llambled. Mae Joe yn rhedwr ac yn ddringwr profiadol a brwd. Pob dymuniad da iddo i'r dyfodol.

Gohebiaeth Clonc



Bryn Dinas

5 Ffordd Coedmor

Bethesda

Gwynedd

LL57 3DP

bryn_dinas05@hotmail.com

Annwyl Olygydd,

Rydwyl yn fyfyrwraig ar fy nhrydedd flwyddyn ym Mhrifysgol Bangor, ac yn astudio cwrs 'Astudiaethau Plentyndod'. Rwyf wrthi ar hyn o bryd yn ysgrifennu traethawd hir am lwyddiant 'Llyfr Mawr y Plant' ac eisiau darganfod pa mor boblogaidd, mewn gwirionedd ydyw'r llyfr heddiw. Os y gwyddoch chi am unrhyw weithgaredd (e.e. sioeau, caneuon, dramâu, ayyb) neu os ydych wedi ymwneud mewn unrhyw ffordd â chynnwys a chymeriadau'r llyfr, mi fyddwn wrth fy modd yn clywed gennych. Ydy'r straeon yn cael eu defnyddio yn eich hysgolion? Beth yw barn plant yn eich teuluoedd ac yn eich ysgolion am y llyfr? Beth yw eich atgofion chi, eich rhieni, eich neiniau a'ch teidiau am y storïau?

Diolch am eich amser.

Yn gywir,

Elin Mair Jones.

Help i Orlhain Achau

Wn i a fydd eich darllenwyr yn gallu rhannu unrhyw wybodaeth am Rees Davies a fu'n ysgol feistr yn Llambled? Fe'i ganed, yn un o 8 o blant, ar 08/09/1865, yn fab i David Davies (Gof - Master Blacksmith) a Hannah Davies (Williams gynt), yn Cnwecpalmant, Cydplwyf yn ardal Llanina / Llanarth. Priododd â Sarah a aned ym 1866. Roedd ganddynt dri o blant, Ceridwen Davies, ganed 1893; Goronwy Davies, ganed 1898 ac Eluned Davies, ganed 1899. Priodwyd ei rieni David Davies, Pentrecelyn, a Hannah Williams, Castell Llanarth yn Y Wern (A), Llanina gan y gweinidog, Y Parch L. M. Prydderch ar 10/11/1860. Priododd ei chwaer, Eleanor (neu Ellen, Elinor) a aned yn Cnwecpalmant, Cydplwyf yn 1868 â Wiliam Henry Williams - a aned yn 1867 yng Nghei Newydd - yn Siloa (A) Aberdâr ym mis Awst 1893. Roedd Wiliam Henry Williams yn Ben Teiliwr teithiol, (Master Tailor Journeyman). Bu farw ym 1907 yn ddeugain oed ac fe'i claddwyd ym Mynwent Aberdâr.

Gwefannau Cymunedol Lleol:

Capel Bethel Parcyrrhos: www.bethel.btik.com

Cerddorfa Siambr Llambled: www.lampeter-orchestra.co.uk

Clwb Cledlyn: www.clwb-cledlyn.org.uk

Clwb Moduro Llambled a'r ardal: www.ldmc.org.uk

Clwb Rygbi Llambled: www.clwbrygbillambled.org

Côr Cardi-Gân: www.corcardi-gan.com

Côr Meibion Cwmann: www.corcwmann.btik.com

Côr Merched Côrisma: www.corisma.btik.com

Cymdeithas Cerdd Llambled: www.lampetermusic.co.uk

Ffair Fwyd Llambled: www.lampeterfoodfestival.org.uk

Ffarmers: www.ffarmers.org

Gwenynwyr Llambled: www.lampeterbeekeepersassociation.co.uk

Llanllwni: www.llanllwni.co.uk

Llanybydder: www.llanybydder.org.uk

Menter Llambled: www.lampeter.org

Papur Bro Clonc: www.clonc.co.uk

Plwyf Llanwenog: www.plwyflanwenog.com

Prifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan: www.llambled.ac.uk

Pwll Nofio Llambled: www.lampeterpool.com

Sgowntiaid Llambled: www.1stlampeter.co.uk

Transition Llambled: www.transition-llambled.org.uk

Y Ford Gron Llambled: www.lampeterroundtable.org.uk

Ysgol Carreg Hirfaen: www.ysgolccc.org.uk/hirfaen

Ysgol Cwrtnewydd: www.cwrtnewydd.ceredigion.sch.uk

Ysgol Ffynnonbedr: www.fffynnonbedr.ceredigion.sch.uk

Ysgol Gyfun: www.ysgol-llambled.org.uk

Ysgol Llanwenog: www.ysgolllanwenog.co.uk

Ysgol Llanwnnen: www.ysgolllanwnnen.co.uk

Ysgol y Dderi: www.ydderi.ceredigion.sch.uk

Os am ychwanegu at y rhestr, anfonwch ddolen at cadeirydd@clonc.co.uk

Cydnabyddir cefnogaeth



www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

Clwb Clonc

Chwefror 2010

£25 rhif 17:

Phyl Chapman,
Fflat 2, Bryngwyn,
Ffordd y Gogledd, Llambled.

£20 rhif 83:

Dilwyn Davies,
Alwyn, Llanwnnen.

£15 rhif 171:

Megan Wyn Evans,
Llaethliw, Neuaddlwyd,
Aberaeron.

£10 rhif 212:

Rhodri Hatcher,
Abernant, Llanwenog.

£10 rhif 347:

Mrs Mair Lewis,
10 Bryn-yr-Eglwys, Llambled

£10 rhif 351:

Mrs Ray Lewis,
Hafan, Bro Grannell, Llanwnnen.

Llanfair Clydogau

Lansio Llyfr Newydd

Pleser yw cael pobol ddawnus yn byw yn ein hardal. Dyma yr ail lyfr i Alan a Sally Leech ei ysgrifennu mewn cyfnod byr o ddwy flynedd. Ers iddynt symud i'r pentref yn 1998 mae'r ddau wedi trwytho eu hunain ym mywyd ac hanes ein pentref ymhob ffordd. Enw'r ail lyfr yw *Struggle for Survival in the Cardiganshire Hills*. Stori yw hon am y wladfa fach a sefydlwyd ar fynydd Llanfair a Llanddewi o tua 1740 hyd at heddiw. Mae'n cynnwys mapiau, hanes a lluniau llawer o'r teuluoedd a wnaeth ymdrech mor gref i wneud bywoliaeth ar dir tlawd. Mae'n llyfr diddorol a swmpus ac yn werth ei ddarllen. Gallwch archebu copi yn Siop y Pentre neu drwy gysylltu â'r awduron ar 01570 493390.

Lansiwyd y llyfr ar Ragfyr y 9fed a'r 10fed a daeth tyrfa niferus i wrando ar y ddwy noswaith. Diolch o galon i Sally am baratoi bwyd gwych a gwin i bawb ar y ddwy noswaith.

Y Ffair Grefft

Ddydd Sadwrn Rhagfyr y 12fed cynhaliwyd Ffair Grefft a Chynnyrch y Nadolig yn y neuadd. Bu'n ddiwrnod llwyddiannus iawn gyda llawer wedi dod ynghyd i werthu a phrynu a phawb yn cymryd y cyfle i gymdeithasu dros baned o de neu goffi a mins pei.

Gwasanaeth Carolau

Cynhaliwyd gwasanaeth carolau'r pentref ar Ragfyr 20fed yng Nghapel Mair pan ddaeth cynulleidfada ynghyd i ddathlu gŵyl y Nadolig, yn cynnwys llawer o blant bach y pentre. Arweinydd y gwasanaeth oedd Dan Griffiths, Pengarn. Pleserus iawn oedd gwrandawriad y plant wrth iddo ddarllen stori am Siôn Corn a rhannu losin. Cymerwyd rhan gan Cerys a Ffion Quan, Rebecca Millar, Charlotte Evans, Deborah Jones ac Alan Leech drwy ddarllen barddoniaeth a stori'r geni o'r Beibl. Yr organyddion a threfnwyr y gwasanaeth oedd Eleri Davies, Pentre ac Aerwen Griffiths, Pengarn. Diolch i'r ddwy am gyfeilio, i Dan am arwain, i Ian Evans, Esgairman am wneud y diolchiadau, i'r gynulleidfada am ganu hyfryd ac i bawb a gymerodd ran yn y gwasanaeth.

Canu Carolau

Nos Lun a nos Fawrth Rhagfyr 21ain a'r 22ain mentrodd grŵp dewr o'r pentre a ffrindie mas i ganu carolau Ar y ddaear roedd trwch o eira. Roedd yn rhewi'n galed a cherdded o amgylch a wnaethom i'r rhan fwyaf o'r cartrefi. Yr ail noson aethom lawr Heol Llanfair ac yn ôl i'r neuadd erbyn tua naw o'r gloch i dwymo drwy yfed cawl blasus a derbyniol iawn Eleanor Evans, Nantymedd, a chacennau wedi eu gwneud gan y gwagedd. Casglwyd swm sylweddol a rhannwyd yr arian rhwng elusen Amser Justin a neuadd y pentref. Diolch o galon i Lesley, Arwyn a Ron am ddefnyddio eu cerbydau addas i'n cludo o gwmpas yn y rhew a'r eira.

Parti Nos Galan

Ar noson anhygoel o oer daeth tua hanner cant ohonom ynghyd i ddathlu'r flwyddyn newydd yn y neuadd. Daeth pawb â bwyd a diod i'w siario gyda ffrindiau. Lesley oedd yng ngofal y miwsig a oedd, fel arfer, yn addas iawn ar gyfer y noson. Diolch iddi am ei gwaith. Cafwyd noson hwylus a hapus o gymdeithasu cyn i'r rhan fwyaf gerdded adref yn yr eira.

Clwb Cant

Yr enillwyr oedd: £20 Dan Griffiths, Pengarn. £10 Beca John, Caerdydd. Dot Evans, Llanfair Fawr. Anna Rumney, Clydogau Cottage. £5 Mathias Williams, Greenhill. John Plovey, Riverbank Cottage. Lettie Vaughan, Felinfach. Gwyneth Jones, Nouadd. Jason Hockenull, Tregaron. Larry Taylor, Y Gorlan. Llongyfarchiadau i bawb.

Gwellhad Buan

Pleser mawr i ni gyd yw gweld Gwyneth Jones, Nouadd adref o'r ysbyty ar ôl llawdriniaeth ac yn gwella'n dda. Rydym yn edrych ymlaen i'w gweled o gwmpas y pentref eto yn fuan. Hefyd dymunwn wellhad buan i Aerwen Griffiths, Pengarn sydd newydd gael llawdriniaeth ar ei throed. Edrychwn ymlaen i'w gweld hithau o amgylch a thu ôl i'r olwyn eto cyn bo hir.

Gwelliannau yn y Neuadd



Rydym ar hyn o bryd yn ail-wneud llawr y neuadd. Daeth nifer o ddynion a merched y pentre ynghyd i godi'r hen lawr dros ddau ddiwrnod cyfan a chael gwared y rwbel oddi tano. Diolch i bawb a ddaeth ag offer a whilberi ac i Arwyn am ddod â'r tractor a sgŵp i gael gwared y rwbel a'r pridd. Cafwyd diwrnod arall o waith wrth osod y sement yn ei le. Yn awr mae Linda a Laurence Quelch wedi cymryd cyfrifoldeb am ran nesaf y gwaith pan fydd angen gosod y llawr pren yn ei le. Byddwn yn edrych ymlaen i'w weld wedi ei orffen yn y dyfodol agos. Diolch i Linda a Laurence am agor eu cartref i ni gael bwyta yno amser cinio ar y ddau ddiwrnod ac i'r merched i gyd am baratoi bwyd arbennig. Diolch hefyd am y te a'r coffi, y bisgedi a'r cacennau a gafwyd adeg te deg a chanol prynhawn i gadw pawb i fynd ynghanol y gwaith caled.



Patagonia



Tra yn ymweld â Phatagonia, Morfydd Slaymaker yn cyflwyno tlws ar ran Maer Llambled y Cyng Selwyn Walters i Gabriel - Maer y Gaiman a ddysgodd Gymraeg ar Gwrs Wlpan yng Ngholeg Llambled.

Alltyblaca

Diolch

Dymuna Sarah Humphreys-Jones ddiolch o galon am yr ymateb a gafodd wedi ei hymddangosiad ar raglen S4C – Halen y Ddaear. Mae ei diolch yn fawr am yr holl lythron, anrhegion, a galwadau ffôn a dderbyniodd. Mae'n gwerthfawrogi'r cyfan yn fawr iawn.



Ffarmers

Cyfarchion Priodas

Llongyfarchiadau i Daniel Davies a Helen James a briodwyd yng Nghapel Undodaidd Brondeifi Llanbedr P.S. ar ddiwrnod ola'r flwyddyn. Mae Daniel yn fab i Eifion a Ethel Davies, Llys Helen, Ffarmers, a Helen yn ferch i John a June James, Maes Teg, Cwmann. Roedd y gwasanaeth yng ngofal gweinidog Helen, Y Parchedig Goronwy Evans. Y morwynion priodas oedd Iona Joseph, Anwen James a Lowri Davies, a'r morynion bach oedd Sally Rees a Mabli Joseph, gyda Macsen Joseph yn was bach. Y gwas priodas oedd Heilyn Williams, a'r tywyswyr oedd Gareth James, Kevin Thomas, Huw Thomas a Llyr Thomas. Cafwyd darlenniad yn ystod y gwasanaeth gan Caroline Powell, ac unawd gan Catrin Lisa Davies. Gwesty'r Talbot yn Nhregaron oedd lleoliad y wledd briodas, a chafwyd diwrnod arbennig i ddathlu'r digwyddiad. Estynnwn ein dymuniadau gorau i'r ddau ohonynt ar drothwy eu bywyd priodasol yn Nghaerdydd.

Neuadd Bro Fana

Mae'r misoedd diwethaf wedi bod yn brysur dros ben gyda nifer o weithgareddau amrywiol yn cael eu cynnal yn y Neuadd. Cafwyd noson hyfryd yng nghwmni'r pianydd Angela Brownridge a roddodd gyngerdd o gerddoriaeth glasurol ddechrau mis Tachwedd. Diolch i Elaine Parker, Ty'ncornel am wneud y trefniadau ar gyfer y cyngerdd. Ddiwedd y mis, croesawyd Côr Tŷ Tawe, o dan arweiniad Helen Gibbon o Gaerfyrddin, i'r Neuadd i roi cyngerdd. Perfformiwyd rhaglen amrywiol o gerddoriaeth a chafwyd cwmni'r bariton o Gilycwm, Aled Edwards, a wnaeth swyno'r gynulleidfa. Llywydd y Noson oedd David Thomas, Caerdderwen, Crugybar – un o fechgyn yr ardal a fu yn weithgar gyda'r Neuadd pan yn byw yn Ffarmers, a braf oedd cael cyfle i'w groesawu'n ôl. Noddwyd y noson gan TYWYS, mudiad a fu o gymorth mawr yn noddi gweithgareddau celfyddydol yn yr ardal tan yn ddiweddar. Trueni na fyddai modd cael mudiad tebyg eto

Noson o Ddramâu
yn Neuadd Bro Fana
Ffarmers
gyda
Chwmni Drama Cudyll Coch,
Llandeilo
Nos Sadwrn,
20fed o Chwefror am 7.30
Cyngerdd yng nghwmni
Côr Meibion De Cymru
Nos Sadwrn,
20fed o Fawrth am 7y.h.

i noddi a hyrwyddo digwyddiadau celfyddydol yn ein cymunedau.

Cynhaliwyd Ffair Nadolig ar y 4ydd o Ragfyr dan nawdd Merched y Wawr a'r Clybiau Gwawr – cyfle gwych i brynu anrhegion Nadolig oddi ar yr holl stondinau amrywiol yn y Ffair ac i weld arddangosfeydd ar addurno bocsys a threfnu blodau ar gyfer yr ŵyl. Roedd Georgina Cornock-Evans yno hefyd yn rhoi perfformiad ar y delyn. Heddwyn Jones, Derlwyn oedd y meistr ar gyfer Gyrfa Chwist flynyddol yr Eglwys a gynhaliwyd ar y 7fed o Ragfyr a chafwyd cryn hwyl ar y chwarae. Ar yr 11eg, cafwyd cefnogaeth arbennig ar gyfer noson 'Bingo' a drefnwyd gan Bwyllgor y Neuadd. Jean Evans, Penarth a Bevan Williams, Forge Cottage oedd yn llywio'r chwarae a chafwyd noson hwylus a digon o chwerthin. Cynhaliwyd noson debyg ar y 15fed o Ionawr. Yn anffodus, oherwydd y rhew a'r eira, bu'n rhaid canslo'r Cyngerdd a'r Noson Garolau a gynhelir yn flynyddol ar y Sul cyn y Nadolig. Wrth lwc, llwyddwyd i ail-drefnu'r digwyddiad ar gyfer y Sul cyntaf yn dilyn y Nadolig ac yn ogystal â chael cymorth aelodau'r Eglwys a'r Capeli lleol i gymryd at y rhannau arweiniol, cafwyd nifer o eitemau gan Kees Huysman, y bariton o Dregroes, gydag Elonwy Pugh o Llanbed yn cyfeilio. Noson hyfryd gydag elw'r noson yn mynd at Uned Gofal Arbennig y Babanod yn Ysbyty Glangwili.

Cynhaliwyd Cinio Blynnyddol Cyngor y Neuadd yn Y Drovers Arms, Ffarmers ar nos Fercher, yr 16eg o Ragfyr. Cyfle i ymlacio, mwynhau bwyd da, a chael ychydig o sbri gyda'r Cwis a drefnwyd gan Judy Jenkins ac Ethel Davies. Yn dilyn blwyddyn lwyddiannus arall o weithgareddau yn y Neuadd, rhaid edrych ymlaen nawr at flwyddyn newydd, ac mae nifer o ddigwyddiadau wedi eu trefnu.

Cydymdeimlad

Estynnir cydymdeimlad dwys â Mr Gomer Davies, Troedybryn a'r teulu yn dilyn marwolaeth Mrs Joan Davies yn ddiweddar.



Adran Llambled a ddaeth yn drydydd yng Ngharnifalwn yr Urdd.

Cwmann

Cydymdeimlo

Blin oedd clywed am farwolaeth Professor Peter Morris, Felinfach (gynt o Gwmann) a hefyd Mrs. Betsy Edwards, Ddeunant Hall. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf a'r ddau deulu.

Priodi

Llongyfarchiadau i'r ddau bar a briododd ar ddiwrnod olaf y flwyddyn 2009. Helen James, Maesteg a Daniel Davies o Ffarmers a hefyd Rhys Jones, Y Glyn a Nina Unsworth. Dymuniadau gorau i'r dyfodol.

Brysiwch Wella

Mae tri o drigolion yr ardal wedi bod yn yr ysbyty yn cael triniaeth. Glesni Thomas, 1 Heol Hathren, Marian Robert, Cyswch a Charles Evans, Brynmaen. Dymunwn adferiad llwyr a buan i chwi.

Penblwyddi

Dymuniadau gorau i Gwennie Douch, Glynceri a Rhian Jones, Hafod Cottage. Y ddwy wedi dathlu penblwyddi arbennig yn weddol ddiweddar.

Ysgol Carreg Hirfaen

Bu holl blant yr ysgol yn gweld panto 'Barti Ddu' yn ddiweddar yn y Lyric yng Nghaerfyrddin. Cawsom hwyl wrth ddysgu am hanes Barti Ddu.



Os hoffech gynorthwyo'r gwirfoddolwyr gyda'r gwaith o gynhyrchu'r papur hwn, croeso i chi gysylltu ag un o'r bwrdd busnes.

Alec Page Gof



Gwaith metal o safon
i'r tŷ a'r ardd.

Dewch i drafod eich syniadau.

Yr Efail, Barley Mow,
Llambled.

01570 423955

WILLIAMS

CONTRACT SERVICES

Peiriannau Hirio, Peirianwyr
Cyffredinol, Gwaith Sylfaen,
Menage, Tirlunio, Garddio,
Ffensio, Adeiladu a Gwaith
Cynnal a Chadw

Symudol: 07896747951
Ffôn: (01559)362575
Ffacs: (01559)363555

Tŷ Mari, Heol Horeb,
Llandysul SA44 4JN
e-bost: sales@williamscontractservices.co.uk

Rhifyn mis Mawrth
Yn y Siopau
Mawrth 4ydd
Erthyglau i law erbyn
Chwefror 18fed
Newyddion i law erbyn
Chwefror 22ain

Mae CLONC ar werth yn:
Awen Teifi, Aberteifi
Caxton, Llambled
Compton, Llanybydder
Co-op, Llambled
Eryl Jones, Llambled
Garej Checkpoint, Harford
Glennydd, Cwrtnewydd
Siop Gomerian, Llandysul
Inc, Aberystwyth
J H Williams, Llambled
Lomax, Llambled
Medical Hall, Tregaron
Siop y Bont, Llanybydder
Aeron Booksellers, Aberaeron
Siop Llanybi
Siop y Cennen, Rhydaman
Spar, Llanybydder
Swyddfa Bost, Felinfach
Swyddfa Bost, Llanllwni
Swyddfa Bost, Llanwnnen
Swyddfa Bost, Pontsian
Tafarn Cefnhafod, Gorsgoch
Tafarn Glanyrafon, Talgarreg
t-hwnt, Caerfyrddin
W D Lewis a'i Fab Pumsaint

Sicrhewch eich newyddion yn y papur hwn. Peidiwch â disgwyl i rywun arall ei gynnwys ar eich rhan. Mae'n rhy hwyr i achwyn ar ôl i CLONC ymddangos.

Cadwyn Cyfrinachau



Enw: Georgina Cornock-Evans
Oed: 28
Pentref: Harford, Llanwrda
Gwaith: Gweithio i Adran Gynllunio Cyngor Ceredigion ac athrawes telyn.
Partner: Arwel Evans
Teulu: Nôl yn Abergwaun.

Unrhyw hoff atgof plentyndod.
Byw ar fferm ar bwys y môr yn Abergwaun.

Hoff raglen deledu pan oeddet yn blentyn.
Postman Pat.

Yr eiliad o embaras mwyaf.
Pan es i ar wyliau i America gyda CFFI, roedden ni i gyd yn cysgu mas ar y mynydd ac roedd rhaid i fi fod yn y canol achos roeddwn i'n breuddwydio gormod a becco fy mod i'n mynd off yr ochor.

Y peth pwysicaf a ddysgest yn blentyn.
Dysgu helpu eraill.

Pan oeddet yn blentyn, beth oeddet ti eisiau bod ar ôl tyfu?
Gweithio i'r heddlu.

Y peth mwyaf rhamantus a wnaeth rhywun i ti erioed?
Arwel yn holi fi i'w briodi e ar glos y ffarm am 2 o'r gloch y bore gyda chacen pen-blwydd mewn un llaw a modrwy ddiemwnt yn y llaw arall.

Pryd a ble wyt ti hapusa?
Mynd nôl adre i Abergwaun i weld fy nai bach Dafydd.

Beth yw dy lysenw?
George.

Y peth gorau am yr ardal hon?
Ers symud lan o Abergwaun mae llawer o bobl garedig a chyfeillgar yma.

Y peth gwaethaf am yr ardal hon?



Rhy bell oddi wrth fy ngheulu yn Sir Benfro.

Pa iaith wyt ti'n ei defnyddio gyntaf?
Saesneg gyda mam ond pam mae fy ngŵr o amgylch y lle, mae'n rhaid siarad Cymraeg.

Sut fyddet ti'n gwario £10,000 mewn awr?
Bydden i'n moyn prynu car rali i fy ngŵr i, ond bydden i'n prynu telyn fel un Tywysog Cymru i fi.

Beth sy'n codi ofn arnat?
Mynd mewn car rali gydag Arwel.

Pryd llefaist ti ddiwethaf?
Yn fy mhriodas i.

Ble oedd y lle mwyaf annisgwyl i ti ddihuno ynddo yn y bore?
Yn y Gran Canion.

Beth oedd yr eiliad mwyaf balch i ti'n broffesiynol?

Chwarae'r delyn o flaen y "Duke".

Ac yn bersonol?
Brenhines CFFI Sir Benfro.

Yr eiliad a newidiodd dy fywyd.
Symud i ardal Llambled.

Disgrifia dy hun mewn tri gair.
Gonest, sbort ac uchelgeisiol.

Pa gar wyt ti'n ei yrru?
Audi.

Gyda phwy fyddet ti'n hoffi bod yn sownd ar ynys anghysbell?
Tom Cruise.

Sut wyt ti'n ymlacio?
Mynd i'r Ysgubor Harddwech am massage.

Sawl ffrind sydd gennyt ti ar Facebook?
655.

Pwy yw'r person enwocaf ar dy

ffôn symudol?
Angharad Mair, Tinopolis.

Pa un peth fyddet ti'n newid am dy hun?
Peidio cnoi ewinedd.

Pa ran o dy gorff yw dy hoff ran?
Coesau.

Heblaw'r teulu, beth fyddet ti'n ei achub petai'r tŷ'n llosgi'n ulw?
Fy nhelyn.

Beth sy'n rhoi egni i ti?
Peidio stopio, cadw i fynd a wastad edrych am broiect newydd.

Pa gerddoriaeth yr hoffet ti yn dy angladd?
Sŵn y delyn.

Beth fyddet yn ei wneud pe na byddet yn gwneud y gwaith hwn?
Cyfrifon Arwel.

Ar beth y gwnest orwario arno fwyaf?
Telyn.

Pa beth wyt ti'n ei drysori fwyaf?
Fy albwm priodasol.

Y gwyliau gorau?
Ein mis mêl yn Barbados a hefyd y trip i America gyda'r Clwb Ffermwyr Ifanc.

Unrhyw dalentau cudd?
Gyrru tractor.

Pa sioc alli di ei roi i ddarllenwyr Clonc amdanat ti dy hun?
Pan yn fabi, ro'n i'n pwysu 10 pwys ac roedd gennyf fop o wallt du.

Ble fyddi di mewn deng mlynedd?
Byw bywyd teuluol hapus.

Testun Cyfrinachau'r rhifyn nesaf:

Dafydd Lloyd, Pumsaint.

Swdocw

Sut i chwarae – Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob bocs yn cynnwys y rhifau 1-9

Enw _____
Cyfeiriad _____
Cod post _____
Rhif Ffôn _____

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET
Gwobr: Pecyn Nwyddau Clonc
I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

9		5		3		4		6
6	7						5	8
	6			1			4	
		2	5		9	6		
	9			7			8	
3	8						6	4
4		1		6		9		3

Atebion Swdocw mis Rhagfyr:

Llongyfarchiadau i
Glenys Davies, Gelli Aur,
Rhydybont, Llanybydder,
a diolch i bawb arall am
gystadlu: Lynwen Davies,
Glas-dir, Llanybydder,
Eirlys Thomas, Awelfa,
Llanybydder, Ralph
Buckley, Bryntegwel,
Llambled, Val Thomas,
Glasfryn, Maesycrugiau,
Eurwyn Davies, Heol-y-Gaer, Llanybydder, Betty Morris,
Bro Mihangel, Felinfach, Jean Morgan, Bryn-yr-Eglwys,
Llambled a Bethan Williams, Heol-y-Gaer, Llanybydder.

7	2	8	3	6	1	9	5	4
3	1	5	8	9	4	7	2	6
4	9	6	5	2	7	3	1	8
1	3	7	6	5	2	8	4	9
2	6	4	1	8	9	5	3	7
5	8	9	4	7	3	2	6	1
6	4	2	9	3	8	1	7	5
8	7	1	2	4	5	6	9	3
9	5	3	7	1	6	4	8	2

Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan



O 21 i 23 Hydref bu 33 o ddisgyblion blwyddyn 8 a 7 Swog o flwyddyn 12, ynghyd â'u hathrawon Delor James ac Edwina Rees yng Ngwersyll yr Urdd, Glan Llyn, lle cafwyd llawer o hwyl wrth fwynhau'r amrywiol weithgareddau a sawl her. Bydd y tridiau yn aros yn y cof am amser hir. Cyddynnodd a chydweithiodd pawb yn hwylus dros ben.

Yn dilyn gweithdy ysgrifennu creadigol yng nghwmni Angharad Tomos ym Mhentrebach, aeth disgyblion Set 1 Cymraeg ati i greu llyfrau i blant. Cynhaliwyd parti lansio'r llyfrau hardd ar Dachwedd 5ed, lle gwahoddwyd staff a disgyblion blwyddyn 2 a 6, Ysgol Gynradd Ffynnonbedr i ymuno â ni. Cafwyd llawer o hwyl wrth weld y llyfrau ac wrth fwyta'r cacennau siocled! Diolch i staff a disgyblion Ffynnonbedr a'r Ysgol Gyfun am ymuno â ni. Yn dilyn hyn, mae disgyblion blwyddyn 9 wedi bod yn Ffynnonbedr yn darllen eu storïau i ddosbarthiadau Blwyddyn 1 a 2, gan lwyr fwynhau'r profiad. Diolch am y croeso. Llongyfarchiadau i flwyddyn 9 am eu gwaith caled a'u brwdfrydedd heintus.

Ar Dachwedd 12fed, ymwelodd disgyblion blwyddyn 12, Safon Uwch Cymraeg, â Theatr Mwldan, lle gwelwyd cynhyrchiad y Theatr Genedlaethol o Tyner yw'r lleud heno, gan fwynhau'r profiad theatrig.



Ar Dachwedd 13, daeth y Prifardd Ceri Wyn Jones atom i'r adran. Treuliodd gyfnod gyda disgyblion Uwch Gyfrannol ac Uwch, yn trafod cefndir ei gerddi. Yna cynhaliwyd gweithdy barddoniaeth gyda disgyblion blwyddyn 9. Mae'r disgyblion oll wedi elwa o'r profiad. Diolch i'r Academi am noddi.



Llongyfarchiadau i dîm Siarad Cyhoeddus cyfrwng Cymraeg yr ysgol, sef Gwawr Hatcher, Meleri Davies a Delyth Mathias o flwyddyn 10, a fu'n cystadlu yn rownd y de orllewin o Gystadleuaeth Siarad Cyhoeddus y Rotari.

Bu Elliw Dafydd, disgybl o flwyddyn 12 yn canu'r delyn yn ffair flynyddol Hafan Deg ym mis Medi. Bwriad y prynhawn oedd denu'r cyhoedd i'r cartref

a chodi arian.

Ddydd Sul yr 28ain o Dachwedd treuliodd disgyblion o flwyddyn 10, 11 a 13 ddiwrnod hir ond ffrwythlon yn Neuadd Goffa Aberaeron yn ymarfer, o dan arweiniad Mr Emyr Wynne Jones ar gyfer Côr SATB Ceredigion. Erbyn diwedd y dydd roedd y darnau'n swnio'n arbennig o dda. Perfformiodd y côr yn y cyngerdd blynyddol yn Neuadd Fawr Aberystwyth ar Ragfyr 15fed.

Rhwng Rhagfyr 11eg - 15fed bu'r disgyblion canlynol ar gwrs penwythnos fel aelodau o gerddorfa Ceredigion. Pinael yr holl ymarfer oedd perfformio gyda'r corau yn y cyngerdd yn Aberystwyth: Caroline Roberts, Bl.12. Ffliwt. Rhys Price, Bl.11 Corn; Gareth Davies, Bl.11 Sacsoffon.

Ar Ragfyr 11eg bu nifer o fechgyn o flwyddyn 10, 11 a 13 yn Neuadd Goffa Llwyneclyn yn ymarfer ar gyfer cyngerdd Côr Bechgyn TB Ceredigion yn Aberystwyth. Roedd yna ddewis da o ganeuon a chyferbyniad rhwng cân werin draddodiadol Migldi Magldi a chân roc Queen, We are the Champions. Roedd yn bleser clywed y bechgyn yn canu mewn côr safonol iawn.

Cynhaliwyd School Wars am y tro cyntaf erioed yn Shoreditch, Llundain ym mis Tachwedd. Bu pum disgybl o'r ysgol, sef Ryan Edwards, Liam Glasson, Naomi Howson, Pan Griffiths a Finn Gale yn cystadlu. Llanbed oedd y tîm ifancaf, ac er na chawsom lawer o amser i baratoi, fe lwyddon ni i fynd i'r ail rownd. Colli wnaethon ni yn y rownd nesaf i'r tîm a aeth ymlaen i ennill y gystadleuaeth.

Trefnir School Wars gan Secret Wars, sef brwydrau celf sy'n cael eu cynnal mewn dinasoedd ledled y wlad. Mae'r gystadleuaeth yn denu darlunwyr, cartwnwyr ac arlunwyr graffiti. Mae'n rhaid i'r arlunwyr greu

llun mewn 90 munud ar fwrdd gwyn gan ddefnyddio paent du. Mae'r gynulleidfa a tri beirniad yn dewis yr enillwyr.

Mae'r disgyblion galwedigaethol yn dal i fod yn brysur gyda gwahanol weithgareddau ar y gweill. Cafodd disgyblion bl. 12 a 13 Iechyd a Gofal y cyfle i fynd i Gynhadledd Iechyd a Gofal yn y Gerddi Botaneg. Cawsant gyfle i wrando ar siaradwyr o wahanol feysydd a buont yn holi cwestiynau i'r Comisynydd Plant, Keith Towler, trwy offer fideo gynadledda.

Mae'r criw Busnes hefyd wedi bod allan o'r ysgol yn ymweld â Chanolfan Bluestone yn Arberth er mwyn gweld sut maen nhw'n darparu gwasanaeth cwsmer o safon. Bydd criw Busnes Bl. 13 yn mynd i Abertawe i ymweld â ffatri Albero Culver i ddysgu am eu dulliau cynhyrchu a rheoli stoc.

Mae criw Busnes Bl. 12 hefyd wedi cael y cyfle i ymarfer eu sgiliau busnes. Sefydlwyd dau fusnes – Get Shirty, sy'n darparu crysau polo lliw ar gyfer gweithgareddau tai yn yr ysgol a Pal Pix, sy'n darparu gwasanaeth tynnu lluniau.

Bu eraill yn cymryd rhan yng nghystadleuaeth fentergarwch Make your Mark. Yn rhan o'r gystadleuaeth undydd bu rhaid i'r timau ymateb i her benodol a gyflwynwyd iddynt y bore hwnnw.

Bu criw Busnes blwyddyn 10 yn ymweld â Ffatri Siocled yn Abertawe er mwyn casglu gwybodaeth ar gyfer eu haseiniadau. Cafwyd diwrnod buddiol a digon o gyfle i flasau'r cynnyrch!

Bu'r disgyblion hefyd yn cymryd rhan yn y gystadleuaeth Make your Mark. Y tîm buddugol oedd 'Llygad y Ffynnon', sef Emma Davies, Lynwen Mathias, Ffion Rees, Meg Edwards ac Angharad Evans. Llongyfarchiadau i bawb a wnaeth gystadlu.

Bu nifer o ddisgyblion o flwyddyn 13 yn dilyn cwrs byr ar arwyddiaith, o dan arweiniad Mr Howard Jones o Gyngor Sir Ceredigion. Cafwyd llawer o hwyl ac fe fydd y sgiliau a ddysgwyd yn sicr yn ddefnyddiol iddynt yn y dyfodol.

Cafodd blwyddyn 11 y cyfle i fynychu cynhadledd ddeuddydd, gan ddysgu am dechnegau cyfweiliad a gwahanol ffyrdd i wneud cais am swydd. Cawsant gyfle i gwblhau CV a ffurflen gais ac ysgrifennu llythyr cais. Cawsant hefyd y cyfle i wynebu ffug gyfweiliadau. Diolch i bawb a gyfrannodd ac i Gyrfa Cymru am helpu i drefnu'r diwrnod.

Llongyfarchiadau i aelodau'r Chweched dosbarth am eu llwyddiant yn yr UK Senior Maths Challenge. Enillodd Seb Lee ac Amy Richardson y Wobr Arian a Craig Richards, Chris Ashton ac Aled Wyn Thomas y Wobr Efydd.

Cafodd disgyblion blwyddyn 12 a 13 sy'n astudio ar gyfer eu harholiadau AS a lefel A gyfle i astudio ar gyfer cymhwyster prifysgol. Mewn partneriaeth â'r Brifysgol Agored, bu'r disgyblion yn astudio pynciau amrywiol, yn cynnwys Ysgrifennu Barddoniaeth a Gwyddoniaeth Fforensig, yn ogystal â Chlefydau Genetig. Sut mae'r Bydysawd yn gweithio a Bywyd y Môr. Roedd yr astudiaethau yma yn eu galluogi i weithio'n annibynnol, yn eu helpu wrth wneud cais ar gyfer prifysgol ac yn ennyn eu diddordeb yn y pwnc. Dyma'r disgyblion a fu'n llwyddiannus:- Christopher Ashton, Bethan Duford, Tomos Harris, Sian Jenkins, Nia Jones, Victoria Lee, Aled Parry, Adam Templeman a Rhian Thomas.

Ar Hydref 13eg, bu tîm o ddisgyblion o flwyddyn 9, 10 ac 11 yn cystadlu mewn cwis cemeg Top of the Bench. Cynhaliwyd y gystadleuaeth yn neuadd brydferth ac hanesyddol Gregynog, ger Y Drenewydd ym Mhowys. Enillodd y tîm y drydedd wobwr yn y gystadleuaeth ac hefyd enillon nhw'r drydedd wobwr am eu crisialau sylffad copr enfawr. Llongyfarchiadau i aelodau'r tîm, Kiri Douglas, Edward Bransden, Bodhi Evans a Fiona Messer.

Ar Dachwedd 4ydd, bu myfyrwyr blwyddyn 12 yn cymryd rhan yn Megadrive 2009 yn Aberporth. Trefnwyd y digwyddiad gan Gyngor Sir Ceredigion ac yn ystod y dydd cafodd y myfyrwyr y cyfle i ddysgu am

ddiogelwch ar y ffordd yn ogystal â chael gwers yrru gan hyfforddwyr proffesiynol. Gwnaeth y myfyrwyr elwa'n fawr o'r profiad ac roedd y trefnwyr yn hapus iawn gydag ymddygiad ac agwedd bositif myfyrwyr Ysgol Llanbed.



Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan

Hoffai staff a disgyblion Canolfan y Bont ddiolech i'r sefydliadau canlynol am eu cyfraniadau hael:-

Clwb Ffermwyr Ifanc Mydroilyn, Clwb Ffermwyr Ifanc Troed yr Aur, a Chlwb Gwawr y Cnapan. Codwyd cyfanswm o £910 ac fe fydd yr arian yma yn helpu i dalu am beiriant codi ym mhwill nofio Llanbedr. Cyflwynodd Siona James o Glwb Ffermwyr Ifanc Mydroilyn sic i Clare Taylor o Ganolfan y Bont.



Bu cynnwrf mawr yng ngwersi hanes blwyddyn 7 yn ddiweddar. Cafodd y disgyblion gyfle i wisgo fel milwyr o'r Oesoedd Canol. Benthycwyd arfau di-ri o'r amgueddfa yng Nghaerdydd. Yn eu plith roedd cleddyf, arfwig, tarian a helmed. Roedd yn brofiad gwerthfawr ac yn gyfle i ddysgu mwy am yr Oesoedd Canol ac yn arbennig am y Goncwest Normanaidd. Dyma luniau rhai o ddisgyblion blwyddyn 7 fel milwyr ffyrnig yr Oesoedd Canol!

Ar y 18fed o Dachwedd aeth 90 o ddisgyblion blwyddyn 9 i'r Theatr Newydd yng Nghaerdydd i weld sioe Horrible Histories – The Frightful First World War. "Roedd y sioe yn sôn am fywyd milwyr yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Roedd yn ddoniol ac yn yr ail hanner fe wisgon ni sbectol 3D" meddai dwy o'r disgyblion, Elinor Jones a Rhian Jones, "Roedd pob math o bethau yn hedfan atom, fel llygod mawr, bomiau a nifer o bethau erchyll eraill!" Roedd y diwrnod yn hwyl ac fe fwynhaodd pawb yn fawr. Fe ddysgom lawer am fywyd y milwyr a'u profiadau yn y ffosydd.

Cynhaliodd y Clwb Garddio sioe i godi arian at Blant Mewn Angen. Bu'n sioe lwyddiannus a chafwyd llawer o hwyl yn blasu'r cynnyrch.

Llongyfarchiadau i enillwyr y cystadlaethau:

Coginio myffins afalau – 1af ac 2ail – Arwel Jones 7 Pedr, Cydradd 3ydd – Emma Newton Jones 8 Non a Collette Evans 8 Non

Creu anifail o afalau a ffrwythau eraill – 1af – Kate Jones 8 Non, 2ail a 3ydd – Lisa Edgell Gillings 8 Non

Dylunio Poster – 1af – Gwennan Holt 8 Non a 2ail – Emma Newton Jones 8 Non.

Diolch i aelodau'r Clwb Garddio a fu'n stiwardio ac i Miss Mattie Evans a Miss Geinor Jones am feirniadu.

Llongyfarchiadau i aelodau'r Clwb Seryddiaeth ar eu canlyniadau gwych yn yr arholiad TGAU Seryddiaeth. Bu'r disgyblion yn gweithio'n annibynnol gan lwyddo i gwblhau'r cwrs mewn blwyddyn yn unig. Mae'r disgyblion wedi adeiladu modelau a deialau haul ac maent wedi bod yn edrych ar y lleuad, gan ddefnyddio telesgopau yn Awstralia a Hawaii.

Llongyfarchiadau i'r merched canlynol o flwyddyn 7 ac 8 a fu'n cystadlu yng nghystadleuaeth nofio'r Urdd:- Sara Wyn Evans, Carys Jones, Leanne James a Haf Burrill.

Llongyfarchiadau mawr i Libby Jones o flwyddyn 11 ar ei llwyddiant unwaith yn rhagor ym myd cleddyfaeth. Bu'n cystadlu mewn pencampwriaethau rhyngwladol yn Ffrainc a Hwngari yn ddiweddar.




Gŵr Gwadd Noson Wobrwyo Ysgol Gyfun Llanbedr yn ddiweddar oedd cyn ddigbyl o'r ysgol sef Rhodri Gomer Davies, canolwr Tim Dreigiau Gwent. Yn y llun mae Aled Thomas, Prif Fachgen, Y Maer a'r Faeres, Cyng. Selwyn a Judith Walters, Rhodri Gomer Davies, Dylan Wyn, Pennaeth, Haydn Richards, Cadeirydd y Llywodraethwyr, a Jane Davies, Prif Ferch.

Calennig yn gyfan ... gymerwch chi wefan?

Bydd hi'n sicr o fod yn flwyddyn newydd dda i nifer o glybiau a chymdeithasau yng Nghymru eleni, wrth i wasanaeth ar-lein Golwg 360 gynnig cyfle gwych iddynt ddatblygu gwefan yn rhad ac AM DDIM!

Mae'r cyfle unigryw yn dod wrth i'r gwasanaeth newyddion ar y we lansio elfennau newydd ar y safle. Un o'r rheiny yw 'Lle Pawb' sy'n rhoi cyfle i glybiau, cymdeithasau ac unigolion greu gwefan fach iddyn nhw eu hunain heb unrhyw gost!



Dywedodd Prif Weithredwr Golwg360, Owain Schiavone, "Mae mwy a mwy o bobl yn defnyddio Golwg 360 i gael y newyddion diweddar" – does dim angen aros am fwletin; mae straeon newydd yn ymddangos trwy'r dydd bob dydd fel y maen nhw'n digwydd.

"Mae'n cynnwys pob math o feysydd, o chwaraeon i gerddoriaeth, o wleidyddiaeth i rai o'r pethau rhyfedd ac ofnadwy sy'n digwydd ar hyd a lled y byd.

"Ond, rydym am i'r gwasanaeth fod yn llawer iawn mwy na gwasanaeth newyddion yn unig, ac mae lansio Lle Pawb yn un cam i'r cyfeiriad hwnnw."

Lansiwyd Golwg 360 ym mis Mai, ac ers hynny mae'r gwasanaeth newyddion wedi tyfu'n raddol ac erbyn hyn yn cyhoeddi mwy na 30 o storïau bob dydd ar gyfartaledd – gan gynnwys straeon hollol newydd a gwahanol.

"Rydym yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth newyddion" meddai Owain, "mae'n cynnig amrywiaeth o storïau o wahanol feysydd. Nawr rydym am roi cyfle mwy uniongyrchol i grwpiau, cymdeithasau ac unigolion gyhoeddi eu newyddion diweddaraf nhw.

"Y ffordd syml i wneud hynny yw trwy gyfrwng is wefan sy'n rhan o wasanaeth Golwg 360. Mae'n gyfle perffaith i hyrwyddo achos yn gyson, a hynny'n rhad ac am ddim – y calennig delfrydol ar ddechrau blwyddyn newydd!"

Felly, os ydych yn awyddus i gael gwefan am ddim i'ch grŵp neu gymdeithas, Lle Pawb ar wefan www.golwg360.com yw'r lle i chi. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â thîm Golwg 360 trwy ffonio 01570 423 529, e-bostio cymorth@golwg360.com neu daro draw i'r wefan wrth gwrs.

Dweud eich dweud

Dim gwasanaeth Cymraeg?

Anfodlon â'r gwasanaeth Cymraeg a gawsoch?

Am gyngor ynghylch eich hawl i gwyno am gorff cyhoeddus a sut i wneud hynny, cysylltwch â:

Bwrdd yr Iaith Gymraeg,
Siambrau'r Farchnad, 5-7 Heol Eglwys Fair,
Caerdydd, CF10 1AT

029 2087 8000

post@byig-wlb.org.uk byig-wlb.org.uk





Cwis Hŷn y Sir

Cynhaliwyd Cwis Hŷn y Sir ar y 26ain o Dachwedd. Diolch i'r llywydd a'i wraig am baratoi'r cwis. Llongyfarchiadau i'r holl glybiau a dyma'r canlyniadau:

Adran Gyffredinol: 1af - Felinfach 2il - Llangeitho 3ydd - Tregaron

Adran Amaeth: 1af - Troedraur 2il - Felinfach 3ydd - Dihewyd

Canlyniad Terfynol:

1af - Felinfach 2il - Trisant 3ydd - Llanwenog

Digwyddiadau'r Frenhines a'r Ffarmwr Ifanc

Cafodd Gymanfa Ganu'r Frenhines a'r Ffarmwr Ifanc ei chynnal ar y 6ed o Ragfyr yng Nghapel y Groes. Roedd yn noson lwyddiannus iawn gyda'r capel yn orlawn. Llywydd y Noson oedd Nicola Davies, Cribyn ac artistiaid y noson oedd C.Ff.I. Llanwenog, Gwawr Jones, Meysydd; C.Ff.I. Felinfach a swyddogion y Sir. Aeth elw'r noson tuag at Gangen Diabetes Llanybydder.

Cynhaliwyd Dawns y Frenhines a'r Ffarmwr Ifanc ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid ar y 29ain o Ragfyr. Cafwyd noson hwylus ar noson aeafol iawn gyda tua 500 o bobl yn bresennol.

Ffair Aeaf

Cafodd y Ffair Aeaf ei chynnal ar faes Sioe Llanellwedd ar y 7fed ar 8fed o Ragfyr. Llongyfarchiadau i'r holl aelodau a fu'n cystadlu a sicrhawyd cydradd ail i'r Sir ar ddiwedd y dydd.

Teithiau Tramor

Llongyfarchiadau gwresog i aelodau'r Sir sydd wedi bod yn llwyddiannus yng nghyflwyniadau Teithiau Tramor Ff.C.C.Ff.I. yn ddiweddar, sef

Catrin Jones, Mydroilyn - Uganda
Carwyn Jones, Mydroilyn - Kenya

Cystadleuaeth y Ddrama

Bydd cystadleuaeth y Ddrama yn cael ei chynnal yn Theatr Felinfach rhwng y 15fed a'r 19eg o Chwefror, am 7y.h.. Gwelir isod drefn y cystadlu. Am docynnau i'r gystadleuaeth cysylltwch â'r swyddfa ar 01545 571 333 neu e-bostiwrch ar ceredigion@yfc-wales.org.uk Mae'r tocynnau ar werth am £7.

Nos Lun, 15fed - Llanddeiniol, Trisant & Talybont

Nos Fawrth, 16eg - Troedraur, Caerwedros, Mydroilyn

Nos Fercher, 17eg - Tregaron, Llangeitho, Pontsian

Nos Iau, 18fed - Felinfach, Penparc, Bro'r Dderi

Nos Wener, 19eg - Llanwenog, Llangwryfon, Llanddewi Brefi

Nos Lun, 22ain - Cyngerdd y tri gorau

C.Ff.I Ceredigion - Dathliad 70 mlynedd

Mae'r Sir yn dathlu pen-blwydd yn 70 yn 2011 ac felly bydd cyfarfodydd yn cael eu trefnu er mwyn dewis digwyddiadau ar gyfer y dathlu. Bydd y pwyllgor yn cwrdd nesaf ar yr 28ain o Chwefror am 7:30 yr hwyr yn Nhafarn Vale, Felinfach. Mae croeso i bawb gan gynnwys aelodau, swyddogion, cyn aelodau/swyddogion a ffrindiau'r mudiad. Os oes gennych unrhyw hen luniau/fideo/DVD neu wybodaeth gyffredinol, cysylltwch â Mared neu Ann yn y swyddfa ar 01545 571 333 neu e-bostiwrch ar ceredigion@yfc-wales.org.uk

Clwb 200

Dyma enillwyr clwb 200 mis Rhagfyr:-

C.Ff.I. Penparc; Gareth & Mary Davies, Maesglas, Drefach a Manon Richards, Lowtre, Llanwnnen

Dyma enillwyr clwb 200 mis Ionawr:-

Dafydd & Delyth Lloyd Jones, Ystrad Dewi, Llanddewi Brefi; Ifan Lloyd, Glenbryn, Abertawe a Lisa Thomas, Penlan, Llanfynydd

Pontsian yn Bencampwyr y Siarad Cyhoeddus Cymraeg

Yn dilyn gohirio'r gystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Cymraeg yn gynharach yn y mis oherwydd yr eira penderfynodd Clybiau Ffermwyr Ifanc Ceredigion gynnal y gystadleuaeth yng Nghampws Coleg Felinfach ddydd Sul Ionawr 24 a rhoi cynnig ar arbrawf newydd drwy redeg y pedair adran yr un diwrnod. Cafwyd diwrnod llwyddiannus iawn gyda dros 170 o aelodau yn dangos eu doniau wrth siarad.

Y clwb a enillodd y nifer uchaf o bwyntiau ar draws y pedair adran ac ennill tarian Brynhogfaen gyda 77 o farciau oedd clwb Pontsian gyda Llanwenog â 71 marc yn ail ac yn ennill Cwpan Coffa Eric Davies, Prengwyn.

Yn yr adran ddarlenn 14 oed neu iau cafwyd 20 o dimau yn cystadlu ac yn beirniadu roedd Mrs Nerys Llewelyn Davies a dyma'r canlyniadau:-

Cadeirydd - 1af Bethan Green, Caerwedros A; 2il Elen Davies, Pontsian C; 3ydd Lowri Davies, Dihewyd.

Darlennydd - 1af Bethan Green, Caerwedros A; 2il Elen Davies, Pontsian C; 3ydd Lowri Davies, Dihewyd.

Tim - 1af Caerwedros A; 2il Felinfach; 3ydd Pontsian C.

Bu cynnydd yn nifer y timau 16 oed neu iau a daeth 16 tim o flaen y beirniad, Mrs Edwina Rees ac ar ddiwedd y gystadleuaeth yma, cafwyd y canlyniadau canlynol:-

Cadeirydd - 1af Lauren Jones, Llanwenog B; 2il Bleddyn Jones,

Llanwenog A; cydradd 3ydd Dafydd James, Bryngwyn a Gwenllian Thomas, Pontsian A.

Siaradwr - 1af Rhodri Morris, Pontsian A; 2il Dyfrig Williams, Llangwryfon; cydradd 3ydd Meleri Morgan, Llangeitho A a Gwawr Hatcher, Llanwenog B.

Diolchydd - 1af Mair Davies, Caerwedros A; 2il Meirian Morgan, Llangeitho A; cydradd 3ydd Guto Thomas, Pontsian A a Marged Jones, Mydroilyn C.

Tim - 1af Pontsian A; 2il Llanwenog B; 3ydd Llangwryfon.

Roedd 7 tim yn y Seiat Holi 21 oed neu iau a Mr Dafydd Lewis oedd yn cloriannu. Dyma'r canlyniadau:-

Cadeirydd - 1af Enfyf Hatcher, Llanwenog; cydradd 2il Elliw Dafydd, Bro'r Dderi a Ffiona Henson, Llanddeiniol.

Siaradwr - 1af Catrin Haf Jones, Mydroilyn; 2il Catrin Jones, Pontsian; 3ydd Rhodri Hughes, Llanddeiniol.

Tim - 1af Pontsian; 2il Llanddeiniol; 3ydd Mydroilyn.

Yn y gystadleuaeth Siarad ar ôl Cinio 26 oed neu iau gwnaeth 9 tim gystadlu gyda Mrs Llinos Jones yn barnu a dyma'r canlyniadau:-

Cadeirydd - 1af Einir Ryder, Pontsian A; 2il Lyn Jenkins, Llanwenog A; cydradd 3ydd Lowri Evans, Troedraur a Teleri Morris Thomas, Pontsian C.

Siaradwr - 1af Wyn Thomas, Pontsian; 2il Cerys Jones, Llanwenog A; cydradd 3ydd Sara Downes, Llangeitho a Lowri Jones, Caerwedros.

Tim - 1af Llanwenog A; 2il Pontsian C; cydradd 3ydd Caerwedros, Llanwenog B a Phontsian B.

Bydd yr enillwyr yn mynd ymlaen yn awr i gynrychioli C.Ff.I. Ceredigion yng Nghystadlaethau Siarad Cyhoeddus Cymru yn Ysgol Tywyn, Aberdyfi ar Chwefror 27ain 2010. Pob hwyl i chi gyd.

Dyddiadau i'ch Dyddiaduron!

Chwefror 15-19 & 22 -

Cystadleuaeth y Ddrama

Chwefror 26/27 - Penwythnos Cymraeg C.Ff.I. Cymru, Meirionnydd

Mawrth 3 - Hyfforddiant Barnu Stoc

Mawrth 5 - Dawns Dewis Swyddogion

Mawrth 5/6 - Penwythnos Saesneg C.Ff.I. Cymru, Llanellwedd, Brycheiniog

Mawrth 10 - Pwyllgorau'r Sir

Mawrth 17 - Hyfforddiant Barnu Stoc

Mawrth 27 - Diwrnod Maes y Sir, Tregaron

Ebrill 16 - Cinio'r Cadeirydd, Prifysgol Llanbedr Pont Steffan

Ymgynghorwyr Yswiriant

Eryl Jones

Beth am gysylltu â ni am amcan-bris i'ch holl anghenion yswiriant?

Car, lori, fan, beic modur

Teithio

Cyfrifoldeb



Yswiriant tŷ/cynnwys

Fferm a busnes

Anifeiliaid

Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant, cyngor a chefnogaeth yn rhad

Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA

Ffôn: 01570 422401

Ffacs: 01570 422562

Authorised & Regulated by The Financial Services Authority

FISHERS

ARMS



Bwyd cartref ardderchog nos Iau, Gwener a Sadwrn. Cwrw traddodiadol. Croeso i awyrgylch Gymreig gan Berian a Beverley Wilkins a'u merched.

Cellan, Llambled

01570 422895

T. Emyr Jones Adeiladwr



Araul, Cwmann

☎ 01570 423921

☎ 07867 945174

CANOLFAN ADDURNO

AA

A

Dewis arbennig o bapur, paent ac offer i wneud addurno yn bleser.

Llyfrau Patrwm, Offer llaw a phwerus. Polion a thraciau lleni, gwasanaeth torri allwedd i pheiriannau cymysgu paent Dulux a Leyland.

Arbenigedd ar garreg eich drws.

3 Stryd y Bont

Llanbedr Pont Steffan

01570 423156

Cludfwyd Indiaidd

NEHAR

newydd agor yn Llambled



Y bwyd wedi ei goginio'n fres bob dydd.

15% o ostyngiad ar archebion dros £10.00.

Y cogydd â dros 20 mlynedd o brofiad o weithio mewn sefydliad indiaidd.

10 Stryd y Bont, Llambled

☎ 01570 422893 / 422175

Llanwnnen

Sefydliad y Merched

Cafwyd cyfarfod diddorol iawn ym mis Tachwedd yng nghwmni tri aelod blaenllaw o'r gymuned yn sôn am bwy yr hoffon nhw gael i ymuno â nhw am ginio wrth y bwrdd bwyd. Croesawyd a chyflwynwyd y siaradwyr gan ein llywydd Mrs Gwen Davies. Roedd Mrs Sally Jones o'r Swyddfa Bost wedi paratoi bwydlen arbennig ac yn gwahodd 15 o westeion gan gynnwys actorion, athletwyr a llywydd yr Unol Daleithiau, Barack Obama. Ond ei phrif westai byddai gweithwyr cynorthwyol Emma McCune, Charles Darwin y naturiaethwyr oedd dewis Miss Mattie Evans a Mr Siôn Mason-Evans yn mentro i'r byd teledu a gwahodd Mr Simon Cowell.

Diolchwyd yn gynnes i'r tri siaradwr gan Mrs Ceinwen Roach a diolchodd Ms Siriol Thomas ar ran Merched Capel-y-Groes am y gwahoddiad i'r cyfarfod.

Enillwyd cystadleuaeth y mis gan Mrs Alice Davies.

Croesawyd pawb yn gynnes i ginio Nadolig y gangen gan ein llywydd Mrs Gwen Davies. Ein gwesteion oedd gwŷr a ffrindiau'r aelodau. Yn dilyn cinio blasus iawn yng Ngwesty'r Grannell cafwyd tipyn o hwyl yn chwarae cardiau chwist. Bu yma dipyn o sbri wrth symud o un bwrdd i'r llall – ambell un yn symud yn fwy cyflym na'i gilydd.

Hefyd ym mis Rhagfyr cafwyd noson yng nghwmni Mrs Judy Jenkins o Ffarmers yn sôn am ei diddordeb yn gwneud gemwaith o fids lliwgar. Roedd ganddi glustdlysau a breichledau o bob math i'w dangos.

Diolchwyd yn gynnes i Mrs Jenkins gan Miss Elsa Thomas ac enillwyd cystadleuaeth y mis gan Mrs Alice Davies. Mrs Alice Davies hefyd a enillodd y marciau uchaf am y gystadleuaeth yn ystod y flwyddyn a chyflwynodd Miss Elsa Thomas anrheg iddi am ei llwyddiant.

Oherwydd y tywydd gaeafol bu rhaid gohirio cyfarfod mis Ionawr.

Pwyllgor Lles

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol y pwyllgor yn ddiweddar a'r Cyng. Haydn Richards yn cadeirio.

Etholwyd y swyddogion canlynol:

Cadeirydd: Cyng. Haydn Richards, Lowtre Is-Gadeirydd: Mr Emyr Lloyd, Y Glyn, Drefach. Ysgrifenyddes: Mrs Gwen Davies, Llys Aeron. Trysorydd: Mrs Ann Hughes, Cwmhendryd

Trefnwyd rhaglen am y flwyddyn nesaf gan gynnwys rhodd Nadolig i oedolion dros 70 oed a gwibdaith yn yr haf.

Gwerthfawrogwyd y rhodd ariannol werthfawr gan Sally Jones, Siop y pentref, ffrwyth Ffair Goffi a Raffl fawr adeg y Nadolig. Rydym yn ddiolchgar iawn iddi am ei

charedigrwydd.

Edrychwn ymlaen at flwyddyn lewyrchus arall.

Ysgol Llanwnnen

Cynhaliwyd Gwasanaeth Cristingl a Ffair Nadolig yn yr Eglwys ac yn y Neuadd. Braf oedd gweld yr eglwys yn llawn. Agorwyd y ffair gan John ac Annette Thomas, Bro Cadarn. Pennaeth yr ysgol a wnaeth eu cyflwyno a rhoi'r diolchiadau ar y diwedd. Roedd yna wobrau da yn y raffl ac fe'u henillwyd gan nifer o bobl. Cafwyd ymweliad gan y dyn pwysig ar y diwrnod olaf, sef Siôn Corn! Cafodd pob plentyn anrheg ganddo.



Yn ôl ein harfer cynhaliwyd cystadleuaeth CogUrdd yn yr ysgol gyda phlant Bl. 4 – 6 yn cystadlu. Mrs Sue Evans, Gwesty'r Grannell fu wrthi yn beirniadu. Ffion Jenkins, Bl. 6 daeth i'r brig, gyda Ryan Holmes ac Ellen Jones yn ail. Bu Ffion yn cystadlu yn y rownd rhanbarthol yn Ysgol Gyfun Aberaeron ddiwedd y mis, ond ni chafodd llwyddiant yno.

Bu'r ysgol gyfan yn gweld Panto 'Barti Ddu' yn Theatr y Lyric yng Nghaerfyrddin ddiwedd y tymor. Gwnaeth pawb fwynhau'r panto yn fawr iawn.

Ddiwedd y tymor hefyd derbyniwyd canlyniadau'r Cwis Llyfrau! Cafodd Tîm A sef Ffion, Cerian, Twm a Ryan 158 allan o 160 a Tîm B sef Sophie, Ellen, Catrin a Gwenllian 148 allan o 160. Da iawn chi. Rydym newydd ddechrau darllen y llyfr nesaf ar gyfer yr ail rownd! Da iawn chi blant a diolch i Miss Davies am eu hyfforddi.

Dechreuwyd y tymor a'r flwyddyn newydd yng nghanol yr eira. Cafwyd rhai diwrnodau ychwanegol o wyliau oherwydd yr eira a'r rhew! Adeiladwyd sawl iglw ar gae'r ysgol a braf oedd gweld eu lluniau ar raglen Wedi 7 gyda'r dynion eira. Croesawyd yn ôl i'r ysgol ein cogyddes sef Shan 'Cook' ar ôl ei llawdriniaeth ddiwedd mis Hydref a chroesawyd hefyd dwy ferch fach newydd i'r ysgol sef Miriam Morgan a Roxy Curthoys. Mae'r ddwy erbyn

hyn wedi ymgartrefu'n hapus gyda ni.

Bu tîm Pêl-rwyd yr ysgol yn cystadlu yng nghystadleuaeth yr Urdd yng Nghanolfan Hamdden Llambod ddydd Mawrth, Ionawr 19eg. Cafwyd tipyn o hwyl. Enillwyd un gêm a cholli dwy gêm. Gwell hwyl y tro nesaf!

Bu 6 o blant yr ysgol yn cymryd rhan yng nghlyweliadau Sioe Gynradd yr Urdd yn Neuadd Felinfach yn ystod y mis.

Rydym yn cynnal clwb ar ôl ysgol bob nos Lun lle rydym yn gwneud llawer o weithgareddau gwahanol. Rydym wedi dechrau meddwl a pharatoi ar gyfer gwneud arwydd i'w roi yn y pentref i groesawu pobl i Geredigion ac yn enwedig i Lanerchaeron adeg Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Bydd yr arwydd ar ei draed tua chanol mis Ebrill!

Ar hyn o bryd rydym yn brysur iawn yn ymarfer ar gyfer Eisteddfod yr Urdd Cylch Llambod a fydd yn cael ei chynnal ddydd Iau, Chwefror 25ain yn Ysgol Gyfun Llambod. Pob lwc i chi gyd.

Cylch Ti a Fi

Mae'r cylch wedi ail gychwyn unwaith yn rhagor a braf yw croesawu nifer o blant newydd. Os ydych am ddod croeso cynnes i chwi - bob dydd Mercher, rhwng 1.15 a 3.15 yn neuadd yr ysgol. [Tymor ysgol yn unig]. Am ragor o fanylion cysylltwch â Mrs Caryl Rosser, 01570 480203.

Elin ar y brig

Ymfalchïwn fel ardal yn llwyddiant Elin Jones, merch Avril a John Jones, Troed-y-Bryn [Tynllyn gynt] ar gael ei hethol yn Aelod Cynulliad y flwyddyn. Cafodd yr anrhydedd yma mewn seremoni yng Nghaerdydd yn ddiweddar.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â Hyw Davies, Or-nant ar golli ei wyres rai wythnosau yn ôl. Dyma'r pedwerydd perthynas iddo golli yn ystod y misoedd diwethaf.

Penblwyddi Arbennig

Ddechrau Ionawr 2010 de ddathlodd Gomer Lewis, Hafan ei ben-blwydd yn 80 oed. Hefyd dathlodd John Jones, Troed-y-Bryn a Ieuan Davies, Bro Grannell benblwyddi arbennig. Gobeithio i chwi eich tri fwynhau eich diwrnod.

Os ydych yn ymateb i hysbyseb gan gwmni yn CLONC, dywedwch wrthynt ymhle y gwelsoch yr hysbyseb.

Creative Cove

40A Y Stryd Fawr,
Llambod, ☎ 421985



Ystod eang o offer swyddfa a deunyddiau celf a chrefft am brisau cystadleuol iawn.

Yn cynnwys:

- Certris inc a deunyddiau cyfrifiaduron eraill, - cardiau cyfarch,
- mapiau arolwg ordnans,
- deunyddiau postio a phacio,
- deunyddiau gwneud cardiau a llyfrau lloffion, - pecynnau crefft i oedolion a phlant, - paent Winsor a Newton,
- padiau brasluniau arlunwyr, cynfas a phapur dyfriliw.

Ruth Thomas a'i Chwmni Cyfreithwyr

19 Stryd y Coleg, Llambod
Ffon: 423300 Ffacs: 423223
mail@ruththomassolicitors.co.uk

yn cynnig pob
gwasanaeth cyfreithiol
*Apwyntiadau hwyr neu
yn eich cartref*

**W.D.
Lewis
a'i Fab**

Masnachwyr Amaethyddol

☎ 01570 422540

Melin Mark Lane, Stryd y Bont,
Llanbedr Pont Steffan

*Am holl fwydydd a nwyddau
amaethyddol, cysylltwch â ni.*

**WILLIAMS
& BOURNE**
CYFREITHWYR.
COMISIYNNWYR LLWON

Trosglwyddiadau a phob
gwasanaeth cyfreithiol.
Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.

**1 Sgwâr Harford,
Llambod**

☎ 01570 422206 ☎ 01570423540

A thrwy apwyntiadau yn Nhregaron, Llanybydder,
Castell Newydd Emlyn a Chaerfyrddin.

CEGIN GWENOG

Abernant, Llanwenog

Gwasanaeth arlwygo cyflawn ar
gyfer pob achlysur

- Bwyd Priodas
- Bwffe
- Te Angladd
- Digwyddiadau Maes



*Bwydlenni unigol i ateb eich gofynion
chi - boed yn fawr neu'n fach*

Mair Hatcher
01570 481230 / 07967 559683



Cinio i'r cariad ym mis Chwefror.

Hyfryd yw bod nôl yn y gegin a dod ag ychydig o 'gariad' i gegin 'Clonc'. Pryd tri chwrs; perffaith i'r pâr ar Noson San Ffolant; symyl, soffistigedig, a digonedd o speis! Beth am ddod â 'Hud a Lledrith' i'r cwrs cyntaf gyda madarch blas sitrig; i'r prif gwrs - Cis Cis X X gyda'r cwscws; a meddal mewn mws i bwdin.

Mae modd paratoi tipyn ar y fwydlen ymlaen llaw, er mwyn sicrhau treulio digon o amser yng nghwmni eich gilydd dros swper.

Llawer o gariad,
Gareth

'Speis a Madarch'.

Cynhwysion –

- 1 llond llwy fwrdd o fwstard grawn
- 1 llond llwy fwrdd o olew'r olewydd
- 1 llond llwy fwrdd o saws Caerwrangon (Worcestershire)
- 1 ewin o arllwg wedi'i falu.
- 4 madarch mawr
- ½ llwy de o paprica
- Ychydig o ddail letys cymysg
- Bara â chrwstyn da iddo.



Dull

1. Trowch y ffwrn i 200° C; Nwy 6. Mewn powlen cymysgwch y mwstard, olew, y saws, garllwg a phupur a halen.
2. Ychwanegwch y madarch mawr, a gadewch iddynt fwydo neu farineiddio am tua ½ awr. Gosodwch y madarch â'r goes i fyny mewn tun pobi a choginiwch am 8 – 10 munud.
3. Rhewch y dail letys ar blatiau yna'r madarch a'r marinêd. Gweinwch gyda'r bara.

Cyw Iâr, Oren a Chwscws.

Cynhwysion

- 1 Oren
- 1 lemwn
- 2 lond llwy fwrdd o farmaled
- 1 llond llwy fwrdd o olew'r olewydd
- 2 frest cyw iâr
- Ychydig o ddail teim
- 1 winwsyn coch wedi'i goginio
- 100 gm o Cwscws wedi'i dorri'n fân
- Ychydig bersli wedi'i dorri'n fân



Dull

1. Trowch y ffwrn i 200° C Nwy 6. Torrwch y ffrwythau yn haneri. Gwasgwch y sudd o ddau hanner, (oren a lemwn). Cymysgwch gyda'r marmalead a'r olew i wneud y sglein.
2. Gwnewch doriadau dros frest y cyw iâr gan wthio ychydig ddail teim i'r toriadau. Gosodwch ar dun pobi a thorrwch gweddill yr oren a'r lemwn yn ddarnau a'u gosod o amgylch y cig. Arllwyswch y sglein drosto.
3. Pobwch am tua 30 munud. Gweinwch gyda'r Cwscws a rhoi'r persli drosto.

Mws Marmor Mafon

Cynhwysion

- 1x 250gm o gaws meddal
- 25 gm o siwgr eisin
- 1 llond llwy fwrdd o frandi
- 125 gm o fafon wedi eu rhewi



Dull

1. Cymysgwch y caws, brandi a'r siwgr eisin nes bod y cyfan yn feddal
2. Cymysgwch y mafon i greu effaith marmor. Llenwch ddau wydr. Gweinwch gyda bisgedi.

Colofn Dylan Iorwerth

Eira - yr ateb

Slawer dydd, roedd plwyfi'n gyfrifol am eu ffyrdd a'u priffyrdd eu hunain, hynny oedd yna i'w cael.

Os ydychydig yn iawn, yn y dyddiau cyn tarmac, pobol leol a fyddai'n trefnu i lenwi tyllau a cheisio gwella ambell i bont.

Ac mi fyddai ambell dirfeddiannwr neu ddyn busnes weithiau yn talu am greu ffordd newydd, er mwyn hwyluso eu teithio a'u masnach.

O weld yr eira mawr ddechrau mis Ionawr, efallai ei bod yn bryd i ni feddwl am drefn debyg eto. Does yna fawr o help i'w gael o unman arall.

Oherwydd prinder arian – a halen – doedd y rhan fwyaf o gynghorau sir Cymru ddim yn gallu gwneud mwy na chlirio'r ffyrdd mawr a gadael y gweddill i'r elfennau.

Felly yr oedd hi yn ardal Clonc wrth gwrs – yn y ddwy sir – a rhai strydoedd, ffyrdd cefn a stadau wedi bod dan drwch o eira a rhew am bythefnos fwy neu lai.

Mae'n amlwg na fedr yr awdurdodau cyhoeddus ddim gwario arian i baratoi at aeafau caled sy'n dod bob rhyw 30 mlynedd, ond mi fyddai'n ddiddorol gwybod faint o arian a gafodd ei golli oherwydd bod pawb yn styc.

Athrawon

Wedi'r cyfan, mewn ceir bach cyffredin fel sydd gan y rhan fwyaf ohonon ni, does dim llawer o bwynt clirio priffordd, os na fedrwch chi ei chyrraedd hi.

Felly, faint tybed o arian cyhoeddus a wariodd y cynghorau ar gadw athrawon yn eu tai? A faint o rieni oedd wedi gorfod aros o'r gwaith oherwydd bod y plant gartre' hefyd?

Yn ogystal â bod yn ofnadwy o beryglus, roedd cerdded strydoedd Llanbed yn brofiad rhyfedd yn ystod yr oerfel mawr. Dim ond un neu ddau o bobol yma ac acw yn rhynnu ar y corneli, a'r siopau bron yn wag.

Yr unig eithriad oedd bod rhai o'r archfarchnadoedd wedi gwneud ffortiwn yn gwerthu stwff diangen i bobol mewn panic gwyllt. A dyna gwestiwn arall – beth mae pawb am ei wneud gyda'r holl fara wedi rhewi a'r mynyddoedd o bapur toilet?

Ynghanol oes yr iechyd a diogelwch, pan nad ydi ffarmwr yn cael yfed ei laeth ei hun na'r un ris yn cael bod heb ganllaw, roedd ein ffyrdd a'n palmentydd yn cael eu gadael fel cylchoedd sglefrio.

Os maddeuwch chi'r defnydd o eiriau, mae angen ateb slic.

Felly pam na all pob cymuned ddechrau cyflogi un neu ddau o ffermwyr neu yrwyr JCB lleol i fod ar gael bob gaeaf i glirio os bydd angen. A chael cronfa halen i bob pentre', wedi'i phrynu i mewn ar y cyd gyda'r shop chips leol.

Arian

A dweud y gwir, mae yna lot o sgôp yn y syniad. Os oes pobol ddiarth yn mynd yn styc yn eich ardal chi, mi allech chi godi crochris am eu tynnu nhw allan – a dyna help i dalu'r cyflogau.

Wedyn, ar rywle fel rhiw Llanwnnen neu Lanwenog, bob tro y byddai peryg o rew, mi allech chi fynd yno gyda thancer o ddŵr i chwistrellu'r ffordd yn iawn, er mwyn gwneud rhagor o arian maes o law. Mwyaf rhew, mwya'r elw, fel y dywed yr hen ddihareb.

Yn union fel yr oedd y gwŷr mawr yn talu am ffyrdd erstalwm, efallai y byddai'r archfarchnadoedd mawr a'u tebyg yn gweld gwerth mewn talu i glirio'r eira a'r rhew er mwyn i'r nwyddau gyrraedd y siopau. Sainsbury's yn noddi'r gaeaf.

Ac mae'n siŵr y byddai rhai plant ysgol yn dod at ei gilydd a rhoi eu holl arian poced mewn cronfa i dalu i'r clirwyr eira gadw draw. Mae arian i'w wneud ym mhob ffordd y gallwch chi feddwl.

Dim ond tri pheth sy'n hollol sicr. Petaech chi'n creu trefn fel hyn, fyddai hi ddim yn bwrw eira am flynyddoedd; fe fyddai rhywrai'n sicr o gwyno nad yw'r gwasanaeth yn ddigon da ac, yn ola', fyddai'r sefyllfa ddim gwirionach nag yr yw hi heddiw.



Cegin Gareth
Goedwig
Llanbedr P.S.
SA48 7JP
01570 422 313

Blodau
Cacennau
Dathliadau
Partion

Llanybydder

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â Gwenda ac Eirwyn Davies, Llyscerdd a'r teulu ar golli mam, sef Mrs Myra Morgan a oedd yn byw yn Cilcennin a hithau yn 90 oed.

Cydymdeimlwn hefyd ag Anona a Len Ebenezer, Cedars a'r teulu oll ar golli ei mam ddiwedd y flwyddyn ac yna ym mhen pythefnos collodd Len ei fam yntau. Cydymdeimlwn yn ddwys gyda chi oll yn eich galar.

Babi Newydd

Llongyfarchiadau i Aled a Melanie Davies, 13 Bro Rhydybont ar enedigaeth mab bach yn ystod mis Rhagfyr a'i enw Hywel Siôn, ŵyr bach newydd i Evan John a Rhiannon Davies, Brookland, Llanybydder.

Hefyd i Marian ac Eifion Davies, 4 Bro Rhydybont ar enedigaeth merch fach ar Ionawr 14eg, Cadi Leisa, chwaer fach i Jac, Tomos a Rhys.

Lansio Llyfr

Roedd nos Lun, 7fed o Ragfyr yn noson i'w chofio i deulu Llwynfedw, Llanybydder, noson lansio llyfr tad Llinos Davies yng Nghapel Esgairdawe. Daeth tyrfa dda ynghyd am noson ddifyr iawn a chyfle i brynu copïau o 'Perlau'r Pridd' sef Dyddiaduron Defi Lango.

Cadeiriwyd y cyfan gan Dylan Lewis a bu'r Parch Goronwy Evans yn darllen detholiadau o'r llyfr. Cyflwynodd y copi cyntaf i Llinos a chafwyd ymatebion ar ffurf penillion ganddi hi a'i mab Kevin.

Wedyn, cyflwynodd Llinos anrhegion i Goronwy Evans a'i wraig Beti am eu gwaith caled yn golygu'r dyddiaduron a sicrhau fod y llyfr wedi gweld golau dydd. Cyflwynodd Llinos gopi o'r llyfr hefyd i aelodau Capel Esgairdawe am eu cyfraniad ariannol a chafwyd ymateb ar lafar gan y Parchedig Huw Roberts.

Gwahoddwyd y Dr Hefin Jones, Caerdydd i annerch ar ran y teulu.



Diolch

Dymuna Mrs Eirwen Jenkins (Glaneion gynt) ddiolch yn gynnes iawn i'w theulu a'i ffrindiau am y llu o gardiau, blodau ac anrhegion a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn 90 oed yn ddiweddar. Gwerthfawrogi hyn yn fawr.

Mae Hefin yn nai i Defi Lango, a bu'n hel ei atgofion am y dyddiau da a dreuliodd gyda Defi a May ar fferm Blaengofarth.

Daeth y noson i ben wrth i bawb gydganu emyn gyda Mrs Audrey Evans wrth yr organ.

Bu'r gwerthiant dros gyfnod y Nadolig yn llwyddiannus iawn, a chafwyd ymateb anhygoel i'r llyfr. Os nad ydych wedi ei brynu eto, cysylltwch â Llinos ar 480350, neu galwch yn Siop y Smotyn Du Llambled am eich copi.

Diolch

Mae Lena Williams, Hafan y Waun, Aberystwyth yn diolch am anrhegion a chardiau Nadolig a dderbyniodd yn ystod yr ŵyl, a hefyd i bawb sydd yn ymweld â hi yn ystod y flwyddyn.

Dymuna Jason, Cynthia a Miriam o Gaerdydd ddiolch o galon i bobl Llanybydder a'r cylch am y caredigrwydd o gonsyn tuag at Charlie yn ystod ei salwch. Mae yn braf cael dweud ei fod yn gwella erbyn hyn.

Cerdd

Llongyfarchiadau i'r canlynol ar basio arholiadau o dan nawdd y Coleg Cerdd Brenhinol.

Gradd 6 - Sacsoffon Anrhydedd - Gareth Davies, Llys Enwyn. Gradd 5 - Piano gyda Theilyngdod Meleri Davies, Tyngrug Isaf. Gradd 4 - Ysgrifenedig Sioned Davies. Gradd 4- Ysgrifenedig gyda theilyngdod Lowri Elen, Glennydd, Llambled. Da iawn chi gyd.

Cydymdeimlad

Danfonwn ein cydymdeimlad dwys â Mr Elwyn Williams, Brynglas, Gwyneth, Tim a'r teulu, Llysenwyn, Glesni, Gregory a'r teulu yn Llandeilo yn dilyn marwolaeth priod, mam a mam-gu annwyl ym mherson Mrs Mary Eunice Williams yn dilyn cyfnod hir o salwch.

Priodas Aur



Roedd Beyron ac Anne Thomas, Yr Hafod yn dathlu eu Priodas Aur ar Ragfyr 19 a bu i'r teulu estynedig gyfarfod i ddathlu yn y Grannell, Llanwnnen.

Ddiwrnod eu priodas, union 50 mlynedd ynghynt, cafodd y car a oedd yn eu cario ar eu mis mel o Eglwys Sant Barnabas, Drefach Felindre olwyn fflat. Ac nid unwaith ond ddwywaith! Y tro hwn doedd yna'r un anhawster gyda'r car a chafwyd dathliad i'w gofio ac i'w drysori. Llongyfarchiadau iddynt!

Cellan

Gwellhad Buan

Dymunwn wellhad buan i Llyr Thomas, Llain-deg ar ôl iddo dderbyn anffawd wrth chwarae rygbi yn ddiweddar. Gobeithio y byddi o gwmpas yn glou.

Capel yr Erw



Y diacon Johnny Williams yn derbyn rhodd ar achlysur ei ben-blwydd yn 90 oed oddi wrth swyddogion ac aelodau Capel yr Erw, Cellan. Gwelir Ken Jones yn cyflwyno'r rhodd iddo.

Chwaraeon

Sarn Helen

Yn ail gyfres cynghrair Gwent yng Nghaerfaddon, cafodd Mareid Owen ras dda iawn ac yn gorffen yn y seithfed safle, Richard Marks 156, Gareth Jones 264 a Gethin Jenkins 265 i'r dynion hŷn, a Janet Jones 141 a Sue Jenkins yn 179 i'r menywod. Yn y trydydd gyfres a oedd yn cael ei chynnal yn Taunton cafodd Mareid Owen ras arbennig eto a gorffen yn 5ed. Ar ôl tair cyfres mae Mareid yn y pedwerydd safle a dim ond un pwynt y tu ôl i'r trydydd. Dal ati Mareid!

Cafodd pedwar aelod o'r clwb eu dewis i gynrychioli Gorllewin Cymru yn Llanfair ym Muallt a Rhian Jones yn gorffen yn 37 i'r merched dan 15; Caryl Davies 17 - menywod agored; Janet Jones 21 - menywod 35, a Richard Marks 23 i'r dynion hŷn.

Roedd ras Gŵyl San Steffan yn cael ei chynnal yng nghlwb gwledig Trefach ger Crymbych a dim ond dau o'r clwb a aeth, sef Carwyn Thomas yn gorffen yn yr ail safle mewn 41 munud a 57 eiliad, ac yn safle 16 daeth Lyn Rees mewn 56 munud a 3 eiliad.

Dyw dechrau'r flwyddyn newydd heb fod yn rhy dda i'r clwb gan fod rasys mis Ionawr wedi cael eu gohirio oherwydd yr eira. Edrychwn ymlaen nawr at rasys mis Chwefror gyda phob penwythnos yn brysur iawn i'r aelodau.

Golffwraig o fri!!!



Mae Rhian Wyn Thomas, Llechwedd, Llanwenog ar fin cystadlu yn erbyn chwaraewyr golff gorau'r byd ar ôl derbyn ei cherdyn proffesiynol mewn cystadleuaeth yn Sbaen cyn y Nadolig. Roedd 200 o fenywod yn cystadlu am 50 cerdyn proffesiynol ac fe orffennodd Rhian yn 43ain.

"Mae'n amser cyffrous iawn" meddai Rhian "Ac rwy'n edrych ymlaen at yr her newydd o gystadlu'n broffesiynol." Pob hwyl i Rhian ar drothwy gyrfa arbennig.

Ysgol Ffynnonbedr



Rhaid canu clodydd timau gymnasteg yr ysgol hefyd a hyfforddwyd gan Mr Islwyn Rees.

Mewn cystadleuaeth genedlaethol a gynhaliwyd yn ddiweddar fe ddaeth y tîm merched dan 11oed yn bedwerydd. Aelodau'r tîm oedd Elan Lewis, Chelsie Malpas, Annie Marshall, Jessie Dalton a Catrin Davies. Llwyddodd y tîm dan 9 fodd bynnag i gyrraedd y brig a dod yn gyntaf. Aelodau'r tîm oedd Charlotte Saunders, Grace Page, Mari Lewis, Lowri Davies a Lucy Hill. Mae hyn yn gryn gamp - llongyfarchiadau i bawb.



Ysgol Carreg Hirfaen



Llongyfarchiadau mawr i dîm pêl-rwyd Carreg Hirfaen a enillodd gystadleuaeth cylch Llambod. Pob lwc yn y gystadleuaeth ranbarthol ym mis Chwefror.

Ceris Morgan
yn trin gwallt yn eich cartref



Tori a sychu, steilo a lliwio,
cwilo a gosod gwallt ar gyfer
achlysuron arbennig.

Prisau rhesymol.
Ffoniwch: 07738 492613
Cwmnï
ond yn barod i deithio'r ardal.

Cefn-hafod

Gorsgoch

01570 434238



Dewch i fwynhau mewn awyrgylch Gymreig a chartrefol. Cewch ddewis eang o fwyd cartref blasus a chwrw da. Cinio dydd Sul o 12 tan 2:00y prynhawn hefyd.

Croeso cynnes oddi wrth Geraint, Eiddwen a'r teulu.

Arbenigwyr mewn bariâu symudol at unrhyw achlysur allanol a dawnsfeydd ysgubor.

Mwnci ffwnci



Brodweithio
a Phrintio Dillad.
Darparu
Dillad Gwaith
a Hamdden.

Sioned Green
a **Mared Jones**
Nantgwyn,
Heol Llanfair
Llambod

01570 423135
07811917799 /
07968821035

mwnciffwnci@hotmail.com

COMPASS OFFICE SUPPLIES



Am eich holl
ddeunydd swyddfa

Uned 19, Stâd Ddiwydiannol
Llambod, Heol Tregaron,
Llambod.

01570 422955
01570 422232



**Toriad
Taclus**

Mae Toriad Taclus
Wedi newid siop
Mae ar Heol Caerfyrddin
Ger y Sgwâr Top

Ffoniwch Catrin ar 01570 481425



Dôl- Mebyd,
Pencarreg,
Llanybydder.

Annwyl Blant,

Blwyddyn newydd dda ffrindiau annwyl. Shwt ydych chi? Gobeithio eich bod chi wedi mwynhau'r holl eira ac wedi cael cyfle i godi dyn eira neu ddau. Rydw i a Joni Jacôs bron â sythu yma ac yn edrych ymlaen yn fawr at yr Haf, er mwyn cael cynhesu tamaid bach. Roedd hi'n anodd iawn mynd o fan i fan gyda'r gragen hon ac roedd hi bron yn rhwyddach imi orwedd ar fy nghefn a sgelfrio i bob man. Bach yn boenus oedd hynny cofiwch!

Wel, roedd gwaith lliwio'r mis hwn yn arbennig o dda gyda safon y gwaith yn dachus dros ben. Mae clod arbennig yn mynd i Charlie Butcher o Gaerdydd, Owen Heath o Lamed, Emily Roach o Lanwnnen, Dion Wyn a Betsan Davies o Landysul. Ond yn dod i'r brig y mis hwn am waith arbennig o dda mae Daniel Rees, Llwyneithin, Bwlchfadfa, Talgarreg. Llongyfarchiadau mawr iti Daniel a chofiwch fynd ati i liwio llun y mis hwn a'i ddanfôn ataf erbyn dydd Gwener, 19 Chwefror.



Enillydd
y mis!

Daniel
Rees

O'r Cynulliad gan Elin Jones AC

Yn ystod yr wythnosau diwethaf, mae nifer o berchnogion busnesau lleol wedi bod mewn cysylltiad â mi ynghylch y cynydd yn eu trethi busnes o fis Ebrill ymlaen. Daw hyn o ganlyniad i'r broses o ailbrisio adeiladau busnes yng Nghymru a Lloegr sydd wedi bod yn digwydd yn ddiweddar. Tra bydd rhai busnesau yn gweld gostyngiad yn y trethi busnes sydd angen iddynt dalu, mae'n debyg mae cynydd mawr yn y trethi sy'n wynebu'r mwyafrif o fusnesau lleol.

Yn anffodus, nid yw'r broses o ailbrisio adeiladau busnes yn fater sydd wedi ei ddatganoli. Fodd bynnag, rwy'n falch iawn bod y Gweinidog dros Lywodraeth Leol wedi cyhoeddi cyn y Nadolig y bydd y trothwyon i fusnesau bach gael bod yn gymwys i gael cymorth tuag at dalu eu trethu busnes yn codi 20 y cant. Er fy mod yn ymwybodol na fydd hyn yn datrys yr holl broblemau sy'n wynebu busnesau lleol o ganlyniad i'r ailbrisio, mae'r cyhoeddiad yn dangos bod Llywodraeth y Cynulliad yn ymwybodol o'r broblem.

Yn ddiweddar, fe aeth Ymgeisydd Seneddol y Blaid yng Ngheredigion, Penri James, a finnau i fore coffi yn Aberteifi i nodi dechrau blwyddyn o ddatliadau i nodi pen-blwydd y dref yn 900 oed. Rwy'n gwybod bod trigolion Aberteifi wedi bod wrthi'n paratoi ar gyfer 2010 ers nifer o fisoedd ac rwy'n edrych ymlaen at fynychu digwyddiadau eraill yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

Yn olaf, rwyf wedi mynychu dau gyfarfod o'r Fforymau 50+ sy'n cael eu cynnal yng Ngheredigion. Wrth fynychu cyfarfod o Fforwm Sarn Helen yn Nhregaron cyn y Nadolig, ac yna Fforwm Ystrad Fflur ym Mhontrhydfendigaid yn fwy diweddar, roeddwn yn falch iawn gweld cynifer o bobl yn dod at ei gilydd i gymdeithasu a hoffwn ddiolch am y croeso cynnes a dderbyniais.



Enw:

Cyfeiriad:

Annwyl ddarlennwyr,
Mae'r rhaglen deledu boblogaidd Noson Lawen yn chwilio am dalentau newydd i berfformio ar y gyfres nesaf ar S4C. Ydych chi'n gallu canu, dawnsio neu chwarae offeryn; ydych chi'n chwarae mewn band neu'n gallu gwneud i bobl rholio chwerthin? Os oes gennych chi dalent arbennig neu os ydych yn nabod rhywun y bydde chi'n hoffi ei enwebu i berfformio ar y gyfres, cysylltwch efo tîm y Noson Lawen. Ffoniwch 01248 671 167 (yn ystod oriau swyddfa) neu e-bostiwch nosonlawen@cwmnida.tv neu, cysylltwch trwy ymuno â grŵp Facebook Noson Lawen <http://groups.to/nosonlawen/>

Yn gywir,

Jenny Matulla, Ymchwilydd

Annwyl Ddarllenwyr,
'Byw yn yr Ardd' 2010

Mi fydd trydedd cyfres 'Byw yn yr Ardd' yn ôl ar y sgrin ar S4C yn gynnar yn y Gwanwyn eleni yng nghwmni Russell Jones, Bethan Gwanas a Sioned Rowlands.

Ydych chi'n adnabod unrhyw arddwyr diddorol neu a ydych wedi dod ar draws unrhyw erddi prydferth neu wahanol? A oes gyda chi stori â chysylltiad garddwriaethol i'w rhannu gyda ni? Mae croeso i chi gysylltu â 'Byw yn yr Ardd' ar 01248 671167 neu trwy'r e-bost ar post@bywynyrardd.net

Edrychwn ymlaen at glywed oddi wrthyh - diolch yn fawr am eich cymorth.

Cofion cynnes.

Tîm 'Byw yn yr Ardd'



D & C Rallying



Rhif Ffôn 01570 434 244 / 07973 420 664
CEIR - FANIAU - CERBYDAU 4x4

Gwasanaethu ac atgyweirio o bob math
a pharatoi eich car ar gyfer MOT

* Teiars o bob math * Olew * Filteri * Batris * Brêcs *

Am bopeth i'ch car, dewch yma aton ni
Tanrhos, Cwrtnewydd, Llanybydder Ceredigion, SA40 9YN

Oriel y mis



Noson Lansio Perlau'r Pridd - Dyddiaduron Defi Lango, Esgairdawe Parch. Goronwy Evans, y golygydd, a'i wraig Mrs Beti Evans; Mr Lloyd Davies, mab yng nghyfraith; Dr. Hefin Jones, nai Defi Lango, a fu'n annerch ar y noson; Mrs Rachel Jones, chwaer; Mr Kevin Davies, ŵyr; Mrs Llinos Davies, merch Defi Lango, a'r Parch. Huw Roberts a dderbyniodd gopi ar ran y capel.



Ysgol Ffynnonbedr sydd newydd dderbyn Marc Safon Technoleg Gwybodaeth. Yn dangos y gwobrau mae rhai o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen, Tia Deacon-Jones, Austin Thomas, Catrin Daniel a Logan Jones. Ysgol Ffynnonbedr yw'r ysgol gyntaf yng Ngheredigion i dderbyn y wobwr hon.



Helen, merch John a June James, Maesteg, Cwmann a Daniel mab Eifion ac Ethel Davies, Llyshelen, Ffarmers wedi eu priodas yng Nghapel Brondeifi ar Rhagfyr 31ain.



Disgyblion Ysgol Ffynnonbedr a fu'n llwyddiannus yng Nghala Nofio'r Urdd yn ddiweddar.

CYFRI

CYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL
INDEPENDENT FINANCIAL ADVISERS

23 Stryd y Coleg, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7DY
T 01570 423823 E post@cyfri.co.uk W www.cyfri.co.uk

Ydych angen cymorth i gael eich materion ariannol mewn trefn?
Am gyngor diduedd annibynnol ar amryw o faterion ariannol, yn cynnwys:
Buddsoddiadau, Pensiynau, Treth Etifeddiaeth, Yswiriant Bywyd,
Yswiriant salwch difrifol a diogelwch incwm

Gary Davies BSc(Hons), Cert PFS
Beca Hands BSc(Hons), MSc(Hons), Cert PFS

Cysylltwch â ni am wasanaeth proffesiynol y gallwch ymddiried ynddo.
Mae'n bodi i werth eich buddsoddiadau a'ch pensiynau gartref yn ogystal â chynyddu. Nid ydych yn sicrhau gael eich buddsoddiad gwerthfawr yn ôl.

LAS Recycling Ltd



Angen Sgip?
Diwydiannol, Masnachol
neu i'r cartref.
Sgip i bob pwrpas
Rhowch alwad i ni
ar 01570 421421

Ffordd Tregaron, Llanbed, Ceredigion, SA48 8LT

Gorsaf
Brawf
MOT

GAREJ BRONDEIFI



Heol Llanfair Road, Llanbed, SA48 8JX

- * Gwasanaeth trwsio ac atgyweirio
- * Teiars am brisiau cystadleuol
- * Ceir newydd ac ail law ar werth
- * Batris * Breics * Egsost
- * Gorsaf Brawf MOT Ceir a Beiciau Modur



Peiriant Golchi Ceir Poeth

01570 422305

07974 422 305

Siaradwyr o fri



Enillwyd cwpan y cadeirydd gorau o dan 26 oed gan Einir Ryder o Glwb Pontsian.



Lauren Jones, o Glwb Llanwenog yn ennill cwpan y cadeirydd gorau dan 16 oed.



Enillydd tlws y cadeirydd gorau dan 21 oed oedd Enfys Hatcher, Llanwenog.



Rhai o ddisgyblion Ysgol Gyfun Llanbed yn barod i ganwio yng Nglanllyn.



Aelodau o Glybiau Ffermwyr Ieuainc Ceredigion yn derbyn tystysgrifau wedi eu cwrs yn Adran y Cyfryngau, Coleg Llamed. Hefyd yn y llun mae'r tiwtoriaid a swyddogion y Coleg.



Disgyblion Ysgol Gyfun Llanbed wrth Lyn Tegid ger y Bala.